WELSH
BV
4920
.B37
1846

Welsh National Library of America

at

Brigham Young University

Provo, Utah

From Rev. Daniel Hughes

Call No. Welsh 243 B336g

Acc. No. 489

Henry D Fox

David D Fox

1324)496

1243)4923948(

230)3567(15
230
1267
1150
117

D. D Foulkes

Henry D Foulkes

Brynoaled

Llanuwchllyn

Near Bala

Merionith

1852

Edwards Edwards

Edwards Edwards

Pentre town

Henry D. Foulkes

Walter Phillips

William R. Jones

II 1 Union ave.

Utica N.Y.

Welsh
243
B336g

# GALWAD

I'R

# ANNYCHWELEDIG;

## I DROI AT DDUW A BYW.

GAN Y PARCH. RICHARD BAXTER,
Yr hwn a fu farw yn y fl. 1691.

WEDI EI DALFYRRU I RADDAU.

CYHOEDDWYD GAN Y
GYMDEITHAS DRAETHODAWL AMERICANAIDD
Rhif. 150 Heol Nassau, Caerefrog Newydd.

D. Fanshaw, Argraffydd.

# CYNNWYSIAD.


tu dal.

RHAGYMADRODD, . . . . . . . . 5

AGORIAD Y TESTUN, . . . . . . . 15

ATHRAWIAETH I.—Cyfraith anghyfnewidiol Duw ydyw, y bydd raid i'r drygionus droi, neu farw, . . . 20

ATH. II.—Addewid Duw ydyw, y bydd i'r annuwiolion a droant gael byw, . . . . . . . 60

ATH. III.—Duw sydd yn cymmeryd hyfrydwch yn nhroedigaeth, ac iachawdwriaeth pechaduriaid; ond nid yn eu marwolaeth, na'u damnedigaeth: dewisach fyddai ganddo iddynt droi a byw, na myned ymlaen a marw, . 69

ATH. IV.—Y mae yr Arglwydd wedi cadarnhau trwy lw, nad yw efe yn ymhoffi yn marwolaeth yr annuwiol, ond yn hytrach troi o hono a byw; ac felly ni adawodd efe un esgus i ddyn ammeu'r gwirionedd o hynny, . . 76

ATH. V.—Mor daer y mae Duw am droedigaeth pechaduriaid, fel ag y mae efe yn ail adrodd drachefn ei orchymynion a'i annogaethau gyd a phwys, a dyfalwch, a thaerni mawr,—Dychwelwch, dychwelwch; paham y byddwch feirw? . . . . . . . . . 83

ATH. VI.—Y mae'r Arglwydd yn ymddarostwng i ymresymmu gyd a phechaduriaid annychweledig, ac yn gofyn iddynt paham y byddant feirw? . . . . . 101

ATH. VII.—Os, ar ol hyn oll, ni fyn dynion droi, nid ar Dduw y mae'r bai eu bod yn cael eu condemnio, ond arnynt eu hunain; o herwydd eu cildynrwydd. Y maent yn marw, o achos eu bod yn ewyllysio marw; hynny yw, o herwydd na fynnant ddychwelyd. . . . . . . 123

# RHAGYMADRODD.

Y MAE cael iawn wybodaeth, a boddlonrwydd, ynghylch gwirionedd ac iachusrwydd ein troedigaeth a'n sancteiddrwydd, o'r fath ganlyniad mawr ac annhraethol, fel na ddichon neb fod yn rhy ddiwyd a gofalus i *wneuthur ei alwedigaeth a'i etholedigaeth yn sicr*. Canys megis ag y mae'r Atheistiaid, yr Ethniciaid, a'r anffyddloniaid cyhoeddus oddi allan; felly hefyd y mae'r rhagrithwyr hunan-dwyllodrus oddifewn i'r eglwys, yn wirfoddol yn eu taflu eu hunain ymaith yn dragywydd, trwy esgeuluso gwaith o'r fath dragywyddol ganlyniad; pan y maent yn cael amser, a rhybuddion, à chynnorthwyon, i'w gyflawni. Y mae miloedd yn byw megis Atheistiaid, neu greaduriaid direswm, gan anghofio eu geni mewn pechod a thrueni, ac wedi ymsefydlu ynddynt trwy ymarferiad gwirfoddol; a bod yn rhaid iddynt gael troedigaeth, neu ynte bod yn golledig.

A'r rhai hyn (lawer o honynt) ni wyddant, ac ni welsant, yr angenrheidrwydd o gael troedigaeth, na pha beth yw dychweliad a sancteiddhad. A rhai a fuant yn bregethwyr yr efengyl oeddent yn druenus o anwybodus mewn matter mor fawr, fel ag yr oeddent yn gwneuthur i'r bobl, druain, dwylledig, i goelio nad oedd eisiau troedigaeth ar neb, ond ar bechaduriaid anfad, echryslon, ac ysgeler; ac yn galw'r rhai hynny yn *Buritaniaid*, y rhai ni fynnent gymmeryd i fynu gyd a phroffes farw, ynghyd ag ychydig foesgarwch, yn lle gwir sancteiddrwydd; ac felly yr oeddent yn addaw iachawdwriaeth i'r rhai hynny, ag y mae Crist wedi tystiolaethu yn aml ac yn eglur, na chânt hwy fyned i mewn i deyrnas Dduw. Eraill, ag sy'n cyfaddef fod hollol sancteiddrwydd yn gwbl angenrheidiol, ydynt, er hynny, yn twyllo eu heneidiau â rhyw beth sydd yn gyffelyb iddo.

Ac oddiwrth hyn, y mae trueni a gwaradwydd yr eglwys yn deilliaw. A sancteiddrwydd ei hun sy'n cael ei ddianrhydeddu trwy bechodau y dynion hynny y rhai nid ydynt sanctaidd, ond yn hytrach yn cymmeryd arnynt fod yr hyn nid ydynt. A hyn ydyw'r achos fod miloedd yn ein plith, y rhai sydd yn galw eu hunain yn Grist'nogion, er fod eu bucheddau yn fydol ac yn gnawdol, a rhai

o honynt yn casâu ffordd duwioldeb, ac er hynny yn coelio eu bod wedi cael troedigaeth; o herwydd y bydd yn ddrwg ganddynt pan fyddont wedi pechu, ac y byddant yn dymuno (wedi iddynt droseddu) na buasent yn gwneuthur felly; ac o achos eu bod yn galw ar Dduw am drugaredd, ac yn cyfaddef eu hunain yn bechaduriaid; a hyn oll y maent yn ei gymmeryd yn lle edifeirwch diffuant, pan ar yr un amser ni chafodd pechod erioed ei farweiddio yn eu heneidiau, a phan y mae eu calonnau heb gael eu dwyn i'w ffieiddio, ac i lwyr ymwrthod ag ef. Ond wedi iddynt gael y budd a'r pleser o'r pechod, y mae yn ddrwg ganddynt (mae yn debygol) yn unig o herwydd y perygl; etto heb erioed eu hail-eni, na'u gwneuthur yn greaduriaid newydd trwy Yspryd Crist. Ac oddiwrth hyn hefyd y mae yn dyfod, fod cynnifer o ddynion yn ein plith, y rhai ydynt wag broffeswyr yn unig, ac ydynt yn aml yn cyfnewid eu cred, ac etto yn *biniwngar* yn eu barn, ac er hyn oll yn bwrw eu bod yn bobl dduwiol. Ac o herwydd eu bod wedi cyfnewid eu barn, ac wedi troi oddiwrth un blaid at blaid arall, ac yn medru chwedleua yn ymrysongar yn erbyn y rhai nid ydynt o'r un feddwl â hwy; a chan ymuno a chyd-gymdeithasu â'r rhai sydd yn

ymddangos yn fwyaf dichlyn a rheolaidd, y maent yn tybied eu hunain wedi eu cwbl sancteiddio. A hyn sydd yn peri fod cynnifer yn cyfnewid eu barn, ac yn troi oddiwrth un enw o broffeswyr at un arall; a hyn yw yr achos bod cymmaint o ragfarnu, difenwi, a chablu, ac ymbleidio, ac ymrannu, o herwydd mai eu crefydd a'u daliadau hwy eu hunain, yw'r pethau mwyaf yn eu meddyliau; er bod eu tueddiadau hunanol, a'u serchiadau cnawdol, a'u hanwydau pechadurus, heb gael eu darostwng na'u marweiddio; a hwythau eu hunain heb gael eu dwyn i feddylfryd nefol, a thymher ysprydol, wedi eu holl broffes.

Ac oddiwrth hyn hefyd y mae'n dyfod, fod yn ein mysg gynnifer o broffeswyr hunanol, anianol, gwarthus, a gwaradwyddus, y rhai sydd yn cymmeryd arnynt fod yn grefyddol, ond etto heb ffrwyno eu tafodau, eu gwŷniau, na'u trachwantau; ond ydynt yn ddifenwyr, yn athrodwyr, yn enllibwyr, neu yn ddiotwyr, yn ddynion glwth, yn aflan, yn anllad, ac yn anniwair; neu ryw ffordd arall yn waradwydd i'w proffes sanctaidd: o herwydd eu bod yn ddieithriaid i iawn ac effeithiol droedigaeth, ac yn cymmeryd i fynu gyd ag ymddangosiad o gyfnewidiad yn allanol yn unig. Oddiwrth hyn hefyd y mae'n digwydd, fod

yn ein plith gynnifer o rai bydol, ag sydd yn tybied eu hunain yn bobl grefyddol; y rhai sydd yn gwneuthur Crist yn wasanaethgar megis i'w helw bydol, ac yn ceisio'r nefoedd, fel rhyw beth yn 'stôr, ar ol i'r ddaear eu gadael; a chanddynt ryw beth mor werthfawr ac anwyl yn y byd hwn, fel na fedrant ei adael, er mwyn gobaith gogoniant; ac a fyddant yn rhoddi eu hunain i fynu i Grist, gyd a dirgel gadw yn ol, a gadael allan (yn eu meddyliau) rai pethau a fyddent yn debyg o hwylio ymlaen eu llwyddiant yn y byd: a hyn oll sydd yn digwydd, o herwydd nad adnabuasant, ac na phrofasant wir ddychweliad, neu droedigaeth hollol; yr hyn a fuasai yn sicr o ddadwreiddio, a bwrw allan o'u calonnau, yr holl gariad yma at y byd, fel ag y buasent yn ymfoddloni i roddi eu hunain i fynu, yn gyflawn gwbl, i Grist Iesu. Hyn hefyd ydyw'r achos, bod cyn lleied o broffeswyr, y rhai a allant roddi heibio eu balchder, a dioddef ammharch, a cham, a gwaradwydd, *a charu eu gelynion, a bendithio y rhai a'u melldithiant*, neu garu eu cymdeithion duwiol, a fyddant yn eu croesi, neu yn eu ammharchu.

Ac mor ychydig a fedrant ymwadu â hwy eu hunain, o ran eu hanrhydedd, neu un peth pwys-

fawr, er mwyn Crist, ac mewn ufudd-dod a chydymffurfiad i ewyllys Duw. A hyn oll o herwydd na chawsant y cyfnewidiad cadwedigol hwnnw, yr hwn sydd yn tynnu i lawr *hunan*, ac yn gosod Crist i fynu megis goruchaf, neu lywodraethwr, yn yr enaid. A hyn hefyd yw'r achos, fod yn yr oes hon gynnifer o siamplau ofnadwy o wrthgiliadau; a llawer yn beio ar yr ysgrythur, o herwydd mai wrth wrando neu ddarllain y gair yr oeddent yn bwrw eu bod wedi cael gwir droedigaeth, ac felly yn tynnu gwaradwydd ar ffordd sancteiddrwydd, yr hon y buont unwaith yn ei phroffesu; ac yn gwadu yr Arglwydd a'u prynodd hwy; a'r cwbl oll, o herwydd eu bod o'r blaen wedi cymmeryd i fynu gyd a rhyw rith duwioldeb, a rhyw droedigaeth allanol, dwyllodrus. Oh, mor aml, ac mor alarus, y mae'r drwg ganlyniadau o hynny yn ymddangos ymhlith proffeswyr, yn eu hymddiddanion diflas ac anfuddiol, yn eu hymrysonau a'u cenfigennau, a hyn oll dan yr enw o *zel* dros grefydd a'r gwirionedd! Oddi yma hefyd y mae'n dyfod eu ffurfioldeb a'u proffes difywyd, eu rhwygiadau a'u hymranniadau poethion, ymbleidgar, a'u hunan-dyb, a'u meddyliau uchel, balch, daearol!

Myfi a ymgeisiaf, yn gyntaf, gan hynny, yn y

traethawd canlynol, ddeffroi pechaduriaid difraw, ac annog y rhai cyndyn i droi at yr Arglwydd, a byw; ac yn ail, llefaru wrth y rhai hynny, y rhai sydd mewn ymddangosiad ynghylch y gwaith; a rhoddi iddynt ryw ychydig gyfarwyddiadau ac annogaethau, rhag iddynt golli yn yr enedigaeth; ac a'u cynghoraf ar iddynt fod ar eu gwyliadwriaeth rhag ymorphwys mewn rhagrith, a gwylio hefyd rhag twyll eu calonnau, rhag cyfeiliornadau eu bywydau, ac a ddangosaf iddynt y trueni a fyddai yn debygol o ddyfod arnynt yn amser marwolaeth. Chwennychwn hefyd eu rhybuddio rhag gwenieithio i Dduw â'u genau, a thraethu anwiredd o'i flaen â'u tafodau, megis ag y mae llawer, a hynny o herwydd nad yw *eu calonnau yn uniawn ger ei fron*, ac nad ydynt *yn ffyddlon yn ei gyfammod.* Salm 78 : 37. Ewyllysiwn hefyd eu rhybuddio rhag gwrthod derbyn had y gair; ond yn hytrach rhoddi maeth a dyfnder daear iddo, a gadael iddo wreiddio yn eu calonnau, ac na thagont ef â chariad tuag at bethau gweledig, a gofalon y byd hwn; ac wedi iddo egino, ar iddynt fod yn ofalus rhag iddo ddiflannu, pan fyddo gwres erledigaeth yn torri allan: ac na fyddo iddynt mewn un modd adeiladu ar y tywod, rhag iddynt syrthio, pan ddeuai'r gwyntoedd a'r tym-

hestloedd i guro arnynt, a bod eu cwymp yn fawr. Ac felly iddynt ymadael, a myned allan oddi wrthym ni; "fel yr eglurid nad oeddent hwy oll o honom ni; canys pe buasent o honom ni, hwy (yn ddiau) a arosasent gyd a ni." 1 Ioan, 2 : 19. Edrychwch, gan hynny, at y gwaith mawr a phwysfawr hwn; a rhoddwch "bob diwydrwydd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr." 2 Pedr, 1 : 10. Ac nac ymddiriedwch i'ch calonnau yn rhy rwydd, ac yn rhy hyderus: ond trowch at yr Arglwydd â'ch holl galonnau; a glynwch wrtho yn ddewr, yn egniol, ac â "llwyr-fryd calon." Act. 11 : 23. Ac edrychwch ar werthu o honoch y cwbl oll, a *phrynu'r perl gwerthfawr.* Na sefwch am y pris, ond ymroddwch eich hunain yn gyflawn gwbl i Grist, a throwch atto â'ch holl galon, megis Zacceus, a'r holl wir ddychweledigion gynt, gan roddi i fynu'r cwbl a feddoch i'w ewyllys ef. Ac na adewch i un gwreiddyn chwerwedd aros yn ol; na fydded yn eich meddyliau ddim hocced, na thwyll; ac na ddarn-guddiwch, ac na chedwch ddim yn ol; ond ymwadwch â chwi eich hunain. Gadewch y cwbl oll, a chanlynwch ef, yr hwn a'ch tywysodd hyd y ffordd hunan-ymwadol hon; ac ymddiriedwch i'w waed, a'i haeddiant, a'i

addewidion, am drysor yn y nef,—ac yna chwi a fyddwch yn ddisgyblion iddo, ac yn Grist'nogion yn wir.

Ddarllenydd, os bydd i ti wneuthur y cyfammod hwn â'th holl galon, a'i gadw, ti a gei weled na wna Crist dwyllo mo honot; a phan fydd y byd yn gadael ac yn siommi y rhai a ymddiriedant ynddo, yn eu hamgylchiadau mwyaf cyfyng, er hynny nis gwaradwyddir di. Ond os bydd i ti dynnu yn ol, a barnu'r ammodau hyn yn rhy galedion, cofia fod bywyd tragywyddol wedi ei gynnyg i ti; a chofia hefyd paham, ac am ba beth y gwrthodaist. Ac os bydd i ti ddewis cael dy wynfyd yn dy fywyd, bydded i ti ddisgwyl hefyd cael dy boeni, pan y bydd yr eneidiau crediniol, ac hunan-ymwadol, yn cael eu diddanu.

R. Baxter.

# CYFARWYDDIADAU AC ANNOGAETHAU

I

# WIR DDYCHWELIAD.

Dywed wrthynt, Fel mai byw fi, medd yr Arglwydd Dduw, ni ymhoffaf ym marwolaeth yr annuwiol; ond troi o'r annuwiol oddiwrth ei ffordd a byw: dychwelwch, dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd drygionus; canys, ty Israel, paham y byddwch feirw?—Ezec. 33 : 11.

Y MAE wedi bod yn rhyfeddod i lawer, ddarllain yn yr ysgrythyr lân, pa cyn lleied a fyddant gadwedig; ac y bydd i ran fawr o'r rhai hynny a alwyd, gael eu cau allan o'r nefoedd, a'u poeni gyd a'r cythreuliaid mewn tân tragywyddol. Anghredinwyr ni choeliant hyn, ac o ran hynny bydd raid iddynt ddioddef. A'r rhai hynny ag sydd yn credu hyn, ydynt yn gorfod gwaeddi allan, gyd a St. Paul, "Oh ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw! mor anchwiliadwy yw ei farnau ef, a'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt!" Rhuf. 11 : 33. Ond y mae natur ei hun yn ein dysgu i roddi'r bai am weithredoedd drwg, ar y gwneuthurwyr o honynt; a chan hynny, pan y

canfyddom ryw weithred echryslon wedi ei gwneuthur, egwyddor o gyfiawnder a fydd yn ein hannog i holi pwy a'i gwnaeth. Pe digwyddai i ni weled dyn wedi ei ladd, a'i dorri yn ddarnau ar y ffordd, nyni a ofynnem yn ddioedi, Pwy a wnaeth y fath weithred greulon? Pe gwelech dref wedi ei rhoi ar dân, chwi a ofynnech, Pa ddihiryn anfad a wnaethai hynny? Felly hefyd, pan ddarllenom y bydd y rhan fwyaf yn bentewynion uffern yn dragywydd, bydd yn angenrheidiol i ni feddwl ynom ein hunain, Pa fodd y daeth hyn? Pwy a fu mor greulon a bod yn achos o'r fath beth a hyn? Ac nis gallwn gyfarfod ond ychydig a gyfaddefant eu hunain yn euog: cyfaddefir yn wir gan lawer mai Satan yw'r achos; ond nid yw hyn yn dattod yr amheuaeth, o herwydd nid efe oedd yr achos pennaf. Ni fydd efe yn rhoddi angenrheidrwydd anwrthwynebol ar ddynion i bechu, ond yn eu hannog, a'u cymhell, a'u denu, a'u temptio, ac yn gadael ar eu hewyllys eu hunain, pa un ai gwnânt ufuddhau ai peidio. Y mae'r achos, gan hynny, yn sefyll rhwng Duw a'r pechadur; ac y mae'n rhaid mai un o honynt hwy yw'r achos gwreiddiol o'r holl drueni hyn; canys nid oes neb arall i'w daflu arno; ac y mae Duw yn ei wadu, ac yn ei ddiarddelu; nis cymmer efe hyn

arno: a'r rhai drygionus a fyddant hefyd, yn gyffredin, yn ei wrthod, ac yn ymwadu ag ef; ac ni fynnant, mewn un modd, gymmeryd y bai hwn arnynt eu hunain. A dyma'r ddadl a'r ymrafael ag sydd yn cael ei ddwyn ymlaen yn y testun.

Y mae Duw yn cwyno yn erbyn y bobl; a'r bobl yn meddwl mai ar Dduw y mae'r bai. Y maent yn dywedyd, yn y ddegfed adnod, *Os yw ein hanwireddau a'n pechodau arnom, a ninnau yn dihoeni ynddynt, pa fodd y byddem ni byw?* Fel pe buasent yn dywedyd, "Os bydd *raid* i ni farw, pa fodd y gallwn hebgor hynny?" Megis pe na buasai'r bai arnynt hwy, ond ar Dduw. Ond y mae Duw, yn y testun, yn ei ddiheuro ei hun, ac yn dangos iddynt, ymha fodd y gallent hebgor hynny, os ewyllysient, ac yn eu hannog i ymarferu'r moddion; ac os na fynnant, yna y mae efe yn rhoi ar ddeall iddynt, mai arnynt hwy eu hunain y byddai'r bai; ac os na fyddai i hyn eu boddloni, yna y mae yn hyspysu iddynt, na fyddai iddo yntau oedi, na llysu eu cospi. Efe a fydd eu Barnwr, ac efe a'u barna yn ol eu ffyrdd. Ni fyddant hwy yn farnwyr arno ef, nac arnynt eu hunain, o herwydd eu bod yn fyr o awdurdod, o ddoethineb, ac o ddidueddrwydd. Ac er iddynt geisio diheuro eu hunain, a rhoddi'r bai ar Dduw,

ni wna hynny mo'r tro iddynt, ac ni achub hynny hwynt chwaith rhag cyfiawn gospedigaeth.

Y mae geiriau'r adnod yn cynnwys amddiffyniad yr Hollalluog, lle y mae yn profi, nad oedd y bai arno ef, ac mai nid efe oedd yr achos o'u dinystr. A hynny y mae yn ei wneuthur, nid trwy wadu ei gyfraith, *y byddai'r annuwiol farw;* na chwaith trwy ddiarddelu cyflawniad y gospedigaeth yn ol y gyfraith honno, neu trwy ddal allan iddynt obaith, na roddai efe y gyfraith mewn grym; ond trwy gyhoeddi a phroffesu nad oedd efe yn ymhoffi yn eu marwolaeth, ond yn hytrach dychwelyd o honynt a byw: a hyn y mae efe yn ei gadarnhau iddynt trwy lw. Yn ail, annogaeth pendant i'r annuwiol i ddychwelyd: a lle y mae Duw, nid yn unig yn gorchymmyn, ond hefyd yn eu cymhell, ac yn ymddarostwng i ymresymmu'r achos gyd a hwy. *Paham y byddwch feirw?* Ystyr a diben eglur yr annogaeth ydyw, ar iddynt droi, a byw; a'r ddau ganlyniad y mae yn eu dynnu oddiwrth eu hanewyllysgarwch, (sef os na fyddai iddynt wrando a dychwelyd,) ydyw, yn gyntaf, profi iddynt mai nid ar Dduw y byddai'r bai, os byddent yn druenus; ac yn ail, dangos iddynt yn eglur, oddiwrth eu gwirfoddol anewyllysgarwch yn gwrthod ei daer wahoddiadau, a'i annog-

aethau caredig, mai eu bai eu hunain ydoedd; a'u bod yn marw, o herwydd yr ewyllysient farw. Y mae sylwedd y testun yn gorwedd yn y nodiadau canlynol:

Athrawiaeth 1. Cyfraith digyfnewid Duw ydyw, y bydd raid i'r drygionus droi, neu farw.

Ath. 2. Addewid Duw ydyw, y bydd yr annuwiol byw, os dychwelant.

Ath. 3. Bod Duw yn cymmeryd hyfrydwch yn nychweliad ac iachawdwriaeth pechaduriaid, ond nid yn eu marwolaeth a'u damnedigaeth: efe a ewyllysiai yn hytrach iddynt ddychwelyd a byw, na myned rhagddynt a marw.

Ath. 4. Gwirionedd diamheuol ydyw hyn, yr hyn, o herwydd na fynnai Duw i ddynion ammeu, y mae efe wedi ei gadarnhau iddynt mewn modd pwysfawr gyd a llw.

Ath. 5. Y mae'r Arglwydd yn ail-adrodd ac yn ail-ddyblu ei annogaethau, a'i gymhelliadau, i'r annuwiolion droi a dychwelyd.

Ath. 6. Y mae'r Arglwydd yn ymddarostwng i ymresymmu'r achos gyd a hwy, ac yn gofyn iddynt paham y byddent feirw?

Ath. 7. Ac os ar ol hyn oll ni ddychwel yr annuwiol, nid ar yr Arglwydd y bydd y bai os cyfrgoller hwynt, ond arnynt hwy eu hunain;

canys eu cyndynrwydd eu hunain yw'r achos o'u damnedigaeth: y maent, gan hynny, yn marw o herwydd y mynnent farw.

Gwedi agor y testun ger bron eich llygaid, yn y gosodiadau eglur hyn; myfi a gaf, yn y lle nesaf, draethu ar bob un o honynt mewn trefn, ond yn bur fyr.

## ATHRAWIAETH I.

Cyfraith anghyfnewidiol Duw ydyw, y bydd raid i'r drygionus droi, neu farw.

Os mynnwch goelio Duw, credwch hyn; nid oes ond un o'r ddwy ffordd hyn i bob dyn annuwiol, sef naill neu ddychweliad neu ddamnedigaeth. Ond myfi a wn, mai anhawdd iawn gan yr annuwiolion goelio na'r gwirionedd na'r cyfiawnder o hyn. Nid rhyfedd os bydd yr euog yn beio ar y gyfraith. Ychydig a fynnant gredu y peth nid ewyllysient ei fod yn wir; a llai a ewyllysient i hynny fod yn wir, yr hyn a dybiant ei fod yn eu herbyn. Ond gweled bai ar y gyfraith, a'r barnwr, ni wna achub y troseddwr. Credu a chadw'r gyfraith, a allasai ei achub rhag marwolaeth: ond

ei gwadu, a dwyn achwynion yn ei herbyn, ni wna ond prysuro'r gospedigaeth. Pe amgen, am un a fyddai'n ostyngedig i'r gyfraith, fe fyddai cant yn barod i ddwyn rhesymmau yn ei herbyn. Ac fe fyddai'n fwy dewisol gan ddynion i ddwyn ymlaen eu rhesymmau, i ddangos paham na ddylent gael eu cospi, yn hytrach na gwrando gorchymynion a rhesymmau eu llywodraethwyr, y rhai sydd yn gofyn iddynt ufuddhau. Nis gwnaed y gyfraith fel y gallech chwi ei barnu, ond fel y byddai i chwi gymmeryd eich rheoli a'ch barnu wrthi.

Ond os oes rhai mor dywyll, ac anwybodus, ag ammeu naill neu wirionedd neu gyfiawnder cyfraith Duw, myfi a roddaf (ar fyr eiriau) dystiolaeth a phrawf o'r ddau.

Ac, yn gyntaf, Os ydych yn ammeu a ydyw hwn yn air Duw ai nid ydyw, heblaw cant o destunau eraill, gallwch gael eich boddloni gyd a'r ychydig hyn: "Yn wir y dywedaf i chwi, Oddi eithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd." Mat. 18:3. "Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw." Ioan, 3:3. "Gan hynny, od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd: yr hen bethau a aethant heibio;

wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd." 2 Cor. 5 : 17. "Dilynwch heddwch â phawb, a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd." Heb. 12 : 14. "A'r rhai sydd yn y cnawd ni allant ryngu bodd Duw. Ac od oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef." Rhuf. 8 : 8, 9. "Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern, a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw." Salm 9 : 17. "Yr Arglwydd a brawf y cyfiawn; eithr cas gan ei enaid ef y drygionus, a'r hwn sydd hoff ganddo drawsder." Salm 11 : 5.

Nid ydyw'n angenrheidiol i mi chwanegu, gan fod lliaws o fannau eraill yn tystiolaethu'r un peth: os ydwyt ddyn ag sydd yn credu gair Duw, dyna ddigon eisoes i'th foddloni, y bydd raid i'r drygionus gael eu troi, neu gael eu condemnio. Ac y mae yn rhaid i chwi gyfaddef, naill neu bod hyn yn wir, neu ddywedyd yn eglur nad ydych yn credu gair Duw; ac os unwaith yr ewch mor bell a hynny, ni fyddwch yn hir cyn myned i uffern. Ac os dywedwch yn eglur wrth Dduw nad ydych yn ei gredu, na feiwch arno os na fydd iddo eich rhybuddio byth mwyach: canys i ba ddiben y byddai iddo eich rhybuddio, a chwithau heb ei goelio? Canys pe gwnae efe

anfon attoch angel o'r nefoedd, yn ddiau nis credech. O herwydd nis gall angel wneuthur dim amgen nâ llafaru geiriau Duw; ac os gwnae angel ddwyn i mewn attoch efengyl arall, ni fyddai yn iawn i chwi ei derbyn, ond ei gyfrif yn anathema. Gal. 1 : 8. Ac yn ddiau nid oes achos i ni goelio un angel o flaen Mab Duw, yr hwn a ddaeth oddiwrth y Tad i draethu yr athrawiaeth hon. Ac os bydd i chwi sefyll yn gyndyn gyd a Duw am yr ammodau hyn, myfi a'ch gadawaf hyd y pryd hwnnw y bydd iddo eich argyhoeddi mewn modd mwy cadarn ac anwrthwynebol. Y mae gan Dduw lais arall, a fydd yn sicr o *wneuthur* i chwi glywed. Ac er iddo *erfyn* arnoch wrando llais yr efengyl, efe a *wna* i chwi glywed y farn a fydd yn eich condemnio. Nis gallwn *wneuthur* i chwi *gredu* yn erbyn eich ewyllys; er hynny Duw a wna i chwi *brofi*, sef bod yn deimladwy (o'r gospedigaeth) yn erbyn eich ewyllys.

Ond paham na fynnwch gredu gair Duw, yr hwn sydd yn dywedyd, y bydd raid i'r annuwiol droi, neu fod yn golledig? Yr achos yw, o herwydd eich bod yn ei farnu yn beth annhebygol i Dduw fod mor annhrugarog; yr ydych yn ei gyfrif yn beth creulon iawn i ddamnio dynion yn dragywyddol, am gyn lleied peth a buchedd bech-

adurus. A hyn sydd yn ein harwain at yr ail beth, yr hyn yw amddiffyn cyfiawnder Duw, yn ei gyfreithiau a'i farnedigaethau.

Ac, yn y lle cyntaf, Yr ydwyf yn tybied na fydd i chwi wadu, mai cyfaddas yw i enaid anfarwol gael ei rheoli gyd a chyfreithiau ag sydd yn addaw gwobr tragywyddol, ac yn bygwth cospedigaeth diddiwedd. Pe amgen, ni fyddai'r gyfraith yn gyfattebol i natur y deiliaid, y rhai nis gellir eu rheoli yn gyflawn gyd ag unrhyw foddion eraill, ond naill neu obaith gwynfyd, neu ofn trueni tragywyddol: megis ag y mae yn bod gyd a chospedigaeth dymhorol, pe gwelid cyfraith i gospi'r troseddau mwyaf erchyll gyd a charchariad o gan mlynedd yn unig; gallai hynny fod, mewn rhan, yn effeithiol, o herwydd y byddai cyhyd, neu yn hwy nâ'n bywyd. Ond pe na buasai yr un gyfraith, neu gospedigaeth arall, cyn y diluw, pan y byddai dynion yn byw wyth neu naw cant o flynyddoedd, ni fuasai hynny yn ddigon, o herwydd y buasai dynion yn gwybod y buasent yn debygol o gael byw lawer o gantoedd o flynyddoedd ar ol y gospedigaeth. Ac yn yr un modd y mae mewn perthynas i'n cyflwr ninnau.

2. Pan yr ydych yn gwybod, allan o air Duw, mai felly y mae, ac felly y bydd, a ellwch chwi

farnu eich hunain yn gyflawn ddigonol i ammeu a gwrthddywedyd gair Duw? A oes gennych awdurdod i alw eich Gwneuthurwr ger bron, i holi ac i ammeu ei air? A ryfygwch chwi i eistedd ar y frawdle, a'i farnu ef yn ol eich dychymmygion gwag a'ch mympwy eich hunain? A ydych chwi yn well ac yn ddoethach nag ef? A raid i Dduw'r nefoedd ddyfod attoch chwi i ddysgu doethineb? A fydd raid i anfeidrol Ddoethineb gael ei dysgu gan ynfydrwydd? A fydd raid i'r Hollalluog sefyll i gael ei farnu ger bron brawdle pryfyn gwael? Oh atgas falchder llwch a lludw ynfyd a diddeall! A gaiff pob gwâdd,* neu dywarchen, neu dommen dail, ddannod, neu edliw i'r haul ei dywyllwch, a chymmeryd arnynt i oleuo'r byd! Pa le yr oeddech chwi pan drefnodd yr Hollalluog ei gyfreithiau, na buasai yn eich galw chwi i'w gynghorfa? Yn ddiau efe a'u gwnaeth cyn eich geni chwi, ac heb ofyn eich cynghor, a chwi a ddaethoch i'r byd yn rhy ddiweddar i'w diddymmu: ac os gallasech chwi gyflawni'r cyfryw orchwyl, yn ddiau chwi a ddylasech ddyfod allan o ddiddym, ac ymddangos ger bron, a gwrthddywedyd Crist pan yr oedd ar y ddaear, neu Moses o'i flaen, neu achub Adda

---

* Twrch daear.

a'i hiliogaeth bechadurus rhag yr angeu a fygythiwyd arno, i'r diben na fuasai'r un angenrheidrwydd am Grist.

3. Os ydyw pechod o'r fath natur erchyll, fel ag yr oedd yn gofyn marwolaeth Crist i wneuthur iawn am dano, nid rhyfedd ein bod ninnau yn haeddiannol o drueni tragywyddol.

4. Yr ydwyf yn meddwl hefyd y gellwch ganfod, nad oes dim modd i'r goreu o ddynion (a llai o lawer i'r annuwiol) fod yn farnwyr diduedd ynghylch haeddiant pechod. Och! yr ydym ni bawb oll yn dywyll, ac yn dueddol i gam-farnu. Ond nis geill neb wybod yn iawn, pa gymmaint cosp y mae pechod yn ei haeddu, hyd onis gallo yn gyflawn amgyffred ddrygioni a ffieidd-dra pechod, megis ag y mae yn drosedd yn erbyn Duw o anfeidrol gyfiawnder a sancteiddrwydd. Ac nis gellwch byth yn iawn amgyffred mawr ddrwg pechod, hyd onis galloch hefyd amgyffred yn iawn rinwedd a rhagoriaeth yr enaid y mae yn ei anffurfio, ac yn ei anurddo; na chwaith hyd onis medroch amgyffred yn iawn anfeidrol ragoriaeth a godidawgrwydd, hollalluogrwydd, a sancteiddrwydd y Duw pur a chyfiawn hwnnw, yn erbyn yr hwn y gwnaethpwyd y trosedd. A phan ddeloch i ddeall y pethau hyn yn iawn, yna y bydd i

chwi hefyd, mewn rhyw fesur, fedru amgyffred faint o gospedigaeth sydd yn ddyledus am bechod. Chwi a wyddoch nad ydyw y troseddwr yn ddigon diduedd i farnu ynghylch y gyfraith, na'r barnwr sydd yn ei gondemnio.

5. A ellwch chwi feddwl fod eneidiau halogedig yn addas i'r nefoedd? Och! nis gallant garu Duw yma, na gwneuthur iddo unrhyw wasanaeth a ddichon efe ei derbyn. Y maent yn llwyr wrthwyneb i Dduw; y maent hwy yn casâu yr hyn y mae efe yn ei garu fwyaf, ac yn caru yr hyn y mae Duw yn ei ffieiddio. Y maent yn anaddas i fwynhau y cymmundeb ammherffaith hwnnw gyd ag ef, yr hwn y mae'r seintiau yn ei fwynhau yma yn y byd. Pa fodd, gan hynny, y gallant fyw yn y cyfryw berffaith gariad o hono, ac yn y fath gyflawn hyfrydwch a chymmundeb ag ef, ag sydd yn gwneuthur i fynu ddedwyddwch y seintiau yn y nefoedd?

---

## Y DEFNYDDIAD.

Yr ydwyf yn erfyn arnoch, gan hynny, chwi bawb oll ag sydd yn caru eich eneidiau, ar i chwi, yn lle ymrafaelio â Duw a'i air, ymostwng iddo

yn ddioed, ac ymarfer ag ef er eich lles a'ch daioni. Bydd raid i chwi, ar fyrder, naill neu droi, neu gael eich condemnio; canys nid oes un ffordd arall, ond naill neu droi neu farw. Pan y mae'r digelwyddog Dduw wedi dywedyd hyn wrthych, a phan yr ydych yn clywed hynny gan Wneuthurwr a Barnwr y byd; y mae'n amser i'r hwn sydd â chlustiau ganddo i wrando. Chwi a ellwch weled, erbyn hyn, pa beth sydd gennych i ymddiried iddo. Nid ydych ond dynion marwol a damniol oll, oni fydd i chwi gael eich dychwelyd. A phe dywedwn i chwi yn amgen nâ hyn, myfi a fyddwn yn eich twyllo ag anwiredd. A phe byddai i mi gelu hyn oddi wrthych, myfi a fyddwn yn achos o'ch andwyo, ac yn euog o'ch gwaed. Chwi a welwch, gan hynny, er mai athrawiaeth galed ac annerbyniol ydyw hon, etto y mae'n rhaid i ni ei phregethu, ac i chwithau ei gwrando. A gwell i chwi glywed son am uffern, nâ myned yno i gael eich poeni. Ac ni fyddai uffern cyn llawned, pe byddai dynion yn ewyllysgar i wybod eu cyflwr, ac i wrando, ac i feddwl yn ei gylch. A'r achos paham y mae cyn lleied yn diangc rhag myned yno, ydyw, o herwydd nad ydynt yn ymdrechu i fyned i mewn trwy'r porth cyfyng o wir droedigaeth, a myned ar hyd ffordd sancteidd-

rwydd, tra y mae ganddynt amser. A'r achos nad ydynt yn ymdrechu, ydyw, o herwydd nad ydynt wedi cael eu deffroi i ymsyniad bywiol o'r perygl y maent ynddo. Ac y maent heb eu deffroi, o herwydd eu bod yn anewyllysgar i wrando cynghor, ac i feddwl am eu cyflwr. A hyn sydd yn dyfod, mewn rhan, oddiwrth naill neu ryw dynerwch gwirion, neu hunan-gariad cnawdol; ac mewn rhan hefyd, o achos nad ydynt yn cwbl gredu y gair ag sydd yn bygwth y gospedigaeth. Ac er nad ydych yn cwbl gredu'r gwirionedd hyn, myfi a feddyliwn ei fod o gymmaint pwys, fel ag y dylai eich cymhell, a'ch rhwymo i'w gofio; ac fe a ddylai eich canlyn cyn belled, a phwyso yn y fath fodd ar eich meddyliau, fel na byddai i chwi gael dim gorphwysfa, hyd onis byddai i chwi gael gwir droedigaeth. Pe buasech wedi clywed y geiriau hyn yn cael eu traethu ond unwaith gan lais angel, "Rhaid i ti gael dychweliad, neu gael dy gondemnio, troi neu farw;" oni fyddai iddynt gymmeryd gafael ar eich meddyliau, a'ch aflonyddu ddydd a nos? fel ag y byddai i chwi eu cofio bob tro ag y byddech yn pechu, yr un fath a phe byddai'r llais yn wastadol yn eich clustiau, "Dychwel, neu byddi farw!" A gwyn eich byd, a da iawn a fyddai er lles i'ch

eneidiau, pe byddai i'r cyfryw eiriau weithio ar eich meddyliau yn y fath fodd, fel na byddai i chwi un amser eu hanghofio, na chael dim llonyddwch, hyd onis byddai iddynt droi ac anfon eich calonnau yn eu hol, adref drachefn at Dduw. Ond os bydd i chwi fwrw ymaith yr ystyriaethau hyn, trwy anghof neu anghrediniaeth, pa fodd y bydd iddynt weithio er eich troedigaeth a'ch iachawdwriaeth? Ond cymmerwch hyn gyd a chwi, er eich gofid,—sef pe gallech fwrw'r geiriau a grybwyllwyd allan o'ch meddyliau, nis gellwch eu dileu allan o'r Bibl; ond yno y safant megis gwirionedd seliedig, yr hwn a gewch ei wybod yn brofiadol yn dragywydd, sef nad oes un ffordd arall *ond troi neu farw.*

Oh, gan hynny, pa beth ydyw'r achos nad ydyw calonnau pechaduriaid yn cael eu trywanu gyd a gwirionedd mor bwysfawr! Ond coeliwch hyn, ni phery'r cyfryw dymher ddifraw, anystyriol, ddim yn hir. Dychweliad a chondemiad ydynt ddau beth pur ddeffrous; ac un o honynt a wna i chwi, ar fyr dro, wybod hynny yn brofiadol. Gallaf rag-ddywedyd mor sicr a phe canfyddwn hynny o flaen fy llygaid, y bydd naill neu i ras, neu uffern, ddwyn y pethau hyn ger eich bronnau, yn y fath fodd ymsyniadol, fel ag y

bydd i chwi waeddi allan, *Pa beth a wnaethum! Pa fath yrfa ynfyd a drygionus a gymmerais!* Ni phery cyflwr diystyrllyd a difraw pechaduriaid ond ychydig iawn o amser. Canys cyn gynted ag y troant, neu y byddant feirw, yna y bydd diwedd ar y cyfryw freuddwyd rhyfygus, a'u synwyrau a gwell ymsyniadau a ddychwelant.

Ond y mae dau beth y rhai a fyddant yn debyg o galedu'r diedifeiriol, oni chymmerir hwynt allan o'r ffordd, sef cam-ddeall a cham-ddehongliad o'r geiriau hyn, sef yr *annuwiol*, a *dychwelyd*. Rhai a dybiant fod hyn yn wir, sef rhaid i'r annuwiol ddychwelyd neu farw; ond (medd rhyw un) beth yw hynny i mi? nid ydwyf yn un o'r *annuwiolion*, er fy mod yn bechadur, megis ag y mae pob dyn. Eraill sydd yn barnu, mai gwirionedd yw y bydd raid i ni droi oddiwrth ein ffyrdd drygionus; ond yr ydwyf fi (medd un arall) wedi dychwelyd er ys hir amser. Ac felly, tra y mae dynion annuwiol yn meddwl eu hunain yn dduwiol, neu yn hytrach wedi dychwelyd, y mae ein holl lafur yn myned yn ofer wrth geisio eu cynghori i droi. Myfi a gaf, gan hynny, cyn myned ymhellach, ddangos i chwi pwy a feddylir wrth yr annuwiol, a phwy yw y rhai hynny sydd raid iddynt ddychwelyd neu farw; ac hefyd pa beth a feddylir wrth

*ddychwelyd*, a phwy yw y rhai hynny ag sydd wedi cael gwir ddychweliad.

Gellwch sylwi, nad oes un dyn yr hwn a gafodd wir ddychweliad, yn ddyn annuwiol; ac ar y llaw arall, nid oes un dyn ag sydd yn parhau yn annuwiol, wedi cael gwir ddychweliad: felly bod yn annuwiol, a bod heb ddychwelyd, ydynt yr un peth. A chan hynny, wrth agor un, yr agorir y ddau.

Ond cyn y gallwyf ddywedyd wrthych pa beth a feddylir wrth naill neu annuwioldeb neu wir ddychweliad, rhaid i mi fyned at y gwaelod, a dwyn y mater ymlaen o'r dechreuad.

Rhyngodd bodd i Greawdwr y byd, yn ei ddoethineb, i wneuthur tri math o greaduriaid; angelion a wnaeth efe yn ysprydion pur, heb gnawd, ac am hynny efe a'u haddasodd hwy yn unig i'r nefoedd, ac nid i fyw ar y ddaear. Anifeiliaid a wnaeth efe yn gnawd; ac o herwydd hynny yn addas yn unig i'r ddaear, ac nid i'r nefoedd. Dyn sydd o naturiaeth ganol rhwng y ddau; fel ag y mae yn gyfrannog o gnawd ac yspryd, ac o achos hynny a wnaethpwyd ar fedr y nefoedd yn gystal a'r ddaear. Ond nid yw ei gnawd wedi ei wneuthur ond megis yn was i'w yspryd, ac felly nis gwnaethpwyd ef i'r ddaear, ond yn unig

megis ag y mae hi yn ffordd i'r nefoedd, ac nid fel y byddai'r ddaear yn artref, neu yn happusrwydd iddo. Y cyflwr bendigedig y crewyd dyn ar ei fedr, oedd canfod mawredd gogoneddus yr Arglwydd, a'i glodfori ef ymysg ei angelion sanctaidd; a'i garu ef, a chael ei gyflawni â'i gariad yn dragywydd. A chan mai hyn oedd y diben at ba un y crewyd dyn, felly Duw a'i cynnysgaeddodd â moddion i'w gyrhaeddyd: a'r moddion hyn, yn fwyaf pennodol, oeddent ddau. Yn gyntaf, iawn ewyllys, ac egwyddor, ac elfen, a thymher meddwl dyn. Yn ail, iawn drefnu ei fywyd a'i fuchedd. Am y cyntaf, Duw a addasodd dymher dyn tuag at y diben; gan roddi iddo'r cyfryw wybodaeth o Dduw ag oedd addas i'w gyflwr presennol, a chalon yn tueddu at Dduw mewn cariad sanctaidd. Ond etto, nis sicrhaodd efe ef yn y cyflwr hynny; ond gan iddo ei wneuthur ef yn rhydd-weithredwr, efe a'i gadawodd ef yn nwylaw ei ewyllys-rydd. Ac am yr ail, Duw a wnaeth yr hyn ag oedd yn perthyn iddo; hynny yw, efe a roddodd i ddyn ddeddf berffaith, yr hon oedd yn gofyn iddo aros yn ngHariad Duw, a rhoddi iddo ufudd-dod perffaith. Ond trwy dorri'r ddeddf hon o'i wirfodd, fe ddarfu dyn nid yn unig golli (neu *fforffetio)* ei holl obaith o fywyd

tragywyddol; ond hefyd, efe a drodd ei galon oddiwrth Dduw, ac a'i gosododd ar y pethau isod hyn, a thrwy hynny efe a ddileodd ddelw ysprydol Duw oddi ar ei enaid. Fel ag y bu i ddyn, fel hyn, syrthio yn fyr o ogoniant Duw, (ar fedr yr hwn y crewyd ef,) yn gystal a thaflu ei hun allan o'r ffordd y gallasai ei gyrhaeddyd; a hynny yn gystal yn nhymher ei galon, a thuedd ei fywyd. Canys efe a gollodd dueddrwydd sanctaidd ei enaid tuag at Dduw; ac yn lle hynny, efe a ymreddfodd mewn chwennychiad i foddio ei gnawd mewn pethau daearol, gan ymddieithrio oddiwrth Dduw, a dyfod yn fwy cydnabyddus â'r creadur; ac felly yr oedd helynt ei fywyd wedi ei addasu i dueddiad ei galon, fel ag yr oedd yn byw i'w ewyllys ei hun, ac nid i Dduw; ac efe a chwennychodd y creadur i foddio'r cnawd, yn lle ceisio boddloni Duw. A chyd a'r natur neu'r tueddfryd llygredig hyn, yr ydym bawb oll yn cael ein geni i'r byd. Canys "pwy a ddichon dwyn peth glân allan o beth aflan?" Job, 14: 4. Ac megis ag y mae yn y llew natur ffyrnig, greulon, cyn iddo ddechreu ysglyfaethu; ac yn y neidr natur wenwynig, cyn iddi ddechreu brathu; felly ninnau hefyd, y mae ynom, yn ein mabandod, natur a thueddiadau pechadurus, cyn i ni ddechreu medd-

wl na siarad, na gwneuthur drygioni. Ac oddi yma y mae yn tarddu holl bechodau ein bywyd: ac nid hynny yn unig, ond pan y mae Duw, o'i anfeidrol drugaredd, wedi rhagddarparu i ni feddyginiaeth, sef yr Arglwydd Iesu Grist, i fod yn Iachawdwr i'n heneidiau, a'n dwyn ni yn ol at Dduw, yr ydym o naturiaeth yn caru ein cyflwr presennol; ac yr ydym yn anewyllysgar i gael ein dwyn at Dduw, ac o herwydd hynny yr ydym wedi ymosod ein hunain yn erbyn y moddion a drefnwyd i'n hadferu; ac er fod ymarferiad wedi ein dysgu i ddiolch i Grist am ei ewyllys-da, etto yr ydym yn gwrthod ei feddyginiaethau, ac yn ewyllysio cael ein hesgusodi, pan yr ydym yn cael gorchymmyn i gymmeryd y feddyginiaeth y mae efe yn ei chynnyg i ni, ac yn cael ein galw i ymadael â'r cwbl oll, a'i ganlyn ef at Dduw ac i'r gogoniant.

Yn yr ychydig eiriau hyn yr ydych yn cael hanes wirioneddol o'n cyflwr ni oll wrth naturiaeth; ac yn ganlynol o bob dyn drygionus, neu annuwiol. Canys pob dyn ag sydd yn y cyflwr hyn, ac ynddo y cyfryw natur lygredig, sydd ddyn annuwiol, ac mewn '*stad* marwolaeth.

Ac oddiwrth hyn y gellwch ddeall pa beth ydyw cael ein *dychwelyd;* ac i'r diben hyn rhaid

i chwi wybod ymhellach, fod trugaredd Duw (gan nad oedd yn ewyllysio i ddyn fod yn golledig yn ei bechodau) wedi darparu meddyginiaeth, trwy wneuthur i'w Fab gymmeryd ein natur ni arno; a chan ei fod yn Dduw ac yn ddyn mewn un person gogoneddus, efe a aeth yn Gyfryngwr rhwng Duw a dyn; a thrwy farw dros ein pechodau ni ar y groes, efe a'n gwaredodd oddiwrth felldith Duw, ac oddiwrth lywodraeth Satan. Ac wedi iddo ein gwared ni fel hyn, y Tad a'n traddododd ni i'w ddwylaw ef, fel yn eiddo ei hun. Ac ar hyn y mae'r Tad a'r Cyfryngwr yn gwneuthur deddf a chyfammod newydd â dyn: nid fel y cyntaf, yr hwn ni roddai fywyd i'r un ond i'r hwn a gyflawnai *berffaith ufudd-dod*, ac ar yr un pryd yr oedd yn condemnio dyn am bob pechod: ond Crist Iesu a wnaeth ddeddf (neu gyfammod) o ras, neu addewid o faddeuant a bywyd tragywyddol i bawb, y rhai trwy wir edifeirwch, a ffydd yn Nghrist, a droir ac a ddychwelir at Dduw. Yr un fath a deddf maddeuant a gollyngdod, a wneir gan dywysog i fintai o wrthryfelwyr, ar ammodau y gwnaent roddi i lawr eu harfau, a dyfod i mewn, a bod yn ddeiliaid pur a ffyddlon am yr amser i ddyfod.

Ond, gan fod yr Arglwydd yn gwybod fod calon

dyn wedi myned mor ddrwg, fel na fyn dynion dderbyn y feddyginiaeth, (os cânt eu gadael iddynt eu hunain,) y mae'r Yspryd Glân wedi cymmeryd arno y swydd o ysprydoli a chyfarwyddo'r apostolion, a selio'r ysgrythurau trwy wyrthiau; a goleuo a dychwelyd eneidiau dynion.

Felly y gwelwch, megis ag y mae tri Pherson yn y Drindod, y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân; fod gan bob un o'r Personau eu gweithredoedd priodol, y rhai a gyfrifir mewn modd neillduol a nodedig iddynt hwy eu hunain.

Gwaith y Tad oedd ein creu, a'n rheoli megis ei greaduriaid rhesymmol, yn ol cyfraith natur, a'n barnu wrthi; ac mewn trugaredd i ddarparu i ni Waredwr, wedi i ni fyned yn golledig; ac i anfon ei Fab, ac i dderbyn ei bridwerth.

Gweithredoedd y Mab, erddom ni, oedd y rhai canlynol: ein prynu a'n pwrcasu trwy ei ddioddefaint a'i gyfiawnder; i roddi allan yr addewid, neu ddeddf gras; a rheoli a barnu'r byd, megis ein Gwaredwr, ar ammodau gras; ac i wneuthur eiriolaeth drosom, fel y byddai i effeithiau daionus ei farwolaeth gael eu cyfrannu; ac anfon yr Yspryd Glân, yr hyn hefyd y mae'r Tad yn ei wneuthur trwy'r Mab.

Gweithredoedd yr Yspryd Glân, drosom ni,

ydyw y rhai hyn: rhaglafaru yr ysgrythurau i'r prophwydi a'r apostolion, gan eu hysprydoli a'u cyfarwyddo, a selio'r gair trwy roddion gwyrthiol a gweithredoedd nerthol; a goleuo ac hyfforddi gweinidogion yr efengyl yn gyffredinol, ac felly eu cymhorth a'u cynnorthwyo i gyhoeddi'r gair; a thrwyddo hefyd yn goleuo ac yn dychwelyd eneidiau dynion. Ac felly, fel nas gallasech fod yn greaduriaid rhesymmol, oni buasai i'r Tad eich creu; ac ni fuasech yn cael dyfodfa at y Tad, oni buasai i'r Mab eich gwaredu; felly hefyd nis gallwch fod yn gadwedig, oni fydd i'r Yspryd Glân eich sancteiddio.

Fel hyn y gallwch weled y gwahanol achosion dechreuol o'r gwaith hwn. Y mae'r Tad yn anfon y Mab; y mae'r Mab yn ein gwaredu, ac yn rhoddi i ni addewid o ras; a'r Yspryd Glân yn rhaglafaru ac yn selio'r efengyl; a'r apostolion oeddent ysgrifenyddion yr Yspryd, gan roddi gair Duw ar lawr yn ysgrifennedig; y mae pregethwyr yn cyhoeddi'r efengyl, ac yn cynghori dynion i ufuddhau iddo; ac y mae'r Yspryd Glân yn gwneuthur eu pregethau yn effeithiol, trwy agor calonnau dynion i'w chroesawu. A hyn oll sydd yn cael ei wneuthur i'r diben o adnewyddu delw Duw ar yr enaid, ac i osod y galon ar Dduw

drachefn, a'i thynnu oddi ar y creadur, at yr hwn y mae wedi gwrthgilio: ac felly i droi ffrwd y bywyd, yr hon oedd o'r blaen yn ddaearol, i afon (neu ffordd) y nefoedd; a hyn oll sydd yn cael ei wneud trwy dderbyn Crist (yr hwn yw Meddyg yr enaid) trwy ffydd.

Wrth hyn y gallwch weled pa beth yw bod yn annuwiol, a pha beth yw bod wedi eich dychwelyd: yr hyn (myfi a feddyliwn) a ymddengys etto yn fwy eglur, os gosodaf hwynt allan megis ag y maent yn gynnwysedig mewn amrywiol rannau; ac mewn perthynas i'r cyntaf, dyn drwg, annuwiol, a adnabyddir wrth y tri pheth canlynol.

Yn gyntaf, Y mae efe yn un ag sydd yn ymfoddloni ar y ddaear, ac yn caru'r creadur yn fwy nâ Duw, a'i lwyddiant cnawdol yn fwy nâ'i ddedwyddwch nefol; y mae efe yn synnied pethau cnawdol, ond nid yw yn canfod nac yn synnied pethau'r Yspryd. Ac er iddo ddywedyd fod y nefoedd yn well nâ'r ddaear, er hynny nid yw efe mewn gwirionedd yn tybied hynny. Pe gallai fod yn sicr o'r ddaear, efe a ollyngai'r nefoedd heibio; a gwell fyddai ganddo aros yma, nâ chael ei drosglwyddo yno. Ac nid yw bywyd o berffaith sancteiddrwydd ger bron Duw yn y nefoedd, a chael byw yn ei gariad, a'i glodfori i bob

tragywyddoldeb, yn cael y fath dderbyniad yn ei galon, nac mor hyfryd yn ei olwg, a chael byw mewn iechyd, a chyfoeth, ac anrhydedd yma ar y ddaear. Ac er iddo yn rhagrithiol broffesu ei fod yn caru Duw yn fwy nâ dim, er hynny nid yw efe erioed mewn gwirionedd wedi profi effaith na grym cariad Dwyfol; ond y mae ei feddwl wedi ei osod yn fwy, naill neu ar y byd, neu bleserau cnawdol, nag ar Dduw. Mewn gair, pwy bynnag sydd yn caru'r ddaear yn fwy nâ'r nefoedd, a llwyddiant cnawdol yn fwy nâ Duw, sydd ddyn annuwiol ac annychweledig.

Ar y llaw arall, y mae'r dyn dychweledig wedi ei oleuo i ganfod hawddgarwch Duw, ac felly y mae efe yn credu yn y cyfryw fodd am y gogoniant hwnnw ag sydd i'w gael gyd a Duw, fel ag y mae ei galon wedi ei gosod yn fwy arno, nag ar ddim ag sydd yma yn y byd. Ac y mae yn fwy dewisol yn ei olwg i gael gweled wyneb Duw, a byw yn ei gariad yn dragywydd, nâ chael mwynhau holl olud a phleserau'r byd hwn. Y mae efe yn gweled mai gwagedd yw pob peth arall, ac nad oes dim ond Duw a ddichon lenwi ei enaid. A chan adael i'r byd fyned lle y mynno, y mae efe yn trysori iddo ei hun drysorau yn y nefoedd, ac yn gosod ei holl obaith yno; ac i'r diben i'w mwynhau, y mae

efe yn barod i ymadael â'r cwbl. Megis ag y mae'r tân yn esgyn i fynu, a'r nodwydd ddur a fyddo wedi cyffwrdd â'r tynfaen *(loadstone)* yn troi at y gogledd, felly y mae'r enaid dychweledig yn tueddu at Dduw. Nid oes dim arall a ddichon ei foddloni, ac nis gall efe gael dim boddlonrwydd na gorphwysdra ond yn ei gariad ef. Mewn gair, y mae pob un ag sydd wedi cael dychweliad, yn mawrygu ac yn caru Duw yn fwy nâ'r holl fyd; ac y mae dedwyddwch nefol yn fwy gwerthfawr yn eu golwg nâ'u llwyddiant cnawdol ac amserol.

Yn ail, Un ydyw'r dyn annuwiol ag sydd yn edrych ar ei lwyddiant a'i ffyniant yn y byd, a chael mwynhau ei ddibenion cnawdol, megis gwaith pennaf ei fywyd. Ac er y dichon efe ddarllain, a gwrando, a gwneuthur llawer yn y dyledswyddau allanol o grefydd, ac ymattal rhag pechodau gwaradwyddus; etto nid yw hyn oll yn ei olwg ond pethau o ail ystyriaeth, ac i'w gwneuthur wrth ei gyfleusdra; ond nid ceisio rhyngu bodd Duw, ac ymdrechu am y gogoniant tragywyddol, yw gwaith a diben pennaf ei fywyd. Ond y mae efe yn troi Duw heibio, gan roddi iddo ddim ond yn unig weddillion y byd, na dim yn chwaneg nag a ewyllysio y cnawd ei hepgori iddo.

Ar y llaw arall, dyn edifeiriol yw un ag sydd yn

gwneuthur rhyngu bodd Duw, ac iachawdwriaeth ei enaid, yn waith pennaf ei fywyd; ag sydd yn cymmeryd holl drugareddau'r bywyd hwn megis pethau angenrheidiol tuag at ein cynnaliaeth ar ein taith tua byd arall, ac felly y mae efe yn arfer y creadur mewn ufudd-dod i ewyllys Duw: y mae efe yn hoffi bywyd sanctaidd, ac yn ewyllysio bod yn fwy sanctaidd; ac nid oes ynddo un pechod nad ydyw yn ei ffieiddio, ac yn hiraethu, ac yn gweddio, ac yn ymdrechu i gael gwaredigaeth oddi wrtho. Y mae gogwyddiad ei fywyd tuag at Dduw; ac os digwydd iddo bechu, y mae hynny mewn gwrthwyneb i dueddiad ei galon a'i fywyd; gan hynny, pan fydd efe yn syrthio fel hyn, efe a fydd yn cyfodi drachefn, ac yn galaru yn fawr o herwydd ei wendidau; ac ni feiddia efe fyw o'i wirfodd mewn un pechod adnabyddus. Nid oes dim mor anwyl ganddo yn y byd hwn, na ddichon efe ei roddi i fynu i Dduw, ac ymadael ag ef yn ewyllysgar er mwyn gobaith gogoniant.

Yn drydydd, Ni ddarfu i enaid un dyn annuwiol erioed iawn amgyffred nac ymhyfrydu yn nirgelwch prynedigaeth, na derbyn gyd a diolchgarwch yr Iachawdwr ag sydd yn cael ei gynnyg i bechaduriaid; ac nid yw yn cymmeryd hyfrydwch yn nghariad y Prynwr, nac yn ewyllysio cym-

meryd ei reoli ganddo, i'r diben iddo gael ei achub rhag euogrwydd, ac awdurdod, a llywodraeth ei bechodau, a'i adferu at Dduw: ond y mae ei galon yn annheimladwy o'r fath annhraethol gymmwynasgarwch a llesâd; ac y mae yn hollol wrthsefyll y moddion meddyginiaethol, trwy y rhai y mae iddo gael ei achub. Ni fydd efe un amser yn rhoddi ei enaid i fynu i Grist, ac i gynhyrfiadau a thywysiad ei air a'i Yspryd.

Ond ar y llaw arall, y mae'r enaid dychweledig yn deimladwy o'i gyflwr truenus, ac yn gweled ei hun wedi ei lygru gan bechod, ac yn canfod ei fod wedi colli ei heddwch â Duw, a'i obaith o'r nefoedd, a'i fod mewn perygl o drueni tragywyddol, ac yn groesawu gyd a diolchgarwch y newyddion da o iachawdwriaeth; a chan gredu yn yr Arglwydd Iesu megis ei unig Iachawdwr, y mae efe yn rhoddi ei hun i fynu iddo ef, ac yn ei ddewis i fod iddo *yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth.* Y mae efe yn derbyn Crist megis bywyd ei enaid, ac yn byw trwyddo, ac yn ei gymmeryd megis eli i bob anaf,* gan ryfeddu doethineb a chariad Duw yn y gwaith rhyfeddol o iachawdwriaeth dyn. Mewn gair y mae "Crist Iesu yn trigo trwy ffydd yn ei

* Dolur.

galon; a'r bywyd y mae efe yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, byw y mae trwy ffydd yn Máb Duw, yr hwn a'i carodd ac a'i rhoddodd ei hun drosto." Eph. 3 : 17. Gal. 2 : 20.

Chwi a welwch, gan hynny, yn awr, pwy yw'r annuwiol, a pha rai yw'r dychweledig. Dynion anwybodus a feddyliant, os na fydd dyn yn dyngwr a rhegwr, neu ddifenwr, neu yn feddwyn, yn butteinwr, neu odinebwr, neu yn gribddeiliwr, ac yn anghyfiawn, neu yn dwyllodrus, nc os na fydd yn gwneud cam â neb yn ei *fargenion* a'i fasnach a'r byd, ac os bydd yn myned i'r eglwys, ac yn adrodd y gweddiau, nas gall y cyfryw un fod yn annuwiol, neu yn bechadur mawr. Neu os bydd dyn ag a fu unwaith yn euog o feddwi, a thyngu a rhegu, neu ryw gyffelyb bechod, wedi troi yn fwy sobr, a gadael heibio'r cyfryw ddrwg arferion, hwy a feddyliant fod y dyn hwnnw wedi cael gwir ddychweliad. Eraill a dybiant, os daw dyn a fu unwaith yn elyniaethol i dduwioldeb, ac yn erlidiwr crefydd, i fod yn broffeswr, ac i gydgymdeithasu gyd a phobl dduwiol, a chael ei gasâu o'r achos gan yr annuwiolion, fod y cyfryw un, yn ddiau, wedi cael gwir droedigaeth. Ac y mae rhai mor anwybodus a meddwl eu bod wedi dychwelyd, pan nad ydynt ond yn unig wedi cymmer-

yd i fynu ryw farn newydd, neu wedi syrthio i mewn i fysg rhyw blaid neu enw o bobl. A rhai eraill sydd yn tybied, os byddant wedi cael eu dychrynu gan ofn uffern, ac o'r achos hynny wedi addunedu a bwriadu diwygiad, ac wedi cymmeryd i fynu ymddygiad moesol, a phroffes allanol o grefydd, fod y cyfryw un yn ddiau wedi cael gwir ddychweliad. A'r rhai hyn yw'r eneidiau, truain, twylledig, ag a fyddant yn debygol o golli'r budd a'r llesâd o'n holl annogaethau. A phan glywant fod yn rhaid i'r annuwiolion naill neu droi neu farw, y maent yn meddwl nad yw hyn yn perthynu iddynt hwy, ac mai nid wrthynt hwy y dywedir hyn. A dyma'r achos y llafarodd ein Hiachawdwr Crist Iesu wrth rai o bennaethiaid yr Iuddewon, y rhai oeddent yn fwy moesol, sobr, a chyweithas nâ'r bobl gyffredin, sef fod "y publicanod a phutteiniaid yn myned i mewn i deyrnas nefoedd o'u blaen hwy." Mat. 21 : 31. Ond nid ydym i ddeall wrth hyn y dichon putteiniaid a phechaduriaid aflan fod yn gadwedig heb edifeirwch a throedigaeth ; ond o herwydd fod yn fwy hawdd i wneuthur i'r cyfryw bechaduriaid mawrion fod yn deimladwy o'u pechod, a chydnabod eu hannheilyngdod, a'r angenrheidrwydd o gael cyfnewidiad, nâ'r Phariseaid a'r rhagrithwyr ffurfiol.

Oh garedigion! y mae edifeirwch a gwir ddychweliad, yn waith amgenach nag y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei dybied: nid matter bychan yw dangos i ddyn rinweddau ac hawddgarwch Duw, yn y cyfryw fodd fel ag y byddo iddo gael ei gyflawni â'r fath gariad tuag atto, fel nas gellir yn hawdd ei ddiffoddi: nid gwaith bychan yw cael calon ddrylliedig o herwydd dy bechod, na gwneuthur i'r pechadur ffoi at Grist Iesu megis ei unig noddfa, ac i'w dderbyn ef gyd a diolchgarwch megis bywyd dy enaid; cael y cyfryw droedigaeth, fel ag y byddo holl feddylfryd y galon, a thueddiad ein bywyd, wedi eu cwbl gyfnewid; fel ag y byddo i ddyn hollol ymwadu â'r pethau hynny yr oedd efe o'r blaen yn mawr ymhyfrydu ynddynt; ac i hoffi'r pethau hynny ag yr oedd efe o'r blaen yn eu casâu; fel nad ydyw efe mwyach yn byw i'r un diben, na chwaith yn golygu yr un bwriadau, nac yn canlyn yr un amcanion ag yr oedd efe o'r blaen yn y byd. Canys y mae'r hwn sydd "yn Nghrist Iesu yn greadur newydd; yr hen bethau a aethant heibio, wele gwnaethpwyd pob peth yn newydd." 2 Cor. 5: 17. Y mae efe yn feddiannol o ddeall a gwybodaeth newydd, o ewyllys a bwriadau newyddion, gofidiau a dymuniadau newyddion, cariad newydd,

hyfrydwch newydd, meddyliau newyddion, ymadroddion newyddion, cyfeillion newyddion, (os bydd bosibl,) ac ymddiddanion newyddion. A phechod, (yr hyn o'r blaen nid oedd ond megis coeg-ddigrifwch,) sydd 'rwan mor atgas yn ei olwg, fel ag y mae yn ffoi rhagddo megis rhag angeu. A'r byd, yr hwn gynt oedd mor hyfryd a dymunol yn ei olwg, nid yw mwyach yn ymddangos ond megis *gwagedd* a gorthrymder yspryd. A Duw, yr hwn yr oedd efe o'r blaen yn ei esgeuluso, yw unig happusrwydd ei enaid; o'r blaen yr oedd efe yn ei anghofio, ond yn awr y mae efe yn ei osod nesaf ei galon, a rhaid i bob peth arall roddi lle iddo; a'i galon sydd yn cael ei hollol gymmeryd i fynu yn ei wasanaeth, a disgwyl wrtho; ac y mae yn galaru ac yn mawr ofidio pan fydd yr Arglwydd yn cuddio ei wyneb; ac ni fydd ei galon un amser yn iawn, heb gael mwynhau ei gymdeithas a'i bresenoldeb. A Christ ei hun, am yr hwn yr oedd efe yn arferol o feddwl ond yn anaml, yw ei unig obaith a'i noddfa yn awr, ac y mae efe yn byw ac yn ymborthi arno megis ei fara beunyddiol; ac nis gall efe na gweddio, na mwynhau dim hyfrydwch, heb gael cymmundeb ag ef; ïe, nis dichon na myfyrio, nac ymddiddan, na byw mewn heddwch, heb gael ei

gymdeithas. A'r nefoedd ei hun, yr hon o'r blaen yr oedd efe yn ei golygu megis rhyw beth i'w gadw wrth gefn, neu megis rhyw gilfach, neu ddiogelfa, ychydig gwell nag uffern, i ffoi iddi yn y diwedd, wedi gorfod iddo ymadael â'r byd; dyma'r lle y mae efe yn awr yn edrych arno megis ei artref, a'r man lle y mae ei unig obaith a'i orphwysfa, a'r lle y bydd iddo gael gweled, a charu, a chlodfori Duw, a'r lle y mae ei galon eisoes. A'r Bibl, yr hwn nid oedd o'r blaen yn ymddangos ond megis llyfr cyffredin yn ei olwg, sydd yn awr yn cael ei ystyried megis cyfraith Dduw, ac megis llythyr wedi ei ysgrifennu atto o'r nefoedd, ac wedi ei arwyddo ag enw y Mawredd tragywyddol; hwn yw rheol ei feddyliau, ei eiriau, a'i weithredoedd; y mae efe yn ystyried ei hun dan rwymau i ufuddhau i'w orchymynion, ac y mae ei addewidion yn llafaru bywyd i'w enaid. Ar fyr eiriau, y mae ganddo ddiben newydd yn ei feddyliau, a ffordd newydd yn ei ymdrechiadau, ac o herwydd hynny y mae ei galon a'i fywyd yn newydd. Fel ag nad ydyw hwn yn gyfnewidiad mewn un neu ddau, neu ugain o ystyriaethau, ond yn ei holl enaid a'i ymarweddiad.

A ydych chwi yn credu hyn, fy mrodyr, ai nid ydych? Yn ddiau, nis medrwch ddywedyd nad

ydych. Nid ymddadleuon yw y rhai hyn, lle y mae un dyn duwiol o'r farn hyn, ac arall o feddwl arall; canys y mae holl Gred yn cyttuno yn hyn; ac os na chredwch Dduw'r gwirionedd, a hynny mewn peth ag y mae pob plaid (*sect*) ac enw o bobl yn ei gredu, yr ydych yn hollol ddiesgus.

Ond ar y llaw arall, os ydych yn credu hyn oll, pa fodd y medrwch fyw mor ddifraw ac anystyriol mewn cyflwr annychweledig? A ydych chwi yn tybied eich bod wedi cael troedigaeth? A ydych chwi yn gwybod mewn gwirionedd, fod y cyfnewidiad mawr hwn wedi cael ei wneuthur ar eich eneidiau? A ydych chwi wedi cael eich geni oddi uchod, a'ch gwneuthur yn greaduriaid newydd? Os nad ydych yn cofio'r dydd na'r wythnos y cymmerodd y cyfnewidiad hwn le ynoch, etto a ydych chwi yn gwybod fod y cyfryw waith wedi cael ei wneuthur o'ch mewn? a'ch bod yn feddiannol o'r fath galonnau ag y soniwyd o'r blaen am danynt? Och! y mae y rhan fwyaf yn canlyn eu gorchwylion bydol, heb flino eu meddyliau ond ychydig â'r fath fyfyrdodau; ac os byddant yn cael eu cadw rhag pechodau gwaradwyddus, ac yn gallu dywedyd, "Nid ydwyf yn odinebwr, nac yn lleidr, nac yn dyngwr na rhegwr, nac yn ddiottwr na chribddeiliwr, myfi a fyddaf yn

myned i'r eglwys ac yn adrodd y gweddiau;" y maent yn tybied fod hyn yn wir droedigaeth, ac y byddant yn gadwedig yn gystal a'r goreu. Och! nid yw hyn ond ynfyd dwyllo eich hunain. Y mae hyn yn esgeulusdra rhy waradwyddus o'ch eneidiau anfarwol. A ellwch chwi wneuthur mor ysgafn o'r nefoedd ac uffern? Eich cyrph a fyddant ar fyrder yn gorwedd yn y llwch, ac angelion neu gythreuliaid a fyddant yn meddiannu eich eneidiau, a phob dyn neu ddynes o honoch a fyddant ymysg cymdeithas arall, ac mewn cyflwr gwahanol i'r un yr ydych ynddo. Ni phreswyliwch yn eich tai ond ychydig amser; ni weithiwch yn eich gweithdai a'ch caeau ond ychydig yn hwy; nid eisteddwch yn eich eisteddleoedd, ac ni fyddwch fyw ar y ddaear ond ychydig iawn yn hwy; ni chewch ganfod â'ch llygaid, na chlywed â'ch clustiau, na siarad â'ch tafodau, ond ychydig bach etto; ac a allwch chwi anghofio hyn? Oh, ymha fath le, naill neu o hyfrydwch neu o boenau, y byddwch chwi ynddo ar fyrder! Oh, pa fath olwg a welwch yn fuan naill neu yn y nefoedd, ai ynte yn uffern! Oh, pa fath feddyliau a fydd ymhen ychydig amser yn llenwi eich calonnau, naill neu ag hyfrydwch annhraethol, neu ynte ddychryn arswydus! Pa beth a fydd eich gwaith?

Pa un ai clodfori Duw, gyd a seintiau ac angelion, neu ynte wylofain gyd a chythreuliaid mewn tân anniffoddadwy? Ac a fydd i chwi anghofio hyn oll? A hyn oll a fydd yn ddiddiwedd, ac wedi ei selio â barn anghyfnewidiol. Tragywyddoldeb! tragywyddoldeb! a fydd parhad eich gorfoledd neu eich trueni; ac a fydd i chwi anghofio hyn? Ac y mae hyn oll yn wir, ïe, yn wirionedd tra sicr; wedi i chwi fyned i fynu ac i lawr ychydig yn hwy, a chysgu a deffroi ychydig o weithiau yn ychwaneg, chwi a fyddwch feirw, ac a ewch ymaith, a chewch wybod fod yr hyn oll ag yr ydwyf yn ei ddywedyd yn wirionedd. Ac a ddichon i chwi yn awr ei anghofio? Chwi a gofiwch y pryd hynny eich bod wedi clywed y bregeth hon, a'ch bod y dydd heddwy, ac yn y lle hwn, wedi cael eich rhoddi mewn cof am y pethau hyn; ac er hynny a gânt hwy yn awr eu hanghofio fel hyn?

Garedigion, oni buasai i'r Arglwydd fy neffroi i gredu a gosod y pethau hyn at fy nghalon, darfuasai am danaf am byth. Ond gan ei fod wedi fy ngwneuthur yn deimladwy o honynt, y mae hyn yn fy rhwymo i dosturio wrthych chwithau. Pe byddai eich llygaid wedi eu hagor fel y canfyddech uffern, a gweled eich cymmydogion annych-

weledig yn cael eu llusgo yno gyd ag oernadau arswydus, er eu bod y cyfryw ag oeddech yn eu cyfrif yn bobl onest ar y ddaear; y cyfryw olwg a wnae i chwi rybuddio pawb o'ch amgylch rhag iddynt fyned i'r lle hwnnw o boenau. Ac onid ydyw ffydd yn fath o olwg! llygad yr enaid ydyw, "sicrwydd y pethau nis gwelir." Heb. 11 : 1. Os ydwyf yn credu Duw, y mae hyn yn nesaf at olwg; gan hynny, yr ydwyf yn attolwg i chwi, cymmerwch fi yn esgusodol, os byddaf mor daer arnoch ynghylch y pethau hyn, a phe buaswn wedi eu gweled. Pe byddwn farw y foru, a minnau yn gallu dychwelyd yn fy ol o'r byd arall, ac adrodd i chwi yr hyn a welais, oni fyddech yn ewyllysio fy ngwrando? ac oni fyddai i chwi gredu ac ystyried yr hyn a ddywedwn wrthych? Pe byddai ganiattad i mi bregethu i chwi un bregeth ar ol fy marwolaeth, ac wedi i mi weled yr hyn a wneir yn y byd sydd ar ddyfod, oni ddisgwyliech i mi ddywedyd y gwir, ac oni fyddai i chwi ddyfod yn finteioedd i'm gwrando? Ac oni osodech yr hyn a lefarwn at eich calonnau? Ond ni ddichon hyn fod; y mae gan Dduw ffordd drefnedig i'ch dysgu; ac ni foddia efe fympwy anghredinwyr cyn belled ag anfon attynt un oddiwrth y meirw, ac felly cyfnewid ei drefn osodedig.

Pe byddai rhyw un mor ynfyd a gweled bai ar yr haul, ni chydsyniai'r Arglwydd cyn gymmaint â'i ffolineb, a gosod i fynu oleuni mwy disglair. Gyfeillion, yr ydwyf yn attolwg i chwi, edrychwch arnaf yn awr megis pe byddwn wedi dyfod yn ol attoch oddi wrth y meirw; canys myfi a allaf roddi i chwi gystal sicrwydd o wirionedd yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthych, a phe buaswn wedi bod yno a'i weled â'm llygaid; o herwydd y mae'n bosibl y gallai un o blith y meirw eich twyllo; ond Iesu Grist nis dichon eich siommi. A gair Duw, yr hwn sydd wedi ei draddodi yn yr ysgrythur lân, ac wedi ei selio â rhyfeddodau, a'i gadarnhau trwy sanctaidd weithrediadau'r Yspryd, nis gall eich twyllo un amser. Credwch hyn, neu na chredwch ddim arall yn y byd. Credwch hyn, ac ufuddhewch, neu derfydd am danoch dros byth. Yn awr, os ydych yn credu gair Duw, neu os oes gennych ryw ofal am iachawdwriaeth eich eneidiau anfarwol, gadewch i mi gael gennych addaw i mi yr erfyniad rhesymmol hyn, sef wedi i chwi ymadael o'r lle hwn, adgofio o honoch yn ddioed yr hyn a glywsoch, a dechreu o honoch chwilio eich calonnau yn ddifrifol, a dywedyd wrthych eich hunain,—"A ydyw'r pethau hyn felly mewn gwirionedd? A fydd raid i mi droi neu

farw? A fydd raid i mi gael dychweliad, neu gael fy nghondemnio? Y mae yn amser i mi, gan hynny, i edrych o'm hamgylch, cyn iddi fyned yn rhy ddiweddar. Oh! paham na buaswn yn edrych ynghylch hyn cyn yr awrhon? Paham y darfu i mi mor rhyfygus roddi heibio *fusnes* mor fawr? A oeddwn i yn effro? Oh Dduw bendigedig! pa fath drugaredd oedd na fuasit yn torri ymaith fy mywyd yr holl amser hyn! Wele, na atto Duw i mi esgeuluso'r gwaith hwn yn hwy! Ymha gyflwr y mae fy enaid? A ydwyf fi wedi cael troedigaeth, ai nid ydwyf? A wnaethpwyd erioed y cyfryw waith ar fy enaid? A gefais i fy ngoleuo gan y gair ac Yspryd yr Arglwydd, i weled ffieiddra pechod, yr eisiau o Iachawdwr, cariad Crist, a rhagorol odidawgrwydd Duw a gogoniant? A ydwy fy nghalon yn ddrylliedig, ac wedi ei darostwng o'm mewn, o herwydd fy mhechodau gynt? A ydwyf fi wedi derbyn yn roesawus fy Iachawdwr a'm Harglwydd, yr hwn a gynnygodd ei hun gyd a maddeuant a bywyd i'm henaid? A ydwyf fi yn casâu fy mywyd pechadurus gynt, a gweddillion pob pechod ag sydd ynof? A fyddaf fi yn ffoi rhagddynt megis fy ngelynion marwol? A fyddaf fi yn rhoddi fy hun i fynu i fywyd o sancteiddrwydd? Ac a fyddaf fi yn caru ac yn ymhyf-

rydu yn y cyfryw fywyd? A allaf fi ddywedyd, mewn gwirionedd, fy mod i yn farw i'r byd, ac yn byw i Dduw, a'r gogoniant a addawodd efe? A ydyw'r nefoedd yn dwyn mwy o'm serchiadau nâ'r ddaear? Ai Duw yw'r peth uchaf yn fy meddwl, a mwyaf anwyl i'm henaid? Unwaith, yr ydwyf yn sicr, yr oeddwn yn byw, y rhan amlaf, i'r byd a'r cnawd; ac ni fyddai Duw yn cael dim ond rhyw wasanaeth difywyd, a fedrai'r byd yn hawdd ei hepgor, a gweddillion y cnawd. Ac a ydyw fy nghalon yn awr wedi ei throi ffordd arall? A oes gennyf fwriad newydd, a diben newydd, ac amlder o serchiadau nefolaidd? A ydwyf fi wedi gosod fy ngobaith a'm calon ar y nefoedd? Ac a ydyw holl fwriad fy nghalon a'm bywyd i fyned yn ddihangol i'r nefoedd, a gweled wynebpryd gogoneddus fy Nuw, a byw yn ei gariad, a'i glodfori yn dragywydd? A fyddaf fi yn darostwng fy nghorph, ac yn ymwadu â phob pechod gwaradwyddus? Ac a ydwyf fi wedi blino ar fy ngwendidau, ac yn ewyllysio ymadael â hwynt? Dyma gyflwr a phrofiad pob enaid dychweledig; ac felly y bydd raid ei bod gyd a minnau, neu byddaf golledig. Ai fel hyn y mae gyd a mi mewn gwirionedd, ai nid ydyw? Y mae'n amser i gael atteb iawn i'r amheuaeth hwn, cyn i'r Barnwr mawr ei dde-

hongli! Nid ydwyf mor ddieithr i'm calon a'm bywyd, nas gallwyf wybod pa un a ydwyf wedi troi fel hyn ai nid ydwyf; ac os nad ydwyf, ni fydd les yn y byd i mi wenieitho i fy enaid gyd a gobaith twyllodrus. Yr ydwyf wedi penderfynu i beidio twyllo fy hun yn hwy, ond ceisio gwybod mewn gwirionedd a ydwyf wedi edifarhau, ac wedi cael gwir droedigaeth; fel os ydwyf, y byddo i mi lawenychu, a chlodfori fy Arglwydd graslawn, a myned ymlaen yn gyssurus, hyd oni dderbyniwyf y goron: ac os nad ydwyf, y byddo i mi geisio, a gweddio am y gras ag a wnel fy nghyfnewid, fel y trowyf at yr Arglwydd yn ddioed; canys os bydd i mi fel hyn gael gwybod mewn pryd, fy mod allan o'r iawn ffordd, y gallwyf (trwy gymhorth Crist) droi, a chael fy adferu i ffordd y gwirionedd: ond os bydd i mi aros hyd onis byddo fy nghalon wedi cael ei gadael gan Dduw, a'i rhoddi i ddallineb a chalon-galedwch, neu hyd onis byddwyf wedi cael fy nghymmeryd ymaith gan angeu; a phan (o herwydd hynny) y bydd hi yn rhy ddiweddar. Ac ni fydd dim lle i edifeirwch a throedigaeth y pryd hynny; canys *yn awr y mae'r amser cymmeradwy*, a rhaid i mi droi 'rwan, neu byth."

Fy nghyfeillion, hyn yw'r peth yr ydwyf yn ei

ofyn gennych, sef ar fod i chwi holi a phrofi eich calonnau, ac felly eu chwilio, hyd onis byddo i chwi gael gwybod, a ydych chwi wedi cael troedigaeth a gwir edifeirwch, ai nid ydych? Y mae hyn yn dinystrio miloedd, sef tybied eu bod ar ffordd iachawdwriaeth, a hwythau heb fod; a'u bod wedi cael troedigaeth, pan nad oes y fath beth yn bod. Ac felly, pan fydd gweinidogion yr efengyl yn galw arnynt beunydd i droi a dychwelyd, y maent yn tybied nad yw hyn yn perthyn iddynt hwy; gan eu bod yn barnu eu bod hwy wedi troi eisoes, ac yn gobeithio y gwnant yn burion yn y ffordd y maent yn myned, pan, ar yr un pryd, y maent (fel ag y mae gwaetha'r modd!) yn byw i'r byd a'r cnawd, ac yn ddieithriaid i Dduw a bywyd tragywyddol. A hyn oll sydd yn digwydd o herwydd nas gallwn eu perswadio i dreulio ychydig oriau yn chwilio eu cyflyrau. Onid oes llawer o drueiniaid hunain-dwyllwyr y rhai ydynt yn fy nghlywed heddyw, y rhai ni roisant un awr yn eu holl fywyd i holi eu calonnau, fel y caent wybod a oeddent wedi cael gwir droedigaeth, ai nid oeddent? O Dduw trugarog, pwy a ofala am y cyfryw drueiniaid, pan nad ydynt yn gofalu mwy am danynt eu hunain? Pe gwybyddai pawb ag sydd mewn cyflwr o

ddamnedigaeth eu bod hwy felly, ni ryfygent aros ynddo yn hwy. Y gobaith mwyaf ag sydd gan y diafol i'ch dwyn chwi i ddamnedigaeth anaele, ydyw eich cadw dan fwgwd, a pheri i chwi gredu y gellwch wneuthur yn burion yn y ffordd yr ydych ynddi. Cynys pe gwybyddech yn sicr y byddech yn golledig dros byth, pe byddech farw fel ag yr ydych, a feiddiech chwi gysgu un noswaith yn chwaneg yn y cyflwr yr ydych ynddo? A allech chwi fyw ynddo ùn diwrnod yn hwy? A fedrech chwi chwerthin, neu fod yn llawen yn y fath gyflwr truenus? Pa beth! ac heb wybod nad allech gael eich cippio ymaith i uffern, o fewn yspaid un awr! Hyn yn ddiau a'ch cymhellai i ymadael â'ch cyfeillion gynt, a'ch arferion drygionus, a'ch cymmeryd eich hunain at ffyrdd sancteiddrwydd. Yn ddiau hyn a'ch cymhellai i waeddi ar Dduw am galon lân, a gofyn cymhorth gan y rhai hynny a fedrent eich cynghori. Nid oes yr un o honoch yn sicr nad oes arno ofn damnedigaeth. Wele, gan hynny, erfyniaf arnoch i ymholi â'ch calonnau, ac na roddoch orphwysdra iddynt, hyd onis caffoch allan eich cyflwr; fel os da a fydd, y byddo i chwi orfoledd, ac felly myned ymlaen; neu os drwg a fydd, y byddo i chwi yn ddioed edrych o'ch amgylch am gyfnewidiad, megis rhai ag sydd yn credu, y bydd

raid iddynt naill neu *droi neu farw*. Pa beth a ddywedwch! a ydych chwi yn penderfynu ac yn addaw cymmeryd cymmaint a hynny o boen a thrafferth ynghylch eich eneidiau eich hunain? A wnewch chwi ddechreu yr hunan-holiad yma mor gynted ag yr ewch chwi adref? A ydyw fy nymuniad yn afresymmol? Eich cydwybodau a wyddant nad ydyw; penderfynwch, gan hynny, i wneuthur hyn cyn i chwi ymadael o'r lle hwn: myfi a wn o ba gymmaint pwys yw hyn i'ch eneidiau. Yr ydwyf yn erfyn arnoch er mwyn y Duw hwnnw ag sydd yn gorchymmyn i chwi, ac o flaen brawdle yr hwn y bydd raid i chwi oll ymddangos ar fyr dro, na fyddo i chwi ommedd i mi y cyfryw ofyniad rhesymmol. Er mwyn yr eneidiau hynny sydd raid iddynt droi neu farw, na wrthodwch fy nymuniad. Bydded i chwi gymmeryd hyn yn waith pennaf, sef i adnabod eich cyflyrau, ac i adeiladu ar sail sicr, a gwybod mewn gwirionedd a ydych chwi wedi cael effeithiol droedigaeth ai nid ydych; ac na fydded i chwi anturio eich eneidiau ar ryw ansicrwydd amheuol.

Ond ysgatfydd y dywedwch, Pa beth a wnawn os gwybyddwn ein bod ni etto heb gael cyfnewidiad? A'r gofyniad hyn sydd yn fy nhywys at yr ail Athrawiaeth.

## ATHRAWIAETH II.

Addewid Duw ydyw, y bydd i'r annuwiolion a droant gael byw.

Y MAE'r Arglwydd yn hyspysu i ni yn bendant, nad yw efe yn ymhoffi yn marwolaeth yr annuwiol, ond yn hytrach troi o hono a byw. *Troi a byw*, sydd wirionedd mor sicr a *throi neu farw*. Bechaduriaid! nid oes neb o honoch a gaiff achos i fyned adref, a dywedyd fy mod yn pregethu gwan-obaith. A fyddwn ni yn arferol o gau drws trugaredd yn eich erbyn? Oh, na fyddai i chwi beidio ei gau yn eich erbyn eich hunain! A fyddwn ni yn arferol o ddywedyd wrthych, na thrugarha'r Arglwydd wrthych, er i chwi droi? Pa bryd y clywsoch un pregethwr yn dywedyd y fath beth? Chwi ag sydd yn rhoddi drwg-air* i bregethwyr yr efengyl, am geisio eich cadw allan o uffern, ac yn dywedyd eu bod yn pregethu gwan-obaith, dywedwch i mi, pa bryd y clywsoch un dyn syml, sobr, yn dywedyd nad oes i chwi ddim gobaith, er i chwi edifarhau, a dychwelyd? Nagê, ond y peth sydd yn llwyr wrthwyneb i hyn, yr ydym beunydd yn ei gyhoeddi i chwi oddiwrth yr Arglwydd,

* Yn cyfarth ar, &c. *Saesneg.*

sef, pwy bynnag a *enir drachefn*, mai cadwedig a fydd: a chyn belled yr ydym ni oddiwrth eich perswadio i wan-obeithio am hyn, fel ag yr ydym yn eich cynghori i beidio cynnwys dim amheuaeth ynghylch hynny. Canys bywyd, ac nid angeu, yw'r rhan gyntaf o'n cennadwri ni attoch; yr ydym wedi ein hawdurdodi i gynnyg i chwi iachawdwriaeth—iachawdwriaeth ogoneddus a thragywyddol, a hynny yn ddioedi, i bob un o honoch! i'r cardottyn tlottaf yn gystal ag i'r arglwyddi mwyaf; ïe, i'r gwaethaf a'r dihiraf o honoch; ïe, hyd y nod i'r meddwon,* i'r tyngwyr a'r rhegwyr, i'r lladron, (i adferu, a chyfnewid, ac achub y rhai hyn oll,) ïe, i'r rhai ag sydd yn diystyru, ac yn dywedyd yn ddrwg am ffordd sanctaidd iachawdwriaeth. Yr ydym wedi cael gorchymmyn gan ein Meistr a'n Harglwydd, i gynnyg maddeuant am yr hyn oll a aeth heibio, os bydd i chwi yr awrhon bellach ddychwelyd oddiwrth eich ffyrdd drygionus a byw; yr ydym wedi cael gorchymmyn i ddeisyfu ac i erfynu arnoch er mwyn Crist, i dderbyn y cynnyg; *Cymmoder chwi â Duw;* y mae rhwymau arnom, ac y mae yn orchymynedig i ni ddywedyd wrthych, pa fath barottoad a

* Y mae yn eglur mai'r meddwon, tyngwyr, &c. hynny a feddylir, ag sydd yn wir edifeiriol am eu pechodau.

wnaethpwyd ar eich medr gan Grist, pa mor fawr ac annhraethol yw'r drugaredd ag sydd yn eich aros, pa fath amynedd sydd yn disgwyl wrthych, pa fath feddyliau o ddaioni ac ewyllys-da sydd gan Dduw tuag attoch, a pha mor happus, pa mor sicr ac anamgyffredadwy happus y gellwch fod os mynnwch. Mewn gwirionedd y mae gennym ni hefyd gennadwri o ddigofaint ac angeu; ïe, o ddau fath o ddigofaint ac angeu; ond nid un o'r rhai hyn yw ein cennadwri bennaf; y mae yn rhaid i ni ddywedyd wrthych am y digofaint ag sydd arnoch yn awr, a'r farwolaeth dan yr hwn y cawsoch eich geni; ond nid yw hyn ond i'r diben o ddangos i chwi gymmaint o eisiau trugaredd sydd arnoch. Canys pwy a ymgais am feddyginiaeth, ac yntau heb wybod ei fod yn sâl? Nid ein bod ni yn hyspysu i chwi eich trueni, sydd yn eich gwneuthur yn druenus; ond yr hyn sydd yn eich gyrru i geisio trugaredd. Chwychwi a ddygasoch y farwolaeth hon arnoch eich hunain. Yr ydym ni hefyd yn dywedyd wrthych am farwolaeth arall, a phoenau lawer mwy ofnadwy, y rhai a syrthiant ar y rhai hynny na fynnant droi a dychwelyd. Ac megis ag y mae hyn yn wir, felly hefyd hon yw'r rhan ddiweddaf, a mwyaf galarus, o'n cennadwri. Yr ydym yn gyntaf i gynnyg i chwi drugaredd,

os trowch; ac yn erbyn y rhai hynny yn unig y mae yn rhaid i ni gyhoeddi damnedigaeth, sef y rhai ni throant ac ni wrandawant ar lais trugaredd. Ond os bwriwch ymaith eich camweddau, a dyfod wrth alwad Crist, a throi a dychwelyd, nid oes gennym un gair o ddigofaint damniol, nac angeu, i lefaru yn eich erbyn. Ac yr ydwyf fi yma, yn enw Arglwydd y bywyd, yn cyhoeddi i chwi oll, i'r gwaethaf, ac i'r pechadur hynaf a mwyaf o honoch, y gallwch chwi oll gael trugaredd ac iachawdwriaeth, os trowch a dychwelyd at yr Arglwydd. Y mae trugaredd gyd a Duw; y mae digonolrwydd yn y iawn a dalodd Crist Iesu; y mae'r addewid yn rhad, yn gyflawn, ac yn gyffredinol; chwi a ellwch, gan hynny, gael bywyd, os bydd i chwi ond yn unig droi at yr Arglwydd. Ond bydded i chwi hefyd gofio, megis ag yr ydych yn caru eich eneidiau, pa fath droi yw hwnnw y mae'r ysgrythur yn ei grybwyll: nid trwsio, neu adgyweirio'r hen adeilad, ond tynnu i lawr y cwbl oll, ac adeiladu un newydd, a hwnnw ar Grist, yr hwn yw Craig yr oesoedd, a'r sylfaen safadwy.

Yr ydych chwi eich hunain yn awr yn dystion, mai iachawdwriaeth, ac nid damnedigaeth, yw'r athrawiaeth bwysfawr yr ydwyf yn ei phregethu i chwi; a hyn yw y rhan gyntaf o'm cennadwri at-

toch. Derbyniwch hon, ac nid awn ymhellach; canys nid ewyllysiwn eich dychrynu â damnedigaeth heb ryw angenrheidrwydd.

Ond os nad ydych yn ewyllysio bod yn gadwedig, nid oes meddyginiaeth, ac fe fydd yn rhaid i ddamnedigaeth gymmeryd lle: canys nid oes lle canol rhwng y ddau; bydd raid i chwi ddewis naill neu bywyd neu angeu.

Ac yr ydym nid yn unig i gynnyg i chwi fywyd, ond hefyd dangos i chwi'r sail ar yr hon yr ydym yn gwneuthur hynny; ac yn galw arnoch i gredu fod Duw yn bwriadu mewn gwirionedd yr hyn y mae efe yn ei lefaru; a bod yr addewid yn wir, ac yn cyrhaedd (dan ammodau) i *chwi*, yn gystal ag eraill.

Os gofynnwch pa le y mae ein hawdurdod i wneuthur y cyfryw gynnyg? ymysg cannoedd o rai eraill, dangosaf hynny yn yr ychydig adnodau canlynol.

Yn gyntaf, chwi a welwch hynny yma yn fy nhestun, a'r adnodau canlynol, ac yn y 18fed bennod o'r prophwyd Ezeciel, mor eglur ag y gellir llefaru. Ac yn y 5ed bennod o Ail Epistol St. Paul at y Corinthiaid, a'r 17, 18, 19, 20, 21 adnodau, chwi a gewch swm a sylwedd ein cennadwri a'n hawdurdod: "Gan hynny, od oes neb yn

Nghrist, y mae efe yn greadur newydd: yr hen bethau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd. A phob peth sydd o Dduw, yr hwn a'n cymmododd ni ag ef ei hun trwy Iesu Grist, ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod; sef, bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau; ac wedi gosod ynom ni air y cymmod. Am hynny yr ydym ni yn genhadau dros Grist, megis pe byddai Duw yn deisyf arnoch trwom ni; yr ydym yn erfyn dros Grist, cymmoder chwi â Duw: canys yr hwn nid adnabu bechod a wnaeth efe yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef."

Chwi a welwch ein bod wedi cael gorchymmyn i gynnyg i chwi fywyd, ac i ddywedyd wrthych oddiwrth Dduw, *os trowch, y byddwch byw.*

Yma y gellwch yn ddiogel ymddiried eich eneidiau; canys cariad Duw yw gwraidd a ffynnon y cynnyg hwn, (Ioan, 3 : 16,) a gwaed Mab Duw a'i pwrcasodd ef; ac y mae ffyddlondeb a gwirionedd Duw yn rhwym i gyflawni'r addewid; rhyfeddodau a seliasant y gwirionedd o hono; a phregethwyr a anfonwyd trwy'r byd i'w gyhoeddi; a sacramentau a drefnwyd er trosglwyddo mewn modd pwysfawr y trugaredd hwnnw a gynnygir

i'r rhai a ewyllysiant ei dderbyn; a'r Yspryd sydd yn agor y galon i'w roesawu; ac y mae hefyd ar yr un pryd yn ernes o'r meddiant cyflawn. Felly y mae'r gwirionedd o hono yn ddiddadl, y gall y gwaethaf o honoch, ac hefyd bob un o honoch, os bydd i chwi droi, fod yn gadwedig.

Yn ddiau, os ydych yn credu y gallwch fod yn gadwedig heb droedigaeth, yna yr ydych yn credu anwiredd; a phe pregethwn felly i chwi, myfi a bregethwn anwiredd: ac nid credu i Dduw a fyddai hyn, ond coelio'r diafol, a'ch calonnau twyllodrus eich hunain. Y mae gan Dduw addewid o fywyd, ac y mae hefyd gan y diafol addewid o ryw fath o fywyd. Addewid Duw ydyw, *Dychwelwch, a byddwch fyw;* ac addewid gau'r diafol ydyw, byw a fyddwch, pa un a wneloch ai troi ai peidio. Ond geiriau Duw ydynt, fel y dangosais i chwi, "Oddi eithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd." Mat. 18 : 3. "Yn wir meddaf i chwi, Oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw. Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd." Ioan, 3 : 3, 5. Heb. 12 : 14. Ar y llaw arall, gair y diafol sydd fel hyn, "Chwi a ellwch fod yn gadwedig heb eich troi, ac heb gael eich geni oddi uchod; chwi a

fedrwch wneuthur yn burion heb gael eich sancteiddio: nid yw Duw ond eich dychrynu chwi, y mae efe yn fwy trugarog nag y dichon wneuthur fel y mae efe yn llefaru; efe a fydd yn well wrthych nâ'i air." Ac, ysywaeth! y mae'r rhan fwyaf o'r byd yn coelio gair y diafol, o flaen gair Duw; yr un fath a phan ddaeth ein pechod a'n trueni cyntaf i'r byd. Duw a ddywedodd wrth ein rhieni gynt, *Os chwi a fwyttewch, meirw fyddwch.* A'r diafol a'i gwrthddywedodd, *Ni fyddwch feirw ddim:* a'r wraig a'i coeliodd o flaen Duw. Felly hefyd yr awrhon, y mae'r Arglwydd yn dywedyd, Dychwelwch, neu ynte meirw fyddwch: a'r diafol sydd yn dywedyd, Ni fyddwch feirw ddim, os gelwch ar Dduw am drugaredd yn y diwedd. A dyma'r gair y mae'r byd yn ei gredu. Oh ddrygioni ofnadwy, sef credu'r diafol, yn hytrach nâ Duw!

Ac etto, nid hynny yw'r peth gwaethaf; y maent mewn modd cableddus yn galw hyn *yn gredu i Dduw, ac yn ymddiried i Dduw,* pan y maent ar yr un pryd yn ei osod allan *fel,* neu yn *lle* Satan, yr hwn oedd yn *gelwyddog o'r dechreuad;* a phan y maent yn coelio fod gair Duw yn gelwydd, y maent yn galw hyn yn ymddiried i Dduw, ac yn dywedyd eu bod hwy yn credu ynddo, ac yn ym-

ddiried iddo am iachawdwriaeth. Ymha le y dywedodd Duw erioed y byddai i'r *annychweledig* fod *yn gadwedig?* Dangoswch i mi'r cyfryw air yn yr ysgrythur lân; nis beiddiwch gynnyg dangos y fath beth. Canys gair y diafol ydyw hwn, a chredu hwn a fyddai coelio'r diafol. Ac a ellwch chwi alw hyn yn gredu Duw, ac yn ymddiried i Dduw? Y mae digonedd yn ngair Duw i gyssuro ac i gadarnhau calonnau'r rhai a sancteiddiwyd: ond nid oes yno un gair i gadarnhau dwylaw anwiredd, neu i roddi'r gobaith lleiaf i ddynion y byddant gadwedig heb fyth gael eu sancteiddio.

Ond os trowch a dyfod i ffordd trugaredd, yna y bydd trugaredd yr Arglwydd yn barod i'ch groesawu. Gan hynny, ymddiriedwch i Dduw am iachawdwriaeth yn hyf ac yn hyderus; canys y mae efe wedi rhwymo ei hun yn ei air i'ch achub. Ni fydd efe yn Dad i neb ond i'w blant, ac nis gwared efe neb ond y rhai sydd yn ymwadu â'r byd, y cnawd, a'r diafol, ac felly yn dyfod i'w deulu, ac i fod yn aelodau o'i Fab, ac i gymmun (cymdeithas) ei saint. Ond os na fynnant ddyfod i mewn, eu bai eu hunain ydyw; canys y mae ei ddrysau yn agored. Nid yw efe yn cadw neb yn ol; y mae efe etto yn barod i'ch derbyn, pe byddai chwi yn

barod yn ddifrifol, ac â'ch holl galon, i *droi.* A chyflawnder y gwirionedd hyn a ymddengys etto ymhellach, yn y ddwy athrawiaeth ganlynol.

---

## ATHRAWIAETH III.

Duw sydd yn cymmeryd hyfrydwch yn nhroedigaeth, ac iachawdwriaeth pechaduriaid; ond nid yn eu marwolaeth, na'u damnedigaeth: dewisach fyddai ganddo iddynt droi a byw, na myned ymlaen a marw.

I'r diben o brofi'r pwngc hwn, ni fydd yn angenrheidiol i mi fod yn faith, canys meddyliwyf eich bod yn ei gredu yn barod.

1. Y mae natur rasol Duw wedi cyhoeddi, ac wedi eich sicrhau yn fynych, nad yw efe yn ymhoffi yn eich marwolaeth.

2. Pe buasai Duw yn ymhyfrydu mwy yn dy farwolaeth, nag yn dy droedigaeth a'th fywyd, ni fuasai efe yn gorchymmyn i ti, mor aml, yn ei air i *droi;* ni fuasai efe yn gwneuthur i ti y fath addewidion o fywyd, os byddai i ti droi; ni fuasai efe yn dy annog di i hynny trwy gynnifer o resymmau: y mae holl drefn yr efengyl yn profi'r pwngc hyn.

3. Y mae'r gennadwri, yr hon a awdurdododd efe i weinidogion yr efengyl ei thraddodi, yn cwbl brofi hyn. Pe buasai Duw yn cymmeryd mwy o hyfrydwch yn dy ddamnedigaeth, nag yn dy droedigaeth, a'th iachawdwriaeth, ni fuasai efe byth yn gorchymmyn i ni gynnyg i ti drugaredd, ac i ddysgu i ti ffordd y bywyd, yn gystal yn gyhoeddus ag yn gyfrinachol; ac i ddeisyfu, ac i erfynu arnoch *droi*, a byw; i'ch gwneuthur yn hyspys o'ch pechodau, ac i'ch rhybuddio o'ch perygl; ac i wneuthur hynny a allom er eich troedigaeth, ac i barhau yn amyneddgar i wneuthur felly, er i chwi ein casâu a'n enllibio, am ein hymdrech a'n llafur. A fuasai Duw yn gwneuthur hyn oll, pe buasai yn cymmeryd hyfrydwch yn eich marwolaeth?

4. Hyn a brofir hefyd trwy drefn ei ragluniaeth. Pe buasai Duw yn ewyllysio eich damnio, yn hytrach nag eich achub, ni fuasai efe yn cefnogi ei air gyd a'i weithredoedd, a'ch denu chwi â'i ewyllysgarwch beunyddiol, ac yn rhoddi i chwi holl drugareddau'r bywyd hwn, y rhai ydynt ddybenion a moddion "i'ch tywys i edifeirwch," (Rhuf. 2 : 1;) ac ni fuasai chwaith yn eich dwyn mor aml dan y wialen, er gwneuthur i chwi ddeall, ac ystyried; ni fuasai yn gosod cynnifer o siamplau o flaen eich llygaid, na chwaith yn disgwyl wrthych mor

amyneddgar, fel ag y mae o ddydd i ddydd, ac o flwyddyn i flwyddyn. Nid yw'r rhai hyn arwyddion ei fod yn cymmeryd pleser yn eich marwolaeth. Pe hynny a fuasai ei hyfrydwch, pa mor hawdd y buasai iddo dy gael er ystalm i uffern! Pa mor aml y gallasai efe cyn hyn dy gippio ymaith ynghanol dy bechodau, gyd a llw, neu regfeydd, neu gelwydd ar dy dafod! Pan fuost ddiweddaf yn dy feddwdod, neu yn cablu ffyrdd Duw, pa mor hawdd y gallasai gymmeryd ymaith dy anadl, a'th wneuthur yn sobr mewn byd arall! Och, pa cyn lleied gwaith a fyddai i'r Hollalluog i reoli tafod y difenwr mwyaf halogedig, a rhwymo dwylaw yr erlidiwr mwyaf llidiog, neu ddofi cynddaredd y gelynion mwyaf chwerwon, a gwneuthur iddynt wybod nad ydynt ond pryfed! Pe byddai iddo ond gwgu arnat, tydi a syrthit i'r bedd! Pe gorchymmynai i un o'i angelion ddinystrio deng mil o bechaduriaid, pa mor fuan y byddai i hynny gael ei gyflawni! Pa mor hawdd a fyddai iddo dy roddi i orwedd ar wely cystudd a nychdod, a gwneuthur i ti ruo yno gan boen a gofid, a bwytta drachefn dy eiriau o sarhad a diystyrwch, y rhai a lefaraist yn erbyn gweision Duw, a'i air, a'i addoliad, a'i ffyrdd sancteiddiol! Pa mor hawdd a fyddai iddo

dy osod dan y fath glefyd trwm, a gwneuthur dy gnawd yn fwy ffiaidd, atgas, a drewedig nâ'r tommenydd, neu dail y ddaear! Y cnawd hwnnw, ag sydd raid iddo yr awrhon gael yr hyn y mae yn ei garu, ac ni fynnit mewn un modd ei anfoddio, hyd y nod er digio Duw! ac y mae'n rhaid i ti ryngu ei fodd mewn bwyd a diod, a dillad, er cymmaint y mae Duw yn ei ddywedyd yn erbyn hynny; pa mor fuan y byddai i ddigofaint Duw ei ddifa! Pan yr oeddit mewn modd ffromwyllt yn ymddiffyn dy bechod, ac yn ymddadleu â'r rhai a fynnent dy dynnu oddi wrtho, ac yn cyfiawnhau gweithredoedd y tywyllwch; pa mor hawdd y gallasai Duw dy gymmeryd di ymaith mewn moment, a'th osod ger bron ei Fawrhydi ofnadwy, (lle y cawsit weled myrdd myrddiwn o angelion gogoneddus yn sefyll o flaen ei orsedd,) a gofyn i ti, Pa beth sydd gennyt yn awr i'w ddywedyd yn erbyn dy Greawdwr, yn erbyn ei wirionedd, ei weision, a'i ffyrdd sancteiddiol? Yn awr dadleu dy achos, a gwna'r goreu o hono a fedri. Yn awr, pa beth a elli di ei ddywedyd yn esgus am dy bechodau? Yn awr, dyro hanes o'th amser, ac o'r holl drugareddau a gefaist. Oh, ymha fath fodd y buasai dy galon ystyfnig yn toddi, a'th wynebpryd yn cythruddo, a'th eiriau

cadarn yn troi yn ddistawrwydd aflafar, neu yn oernadau dychrynllyd, pe buasai Duw ond dy osod fel hyn o flaen ei frawdle, ac yn dadleu ei achos gyd a thi! Pa mor hawdd y gallai efe ddywedyd (yr amser y mynnai) wrth dy enaid euog, Tyred ymaith, ac na fydded i ti fyw yn y cnawd yn chwaneg, hyd ddydd yr adgyfodiad!—ac ni fuasai modd i ti wrthsefyll yn ei erbyn. Gair o'i enau a gymmerai ymaith gynhaliaeth dy fywyd, ac yna holl rannau dy gorph, a holl alluoedd dy enaid, a ymollyngent. A phe dywedai efe wrthyt, Na fydded i ti fyw yn hwy,—neu, Bydd fyw yn uffern,—nis gellit anufuddhau.

Ond ni wnaeth Duw yr un o'r pethau hyn, ond y mae efe yn amyneddgar wedi cyd-ddwyn â thi, ac yn drugarog wedi dy gynnal; ac efe a roddodd i ti yr anadl hwnnw a anadlaist allan yn ei erbyn; ac efe a roddodd i ti y trugareddau hynny, y rhai a offrymmaist i'th gnawd; ac efe a gyfrannodd i ti y lluniaeth hwnnw a dreuliaist i foddio dy drachwant gwangcus: ac efe a roddodd i ti bob munud o'r amser hwnnw a wariaist yn ofer mewn seguryd a meddwdod. Ac onid ydyw'r holl amynedd a'r trugaredd hyn yn dangos nad yw efe yn ewyllysio dy ddamnedigaeth? A ddichon y ganwyll losgi heb wêr, neu lamp heb olew? A ddich-

on eich tai sefyll, heb i'r ddaear eu cynnal?—Felly nis gellwch chwithau fyw un awr, heb gymhorth Duw. A phaham y cynhaliodd efe dy fywyd mor hir, ond i'r diben i'th ddwyn i ystyried ynfydrwydd dy ffyrdd, a *throi*, a byw? A wnai un dyn yn fwriadol roddi arfau yn nwylaw ei elynion i'w wrthwynebu? neu ddal canwyll i ryw ddihenyddwr a fyddai'n lladd ei blant? Yn ddiau, Duw a arosodd wrthyt mor hir, i gael gweled a fyddai i ti o'r diwedd ddychwelyd a byw.

5. Gellir profi ymhellach, oddiwrth ddioddefaint ei Fab, nad yw Duw yn cymmeryd pleser, neu yn ymhoffi ym marwolaeth yr annuwiol. A fuasai efe yn eu pwrcasu rhag marwolaeth am bris mor uchèl a gwerthfawr? A fuasai efe yn gwneuthur i angelion a dynion synnu, a rhyfeddu, wrth weled ei ostyngeiddrwydd? A fuasai Duw yn preswylio mewn cnawd, ac yn dyfod i'r byd mewn agwedd gwas, ac yn byw bywyd o ddioddefaint, ac yn marw marwolaeth melldigedig dros bechaduriaid, pe buasai efe yn ymhoffi eu marwolaeth? Ystyriwch pe buasech yn ei weled yn gweddio yn yr ardd, a'r defnynau gwaed yn syrthio i lawr oddi wrtho yn lle chwys, neu yn dioddef marwolaeth felldigedig ar y groes, ac yn tywallt ei enaid allan yn aberth dros ein pechodau; a fu-

asech chwi yn tybied y pethau hyn oll yn arwyddion ei fod yn ymhoffi ym marwolaeth yr annuwiol? Pe buasech yn ei weled, ac yn ei glywed, yn wylo, ac yn cwyno, o herwydd cyflwr truenus ac ymddygiad cyndyn ac anufudd pobl diedifeiriol, neu yn galaru o herwydd eu gwrthnysigrwydd a'u hanghrediniaeth, megis yn Math. 23 : 37. "Jerusalem, Jerusalem, yr hon wyt yn lladd y prophwydi, ac yn llabuddio y rhai a ddanfonir attat, pa sawl gwaith y mynnaswn gasglu dy blant ynghyd, megis y casgl iâr ei chywion dan ei hadenydd, ac nis mynnech!" Neu pe buasech yn ei weled ac yn ei glywed ar y groes, yn gweddio dros ei erlidwyr, "O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur;" a fuasech chwi yn dirnad ei fod yn ymhoffi ym marwolaeth yr annuwiol; ïe, hyd y nod y rhai hynny ag sydd yn marw trwy eu hanhydyn anghrediniaeth? Pan y mae Duw wedi caru'r byd, (ac nid yn unig *caru*, ond wedi caru *felly*, yn y cyfryw fodd rhyfeddol,) "fel ag y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol; (Ioan, 3 : 16;) y mae efe wedi eglur-ddangos i ni, yn erbyn llid a malais dynion a chythreuliaid, nad oes ganddo hyfrydwch

ym marwolaeth yr annuwiol, ond yn hytrach *droi* o honynt a *byw*.

6. Yn ddiweddaf, Os nad ydyw hyn oll yn ddigon i'ch boddloni, cymmerwch ei air ei hun; canys efe a ŵyr ei feddwl ei hun yn oreu; neu, o'r hyn lleiaf, credwch ei lw: ond hyn sydd yn fy nhywys at y pedwerydd dosparth.

---

## ATHRAWIAETH IV.

Y mae yr Arglwydd wedi cadarnhau trwy lw, nad yw efe yn ymhoffi ym marwolaeth yr annuwiol, ond yn hytrach troi o hono a byw; ac felly ni adawodd efe un esgus i ddyn ammeu'r gwirionedd o hynny.

Os rhyfygwch ammeu ei air, yn sicr ni anturiwch i ammeu ei lw. Megis ag y mae Crist wedi tystiolaethu, yn y modd mwyaf cadarn, na chaiff y rhai annychweledig fyned i mewn i deyrnas nefoedd; felly Duw sydd wedi tyngu trwy lw, nad yw efe yn ymhoffi yn eu marwolaeth, ond yn eu troedigaeth a'u bywyd. Ac megis ag y mae'r apostol yn dywedyd, "O blegid na allai dyngu i neb oedd fwy, Duw a dyngodd iddo ei hun. Canys dynion, yn wir, sydd yn tyngu i un a fo

mwy; a llw er sicrwydd, sydd derfyn iddynt ar bob ymryson. Yn yr hyn Duw, yn ewyllysio yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lw; fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn ammhossibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cyssur cryf, y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen; yr hwn sydd gennym megis angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr." Heb. 6 : 13, 16, 17, 18. Os oes rhyw ddyn o'r meddwl, na ddichon y gwirionedd hyn gyd-sefyll â damnedigaeth yr annuwiol, yn ddiau mae ei anwybodaeth yw'r achos; ac nid oes un lliw na sail wedi eu gadael, fel y dichon wadu gwirionedd y pwngc sydd gennym mewn llaw; canys y mae hyn wedi ei gadarnhau gyd a llw Duw, ac o herwydd hynny nid oes le i'w wyro a'i ddirdynnu i gydffurfio â phyngciau eraill; ond yn hytrach rhaid dwyn pyngciau ymrafaelgar eraill i gyd-gyssoni â hwn, ac felly rhaid i ni gredu y dichon gwirioneddau sicr a diamheuol eraill gyd-sefyll â hwn, er na fedr ein dealldwriaeth gwan ni ddim amgyffred yn iawn ymha fodd.

## Y DEFNYDDIAD.

Yr ydwyf yn awr yn erfyn arnat, (os pechadur annychweledig ydwyt, ac yn clywed y geiriau hyn,) ar i ti gymmeryd ychydig amser i ystyried ynot dy hun, pwy yw'r hwn ag sydd yn ymhoffi yn dy bechod ac yn dy ddamnedigaeth. Yn ddiau, nid Duw ydyw; canys y mae efe, o'i ran ei hun, wedi tyngu, nad yw efe yn ymhoffi yn dy ddinystr. Ac myfi a wn nad ceisio rhyngu bodd iddo ef y byddwch wrth hynny. Ni feiddiwch ddywedyd eich bod yn meddwi, ac yn tyngu, ac yn esgeuluso dyledswyddau sanctaidd, ac yn diffoddi cynhyrfiadau'r Yspryd, i'r dyben o ryngu bodd Duw. Canys yr un fath a fyddai hynny a phe byddai i chwi enllibio'r brenhin, a thorri ei gyfreithiau, a cheisio ei farwolaeth, a dywedyd eich bod yn gwneuthur hyn oll gan dybied ei foddhau.

Pwy gan hynny sydd yn ymhyfrydu yn eich pechod a'ch marwolaeth? Nid neb ag sydd yn dwyn delw Duw, canys rhaid fod y cyfryw o'r un anian a'r un feddylfryd ag ef ei hun. Duw a ŵyr, mai bychan iawn yw'r pleser i'ch dysgawdwyr eich gweled yn rhedeg o'ch gwir-fodd i fflammiau

uffern. Och! rhagweled eich trueni tragywyddol, ac heb wybod ymha fodd ei droi ymaith, ydyw gweled mor agos yr ydych i uffern, ac nis gallwn eich dwyn i weled nac ystyried hynny: a gweled hefyd mor hawdd ac mor sicr y gallech ddiangc, pe gwybyddem ymha fodd i'ch gwneuthur yn ewyllysgar i hynny! Pa mor dêg y byddech tuag at gael iachawdwriaeth dragywyddol, pe byddai i chwi ond yn unig troi a gwneuthur eich goreu, fel ag y byddai hynny yn ofal pennaf, ac yn *fusnes* mwyaf eich bywyd! Ond ni fynnwch wneuthur hyn! A ydych chwi yn tybied fod hyn yn waith difyr i ni?

Yn nesaf, nid un o'ch cyfeillion duwiol sydd yn ymhoffi yn eich dinystr. Och! gofid a galar mawr i'w calonnau hwy yw gweled eich trueni; ac y maent yn cwyno drosoch lawer tro, pan na fydd-wch chwi yn rhoddi fawr ddiolch iddynt, a phan na fydd gennych galonnau i ofidio drosoch eich hunain.

Pwy gan hynny sydd yn ymhoffi yn eich pechod? Nid neb arall ond y tri gelyn mawr hynny i Dduw, y rhai y cymmerasoch arnoch ymwadu â hwynt yn eich bedydd.

1. Y mae'r diafol yn cymmeryd hyfrydwch, neu yn ymhoffi yn eich pechod a'ch marwolaeth;

canys hyn yw dyben ei holl demtasiynau. Ac nis gellwch ei foddio yn well, nag wrth fyned ymlaen yn eich pechodau: pa mor llawen y mae efe, pan y mae yn dy weled yn myned i'r *dafarn*, ac yn dy glywed yn tyngu, yn rhegu, ac yn cablu! dyma'r pethau sy'n hyfrydwch iddo.

2. Y rhai drygionus hefyd sydd yn ymhoffi yn hyn; canys y mae yn gyttunol â'u natur.

3. Ond myfi a wn, er hyn oll, mai nid boddio'r diafol yr oeddech yn ei fwriadu; ond eich cnawd eich hunain, y gelyn gwaethaf a mwyaf peryglus. Y cnawd, neu'r anian lygredig, sydd yn ewyllysio cael ei foddloni mewn bwyd, a diod, a dillad; hwn sydd yn chwennych ei anrhydeddu mewn cwmpeini, a bod mewn parch a chymmeradwyaeth gyd a'r byd; a dyma'r llyngclyn ag sydd yn difa'r cwbl oll. Dyma'r duw yr ydych yn ei wasanaethu. Canys y mae'r ysgrythur yn dywedyd am y cyfryw, "Duw y rhai yw eu bol." Phil. 3 : 19.

Ond dymunaf arnoch, aroswch ychydig, ac ystyriwch y matter.

Y mae'r cnawd, neu'r anian lygredig, yn ymhyfrydu mewn pechod: ond a fydd eich cydwybod yn ymfoddloni? Oni fydd yn dywedyd wrthych weithiau, nad yw pob peth yn dda, ac nad yw eich cyflwr mor ddiogel ag yr ydych yn

barnu ei fod? Ac oni ddylai eich enaid a'ch cydwybod gael eu boddloni, yn hytrach nâ'r cnawd llygradwy? Ymhellach, onid yw eich cnawd hefyd yn parottoi anesmwythder iddo ei hun? Y mae yn caru'r abwyd; ond a ydyw efe yn caru'r bach hefyd? Y mae'n caru'r ddiod gadarn, a'r danteithion melus; y mae yn caru esmwythdra, a champau, a chyfarfodydd llawen; y mae yn hoffi bod yn oludog, a chael gair da gan ddynion, ac i fod yn rhyw-un yn y byd; ond a ydyw efe hefyd yn hoffi melldith Dduw? A fyddai'n ddymunol ganddo sefyll dan grynu o flaen brawdle Crist, a chael ei farnu i'r tân tragywyddol? A fyddai yn dda ganddo gael ei boeni gyd a chythreuliaid yn dragywydd? Cymmerwch, gan hynny, y ddau ynghyd; canys nid oes modd gwahanu pechod ac uffern: os mynnwch un, rhaid i chwi gymmeryd y llall hefyd. Os ydyw angeu ac uffern yn ddymunol gennych, nid rhyfedd eich bod yn myned ymlaen mewn pechod: ond os nad ydynt, er mor hyfryd a dymunol yw pechod, a ddichon iddo fod yn werth colli bywyd tragywyddol? A ydyw ychydig fwyd, neu ddiod, neu esmwythder? a ydyw gair da pechaduriaid, neu olud y byd, i'w prisio uwchlaw llawenydd y nefoedd? Neu a ydynt yn werth dioddef tân tragywyddol er eu

mwyn? Chwi a ddylech ystyried y cwestiynau hyn, cyn myned ymhellach; ïe, hwy a ddylent gael eu hystyried gan bob dyn ag sydd â dim rheswm ynddo, ac hefyd yn credu fod ganddo enaid anfarwol, naill neu i'w golli neu i'w achub.

Wele, y mae'r Arglwydd yn tyngu yma, nad yw efe yn ymhoffi yn eich marwolaeth, ond yn hytrach *troi* o honoch a byw. Ac os, er hyn oll, yr ewch ymlaen, a marw yn hytrach nâ throi; cofiwch mai nid i ryngu bodd Duw y gwnaethoch hynny, ond i *blesio*'r byd, ac i'ch boddio eich hunain. Ac os bydd i ddynion fel hyn ddamnio eu hunain, i'w *plesio* eu *hunain*, a rhuthro i drueni tragywyddol, er mwyn cael digrifwch amserol; pa feddyginiaeth sydd, ond iddynt gymmeryd yr hyn a fedrant ei gael, ac edifarhau mewn modd arall, pan fydd yn rhy ddiweddar!

# ATHRAWIAETH V.

Mor daer y mae Duw am droedigaeth pechaduriaid, fel ag y mae efe yn ail adrodd drachefn ei orchymynion a'i annogaethau gyd a phwys, a dyfalwch, a thaerni mawr,—DYCHWELWCH, DYCHWELWCH; PAHAM Y BYDDWCH FEIRW?

A OES yma unrhyw bechadur annychweledig yn clywed y geiriau taerion ac annogaethol hyn o eiddo Duw? A oes yma ddyn neu ddynes etto yn ddieithr i waith adnewyddol, sancteiddiol, yr Yspryd Glân? Gwrandewch ynte ar lais eich Gwneuthurwr, a throwch atto trwy Grist Iesu, a hynny yn ddioed. A fynnwch chwi wybod ewyllys Duw? Hyn ydyw, sef *troi o honoch a byw*. A gaiff y Duw byw anfon y fath gennadwri daer, hawddgar, a charedig, at ei greaduriaid gwrthryfelgar, a bod o honynt hwythau yn anewyllysgar i droi atto? Gwrandewch gan hynny, chwi bawb oll sydd yn byw yn ol y cnawd! y Duw hwnnw a anadlodd ynot anadl bywyd, sydd yn anfon attat genhadwr o'r nefoedd; a dyma ei gennadwri, *Trowch, a dychwelwch; canys paham y byddwch feirw? Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed.* A fydd i lais y Mawredd

tragywyddol gael ei esgeuluso? Os bydd iddo ond taranu yn ddychrynadwy, tydi a fyddi yn brawychu. Ond, Oh! y mae'r llais hwn yn perthyn yn agosach i ti. Pe y dywedai wrthyt, *Y foru y byddi farw*, yn ddiau ni chymmerit hynny yn ysgafn. Etto y mae y gair hwn yn perthyn i'th fywyd, neu dy farwolaeth dragywyddol. Y mae yn orchymmyn, ac hefyd yn annogaeth, neu gynghor. Fel pe buasai yn dywedyd wrthyt, "Yr ydwyf yn gorchymmyn i ti, ar y ffyddlondeb ag sydd yn ddyledus oddi wrthyt i dy Greawdwr a'th Waredwr, ar i ti wadu y cnawd, y byd, a'r diafol, a throi attaf, fel y byddit byw. Yr ydwyf yn ymddarostwng i ddeisyfu arnat, fel ag yr ydwyt yn caru neu yn ofni yr hwn a'th wnaeth; ac fel ag yr ydwyt yn caru dy einioes, sef bywyd tragywyddol, ar droi o honot a byw; ac megis ag yr ydwyt yn gobeithio diangc rhag trueni tragywyddol, bydded i ti ddychwelyd; dychwelwch, dychwelwch, bechaduriaid anystyriol! canys paham, chwi blant gwrthryfelgar, y byddwch feirw?" Ac a oes un dyn â'r cyfryw galon? A oes un creadur rhesymmol a ddichon wrthod y cyfryw gennadwri, y fath orchymmyn, y fath gynghor a hwn? Oh, pa fath beth cyndyn a thwyllodrus, gan hynny, yw calon dyn!

Gwrandewch ynte, chwi bawb oll ag sydd yn eich caru eich hunain, ac â dim gofal gennych am eich iachawdwriaeth; canys dyma'r gennadwri mwyaf hyfryd ag a ddaeth erioed i glustiau dyn, *Dychwelwch, dychwelwch; paham y byddwch feirw?* Nid ydych etto wedi eich cau i fynu dan anobaith! Canys dyma drugaredd yn cael ei gynnyg i chwi; dychwelwch, a chwi a'i cewch. Gyd a pha fath orfoledd y dylech dderbyn y newyddion da hyn! Myfi a wn, mai nid dyma'r tro cyntaf y clywsoch hwynt: ond ymha fodd y derbyniasoch hwynt, neu ymha fodd yr ydych yn awr yn eu derbyn? Gwrandewch, chwi bechaduriaid difraw ac anwybodus, gwrandewch air yr Arglwydd! Gwrandewch chwi feddwon, glythion, putteinwyr, godinebwyr, tyngwyr a rhegwyr, difriwyr, athrodwyr, enllibwyr, camgyhuddwyr, twyllwyr dichellgar ac anwireddog,—Dychwelwch, dychwelwch, paham y byddwch feirw?

Gwrandewch, chwi oll broffeswyr claiar, allanol, pawb ag sydd yn ddieithriaid i fywyd Crist, a'r rhai nis gwybuant erioed rym ei adgyfodiad, a'r rhai nis ymdeimlasant eu calonnau yn gwresogi o gariad tuag atto,—Dychwelwch; canys paham y byddwch feirw?

Gwrandewch, chwithau oll y rhai sydd heb

ddim cariad tuag at Dduw, y rhai nid yw eich calonnau tuag atto, a chwi sydd yn ddifeddwl am obaith gogoniant, ond yn lle hynny â'ch meddyliau wedi eu gosod yn fwy ar lwyddiant amserol, a digrifwch daearol, nag ar hyfrydwch y nefoedd; chwi oll ag sydd yn grefyddol ond yn unig fel ag y mae eich cyfleusdra yn caniattau, ac heb roddi dim i Dduw ond hynny a ddichon y cnawd ei hepgor yn hawdd; y rhai nid ydych wedi ymwadu â chwi eich hunain, ac heb fod yn ewyllysgar i ymadael â'r cwbl oll er mwyn Crist; ond y rhai ag sydd gennych ryw un peth yn y byd mor anwyl, fel nad ellwch ymadael ag ef er ei fwyn; ond gwell gennych yn hytrach ddigio Duw, nag ymadael ag ef,—Dychwelwch, dychwelwch; canys paham y byddwch feirw?

Cofiwch, os na chlywsoch, neu os na sylwasoch ar hynny erioed o'r blaen; cofiwch fy mod wedi hyspysu hynny i chwi y dydd heddyw, os bydd i chwi ond troi, y gellwch fyw; ac os na ddychwelwch, mai meirw a fyddwch.

Pa beth gan hynny a wnewch? Pa beth yw eich penderfyniad? A ddychwelwch chwi, neu ni ddychwelwch? Na fydded i chwi gloffi yn hwy rhwng dau feddwl. Os yr Arglwydd sydd Dduw, canlynwch ef: ond os y cnawd yw eich

Duw, aroswch etto yn ei wasanaeth. Os ydyw'r nefoedd yn well nâ'r ddaear, deuwch ymaith oddi yma, a cheisiwch wlad well, a *thrysorwch i chwi eich hunain drysorau, lle nad yw gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle nis cloddia lladron trwodd, ac nis lladrattant;* a cheisiwch â'ch holl egni deyrnas ddisigl: gosodwch eich bywydau ar waith ar ddyben uwch, a throwch holl ffrwd eich llafur a'ch gofal ryw ffordd arall rhagorach a gwell nag o'r blaen. Ond os yw'r ddaear yn well nâ'r nefoedd, yna mwynhewch hi, a gwnewch eich goreu o honi, a chanlynwch hi yn wastadol. A ydych chwi wedi penderfynu pa beth i'w wneuthur? Os nad ydych, myfi a osodaf ychydig ystyriaethau yn chwaneg o'ch blaen.

Ystyriwch, yn gyntaf, pa ddarpariadau y mae trugaredd wedi eu gwneuthur tuag at eich iachawdwriaeth; a pha gymmaint gresyndod ydyw fod un dyn yn cael ei ddamnio ar ol hyn oll! Y mae Duw wedi gwneuthur i ti weithred rad o anghof a maddeuant, ac wedi rhoddi i ti rad roddiad, megis o dan ei law, o Grist a bywyd, ac yn eu cynnyg i ti, ac yn deisyfu arnat eu derbyn; a hyn oll a ddichon fod yn eiddo i ti, os derbyni. Canys *yr oedd Duw yn Nghrist yn cymmodi'r byd ag ef ei hun, ac wedi rhoddi i ni air y cymmod.*

Bechaduriaid, yr ydym wedi cael gorchymmyn i draethu'r gennadwri hon i chwi oll, megis oddiwrth Dduw, "Deuwch, canys weithian y mae pob peth yn barod." Luc, 14 : 17. Ac a ydyw pob peth yn barod, a chwithau yn ammharod? Y mae Duw yn barod i faddeu i chwi yr hyn oll a wnaethoch i'w erbyn, os bydd i chwi ond dyfod atto. Er mor hir, mor fwriadol, ac mor erchyll y buoch yn pechu yn ei erbyn, y mae efe yn barod i daflu'r cwbl oll tu ol ei gefn, os bydd i chwi ond dyfod atto. Er mor afradlon y buoch, ac er i chwi ymadael oddiwrth Dduw, a'ch bod wedi aros mor hir, y mae efe yn barod i'ch cyfarfod, a'ch cofleidio yn ei freichiau, os bydd i chwi ond dychwelyd atto.Ië'r meddwon anifeilaidd a mochaidd, a gaent weled Duw yn barod i'w croesawu, pe dychwelent atto, (trwy wir a diffuant edifeirwch.) Oni fydd hyn yn troi dy galon o'th fewn? Oh bechadur, os oes gennyt galon o gig, ac nid o garreg, myfi a feddyliwn y dylai hyn ei thoddi! A gaiff Mawrhydi anfeidrol ac ofnadwy'r nefoedd ddisgwyl am dy ddychweliad, a bod yn barod i'th dderbyn, a thithau wedi ei ddiystyru a'i anghofio mor hir? A gaiff efe ymhoffi yn dy droedigaeth, yr hwn a allai, pan y mynnai, ogoneddu ei gyfiawnder yn dy ddamnedigaeth; ac er hyn oll, oni

fydd dy galon yn toddi o'th fewn, ac onid ydwyt ti etto yn barod i ddyfod i mewn? Onid oes i ti gymmaint o achos i ddyfod, ag sydd i Dduw i'th wahodd, ac i fod yn barod i'th roesawu?

Y mae Crist wedi cyflawni ei ran ar y groes, ac wedi agor i ti y cyfryw ffordd at y Tad, fel ag y mae i ti gyflawn roesaw o'i ran ef, os bydd i ti ddyfod atto: ac er hyn oll, onid ydwyt yn barod?

Y mae maddeuant wedi ei roddi, ac yn cael ei gynnyg i ti yn bendant, yn yr efengyl: ac etto onid ydwyt barod?

Y mae gweinidogion yr efengyl yn barod i roddi i ti bob cynnorthwyon i'th hyfforddi, ac i gyhoeddi heddwch i'th enaid: y maent yn barod i weddio drosot, ac i selio dy faddeuant, trwy gyfrannu i ti'r sacrament bendigedig: ac etto onid ydwyt barod?

Ië, y mae'r nefoedd ei hun yn barod i'th dderbyn: yr Arglwydd a'th dderbyn i ogoniant y saint, er cyn ffieiddied adyn a fuost, os bydd i ti ond yn unig ddyfod at Grist i gael dy olchi, a'th lanhau, a'th sancteiddio: ti a elli gael lle o flaen ei orsedd-faingc, a'i angelion a fyddant barod i drosglwyddo dy enaid i drigfannau llawenydd, os bydd i ti ond yn unig fod yn ewyllysgar o'th galon i dderbyn Crist yn ei holl swyddau i lywodraethu

arnat. Ac a ydyw Duw yn barod, aberth Crist yn barod, a maddeuant yn barod? A ydyw gweinidogion yr efengyl yn barod, a'r nefoedd ei hun yn barod, a'r angelion yn barod, a'r rhai hyn oll yn disgwyl am dy ddychweliad; ac er hynny onid ydwyt barod? Pa beth! ai nid ydwyt yn barod i *fyw*, a thithau wedi bod mor hir yn farw? A ydwyt ti heb fod etto yn barod i ddyfod i'th gyflawn synwyrau, a thithau wedi bod cyhyd allan o'th iawn bwyll? Onid ydwyt ti yn barod i gymmeryd gafael yn Nghrist, yr hwn a'th waredai pan y byddit ymron boddi, ac yn barod i suddo i ddamnedigaeth? Onid ydwyt yn barod i gael dy achub o uffern, pan yr ydwyt yn barod i gael dy fwrw iddi? Och, ddyn! oni wyddost pa beth yr ydwyt yn ei wneuthur? Os marw a fyddi heb droedigaeth, nid oes dim amheuaeth ynghylch dy ddamnedigaeth; ac nid ydwyt yn sicr y byddi byw un awr: ac onid ydwyt yn barod i droi, ac i ddyfod i mewn? Oh greadur truenus! oni wasanaethaist y cnawd a'r diafol ddigon o amser? Ac oni chefaist ti etto ddigon ar bechod? A ydyw mor dda wrthyt, neu mor fuddiol a hynny i ti? A wyddost ti yn iawn pa beth ydyw, gan dy fod yn chwennych chwaneg o hono? A gefaist ti gynnifer galwad, ac a dderbyniaist ti gynnifer o drugareddau; a

gefaist ti gynnifer o ddyrnodiau, a chynnifer o siamplau; a welaist ti gynnifer yn cael eu rhoddi yn eu beddau; ac er hyn oll onid ydwyt barod i ymadael â'th bechodau, ac i ddyfod at Grist? Pa beth! ar ol cynnifer o argyhoeddiadau a phigiadau cydwybod, ar ol cynnifer o fwriadau ac addunedau i ddiwygio, onid ydwyt ti etto yn barod i droi a byw? Oh na byddai i dy lygaid, neu yn hytrach dy galon, gael ei hagor i wybod pa fath gynnyg têg sydd yn awr yn cael ei wneuthur i ti! a pha fath gennadwri hyfryd a gawsom i'w chyhoeddi i ti, sef peri i ti ddyfod i mewn, o herwydd fod pob peth yn barod!

2. Ystyria hefyd pa fath wahoddiadau a gefaist i droi a byw: ac hefyd, pa gynnifer o honynt, pa mor uchel, pa mor daer, pa mor arswydus, ac etto pa mor hawddgar ac annogaethol y bu pob un o'r gwahoddiadau hyn!

Os gofynni pwy oedd y pen-gwahoddwr? gellir atteb, mai Duw ei hun; ïe, Pen-rheolwr mawr y nefoedd a'r ddaear, sydd yn gorchymmyn i ti droi, a hynny hefyd yn awr yn ddioedi. Y mae efe yn gorchymmyn i'r haul i redeg ei yrfa, ac i gyfodi arnat bob boreu; ac er ei fod yn greadur mor ogoneddus, etto y mae yn ufuddhau iddo, ac ni fydd yn methu un funud o'i amser gosodedig. Y

mae efe yn gorchymmyn i'r ser a'r planedau yn rhodau maith y nefoedd, a hwythau yn ufuddhau iddo: y mae efe yn gorchymmyn i'r môr i gadw llanw a thrai, a'r holl greadigaeth i gadw trefn ei gosodiad, a phob peth yn ufuddhau iddo: y mae angelion y nefoedd yn ufuddhau i'w ewyllys, pan y mae efe yn eu hanfon i weini, i'r fath bryfed gwael ag ydym ni ar y ddaear. Ac etto er iddo orchymmyn i bechadur droi, ni fyn efe ufuddhau iddo: ac efe yn unig sydd yn tybied ei hun yn ddoethach nâ Duw, ac y mae efe yn tuchan yn erbyn Duw, ac ni fyn efe ufuddhau iddo.

Ond pe buasai ynot ddim cariad tuag atto, tydi a fuasit yn adnabod ei lais, ac yn dywedyd, Galwad ydyw hwn oddiwrth fy Nhad nefol, a pha fodd y gallaf glywed ar fy nghalon i anufuddhau iddo? Neu pe buasai ynot ddim synwyr, tydi a fuasit yn dywedyd o'r hyn lleiaf, Y galwad hwn yw llais ofnadwy Duw, a phwy a anturiai anufuddhau? Nid dyn yw Duw, fel y gellit gellwair gyd ag ef, a'i watwar. Ac a ryfygu di fyned ymlaen etto, a diystyru ei air, a gwrthwynebu ei Yspryd, a chau dy glustiau yn erbyn ei alwad? A phwy a gaiff y gwaethaf o hyn oll? A wyddost ti pwy yr ydwyt yn anufuddhau iddo, ac yn ymrysson ag ef; a pha beth yr ydwyt yn ei wneuthur? Haws o lawer a

fyddai i ti, ac esmwythach gwaith, i ymrysson â'r drain, a'u sathru â'th draed noethion, a gwingo yn erbyn y symbylau, neu osod dy ben yn y tân poeth llosgadwy. *Na thwyller chwi, ni watwarir mo Duw.* Pwy bynnag arall a gymmer ei watwar, ni fyn Duw ddioddef hyn. Gwell a fyddai i chwi gellwair â'r tân yn nhô eich tai, nâ chyd a tân angerdd ei ddigofaint; "O blegid ein Duw ni sydd dân ysol." Heb. 12 : 29. Ac Och, pa mor anaddas wyt ti i gystadlu â Duw! "Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw;" Heb. 10 : 31; a chan hynny, peth ofnadwy yw ymrysson ag ef, neu ei wrthwynebu. Megis ag yr ydych yn caru eich eneidiau, edrychwch pa beth a wneloch. Pa beth a attebwch, os dechreu efe mewn digofaint i ddadleu â chwi? Pa beth a wnewch, os cymmer efe chwi unwaith mewn llaw? A fydd i chwi y pryd hynny ymrysson yn erbyn ei farnedigaethau, megis ag yr ydych yn awr yn erbyn ei ras? "Pwy a osodai fieri a drain yn fy erbyn mewn rhyfel? Myfi a awn trwyddynt, mi a'u llosgwn hwynt ynghyd. Neu ymafled yn fy nerth i, fel y gwnelo heddwch â mi; ac efe a wna heddwch â mi." Esa. 27 : 4. Ymdrech anwastad ac anghyfartal iawn, a fyddai i'r mieri a'r sofl wneuthur rhyfel â'r tân.

Chwi a welwch pwy sydd yn eich galw. Ystyriwch hefyd y moddion, a pha mor aml, a pha mor daer, y mae efe yn gwneuthur hynny.

1. Y mae gan bob dalen megis o lyfr bendigedig Duw lais, ag sydd yn gwaeddi allan, *Dychwelwch a byddwch byw: dychwelwch, neu meirw a fyddwch.* Pa fodd y gelli ei agor, a darllen dalen neu bennod o hono, heb weled fod Duw yn gorchymmyn i ti *droi?*

2. Y mae llais llawer cynhyrfiad a chyffroad oddiwrth yr Yspryd yn ddirgelaidd yn dy annog i droi.

3. A llais dy gydwybod. Oni fyddi weithiau yn canfod ac yn cydnabod nad yw pob peth yn iawn o'th fewn? ac oni fydd dy gydwybod yn dywedyd wrthyt, bod yn rhaid i ti gael dy wneuthur yn ddyn newydd, a chanlyn llwybr newydd?

4. Llais holl weithredoedd Duw. Canys llyfrau Duw ydynt, y rhai sydd yn dysgu i ni y *wers* hon, trwy ddangos i ti'r mawredd a'r doethineb, a'r daioni hyn; a galw arnat i ddal sylw arnynt, ac i ryfeddu a chlodfori'r Creawdwr. "Y nefoedd sy'n datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sy'n mynegi gwaith ei ddwylaw ef. Dydd i ddydd a draetha ymadrodd; a nos i nos a ddengys wybodaeth." Sal. 19 : 1, 2. Bob tro ag y bydd yr haul

yn codi arnat, y bydd yn galw arnat i droi; fel pe buasai yn dywedyd, "I ba berwyl yr ydwyf yn teithio ac yn amgylchu'r byd, ond i draethu i ddynion ogoniant eu Gwneuthurwr, ac i'w goleuo hwy i gyflawni ei waith ef? Ac a ydwyf fi yn dy gael yn gwneuthur gwaith pechod, ac yn cysgu allan dy fywyd mewn diofalwch? *Deffro di, yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddiwrth y meirw, a Christ a oleua i ti.*"

5. Llais pob trugaredd yr ydwyt yn ei mwynhau. Pe y gellit eu clywed a'u deall, y maent oll yn galw arnat am DROI. Paham y mae'r ddaear yn dy gynnal, ond fel y ceisiet yr Arglwydd, ac y gwasanaethit ef? Paham y mae yn rhoddi i ti ei ffrwythau, ond fel y gwasanaethit ef? Paham y mae'r awyr yn rhoddi i ti anadl, ond i'w wasanaethu ef? Paham y mae'r holl greaduriaid yn dy wasanaethu, ac yn gweini i ti â'u gwaith, ac yn cael eu lladd er rhoddi i ti ymborth; ond fel y byddai i ti wasanaethu eu Harglwydd hwy a thithau? Paham y mae efe yn rhoddi i ti amser, ac iechyd, a chryfdwr, ond i'w wasanaethu ef? Paham yr ydwyt yn cael bwyd a diod, a dillad, ond at ei wasanaeth? A oes gennit un peth na dderbyniaist? Ac os eu derbyn a wnaethost, y mae'n rhesymmol i ti ystyried oddiwrth bwy, ac

i ba berwyl, ac i ba ddefnydd, y derbyniaist hwynt. Oni waeddaist arno ef erioed am gymhorth mewn cyfyngder? Ac oni ddeallaist y pryd hynny mai dy le di oedd troi atto, a'i wasanaethu ef, os byddai iddo wrando arnat a'th waredu? Ac y mae efe wedi gwneuthur ei ran, ac wedi dy arbed etto yn hwy, ac efe a'th brofodd ac a'th arbedodd flwyddyn ar ol blwyddyn, ac er hyn oll nid ydwyt yn troi. Pa sawl blwyddyn y mae Duw wedi bod yn disgwyl wrthyt am ffrwythau cariad, a sancteiddrwydd, ac heb gael dim?—ac er hyn oll efe a'th arbedodd. Pa sawl gwaith, trwy dy anwybodaeth, a'th ddiofalwch, a'th anufudd-dod bwriadol, yr annogaist gyfiawnder i ddywedyd, *Torr ef i lawr, paham y mae yn diffrwytho'r tir?*—ac etto trugaredd a lwyddodd, ac amynedd sydd wedi attal y dyrnod marwol a damniol hyd y dydd hwn. Pe buasai ynot wybodaeth dyn, tydi a fuasit yn deall fod y pethau hyn oll yn galw arnat i *ddychwelyd.*

6. Heblaw hyn, y mae llais pob cystudd yn galw arnat i droi ar frys. Afiechyd a phoen sydd yn gwaeddi, *Dychwel:* tlodi hefyd, a cholled o gyfeillion, a phob gwialen geryddol, sydd yn gwaeddi arnat, *Dychwel;* ac oni fynni er hynny wrando ar y galwad.

Yn awr, bwrw'r pethau hyn oll ynghyd. Yr ysgrythur lân sydd yn galw arnat i droi: yr Yspryd sydd yn gwaeddi, *Dychwelwch:* dy gydwybod sydd yn dywedyd, *Tro:* y byd, a'r holl greaduriaid ynddo, sydd yn llefain arnat am *droi:* ymddugiad amyneddgar Duw tuag attat sydd yn dywedyd wrthyt, *Dychwel:* a'r holl drugareddau yr ydwyt yn eu derbyn sydd yn gwaeddi arnat am *droi:* a gwialen ceryddon tadol yr Hollalluog sydd yn dy annog i *droi:* ac felly hefyd y mae holl addewidion Duw; ac er hyn oll onid ydwyt yn ewyllysgar i ddychwelyd?

7. Ac heblaw hyn oll, Oh tydi bechadur gwael, calon-galed! onid ystyriaist ti erioed ar ba ammodau yr ydwyt yn sefyll yr holl amser hyn gyd a'r hwn sydd yn galw arnat i droi? Ei eiddo ef ydwyt, ac yr ydwyt yn ddyledus iddo am danat dy hun, a'r hyn oll ag sydd yn dy feddiant; ac onid cyfiawn iddo orchymmyn i'w eiddo ei hun? Ei was ef ydwyt mewn modd neillduol, ac ni ddylit wasanaethu'r un meistr arall. Yr ydwyt yn ymddibynnu ar ei drugaredd a'i dosturi, a'th fywyd sydd yn ei law; ac y mae efe wedi hyspysu nas gwna efe dy achub ar unrhyw ammodau eraill: y mae i ti lawer o elynion maleisus ac ymddialgar, y rhai a lawenychent pe ymadawai Duw oddi

wrthyt, a phe gadawai efe hwynt yn llonydd gyd a thi, ac i wneuthur i ti yn ol eu hewyllys: pa mor fuan yr ymddugent tuag attat mewn modd arall! Ac nis gelli gael dy wared oddi wrthynt, ond trwy ddychwelyd at Dduw. Yr ydwyt eisoes wedi syrthio dan ei ddigofaint, o herwydd dy bechod: ac nis gwyddost pa hyd y bydd i'w amynedd ddisgwyl wrthyt. Ysgatfydd mai hon a fydd y flwyddyn ddiweddaf; ïe, fe allai y diwrnod diweddaf. Y mae ei gleddyf wrth dy galon, tra y mae ei air yn dy glustiau; ac os na ddychweli, *marwol a fyddi.* Pe byddai dy lygaid ond yn agored i weled lle yr wyt yn sefyll, sef ar gyffiniau uffern, a gweled gynnifer o filoedd sydd yno eisioes, ti a ganfyddit ei bod yn amser i ti edrych o'th amgylch.

Oh, pa fath newyddion da a fyddai hyn i'r trueiniaid hynny ag sydd yn awr yn uffern, pe y caent ond derbyn y cyfryw gennadwri oddiwrth Dduw! Pa fath air gorfoleddus a fyddai hwn, *Dychwelwch a byddwch fyw!*Ië, pa mor hyfryd a fyddai'r gair hwn i ti dy hunan, pe buasit wedi profi digofaint Duw ond am un awr! neu, pe ar ol dioddef poenau mil neu ddeng mil o flynyddoedd, y gellit glywed y fath air a hwn oddiwrth Dduw, *Dychwelwch a byddwch fyw!* Ac etto a

fydd i ti yn awr ei ddiystyru, a gadael i ni ddychwelyd heb lwyddo yn ein cennadwri?

Wele, ystyriwch hyn, chwi bechaduriaid, yr ydym ni wedi cael ein hanfon attoch megis cenhadon oddiwrth Dduw, i osod o'ch blaenau chwi fywyd ac angeu: a pha beth a ddywedwch? pa un o'r ddau a ddewiswch? Crist sydd megis yn sefyll yn dy ymyl, a'r nefoedd yn y naill law, ac uffern yn y llaw arall, ac yn cynnyg i ti dy ddewis; a pha un a ddewisi? Llais yr Arglwydd sydd yn gwneuthur i'r creigiau grynu. Ond nid ydyw ond peth bychan yn dy olwg di, ei glywed yn dy fygythio, gan nad ydwyt yn troi atto. Onid ydwyt yn deall nac yn ymglywed â'r llais hwn, *Dychwelwch, dychwelwch, paham y byddwch feirw?* Ystyria, Oh ddyn! onid llais cariad ydyw, cariad anfeidrol, galwad ydyw oddiwrth dy Gâr goreu, a mwyaf anwyl a charedig; ac etto a elli ei esgeuluso? Llais trugaredd a thosturi ydyw. Y mae'r Arglwydd yn gweled yn well nâ thi dy hun, i ba le yr wyt ti yn myned, yr hyn sydd yn peri iddo alw ar dy ol, *Tro, tro:* y mae efe yn gweled pa beth a fydd y canlyniad ofnadwy, os na fydd i ti droi: ac y mae efe yn dywedyd fel hyn—"Y pechadur ynfyd hwn a fydd yn sicr o'i daflu ei hun i drueni diddiwedd, os na fydd iddo droi; canys bydd raid i mi, mewn

cyfiawnder, ymddwyn tuag atto yn ol fy neddf gyfiawn ac anghyfnewidiol." Ac o herwydd hynny, y mae Duw yn galw ar dy ol, *Dychwel, dychwel, Oh bechadur!* Pe gwybyddech y filfed ran o'r perygl sydd yn eich amgylchynu, yn gystal ag y mae Duw yn gwybod, a'r trueni yr ydych yn rhuthro iddo, ni fyddai achos i ni alw ar eich ol i ddychwelyd.

Wele, a ydych chwi bellach wedi penderfynu, ai nid ydych? A ydyw yn angenrheidiol i mi ddywedyd ychwaneg wrthych? Pa beth a wnewch? A ddychwelwch chwi, ai nis gwnewch? Llefara, ddyn, (yn dy galon,) wrth Dduw: llefara, rhag iddo gymmeryd dy ddistawrwydd yn lle naccad. Llefara ar frys, rhag na fyddo iddo wneuthur y fath gynnyg i ti mwyach. Llefara yn ddifrifol, ac nid yn gyfnewidiol; canys ni fyn efe neb difraw, nac yr un ag sydd yn cloffi rhwng dau feddwl, i fod yn ddilynwyr iddo. Dywed yn dy galon yn awr, ac heb oedi yn hwy, hyd y nod cyn i ti symmud oddi yma, "Trwy gymhorth gras Duw, yr ydwyf yn bwriadu troi allan o law." Ac o herwydd fy mod yn cydnabod fy annigonolrwydd a'm gwendid fy hun, yr ydwyf yn llwyr fwriadu disgwyl wrth Dduw am ei ras, a'i ganlyn ef yn ei ffyrdd, ac hollol ymadael â'm cyfeillion gynt, á

rhoddi fy hun i fynu yn gwbl i lywodraeth yr Arglwydd.

## ATHRAWIAETH VI.

Y mae'r Arglwydd yn ymddarostwng i ymresymmu gyd a phechaduriaid annychweledig, ac yn gofyn iddynt paham y byddant feirw?

DADL, neu ymresymiad rhyfeddol ydyw hwn, yn gystal mewn perthynas i swm y ddadl, a'r ymddadleuwyr.

1. Y dadl, neu'r ymofyniad, Paham yr ewyllysiai'r annuwiolion ddamnio eu hunain? Neu, Paham y maent yn dewis marw, yn hytrach nâ throi? Neu, A oes ganddynt reswm digonol am wneuthur hynny?

2. Y dadleuyddion ydynt Duw a dyn; y Duw tra phur a sanctaidd, a phechaduriaid drygionus diedifeiriol.

Onid ydyw'n beth rhyfedd bod un dyn yn ewyllysio marw, a chael ei ddamnio? ïe, ac mai hyn yw cyflwr y rhan fwyaf o'r byd? Ond chwi a ddywedwch, Ni ddichon hyn fod; canys y mae natur yn ein dysgu i geisio achub a chadw ein hunain rhag drwg.

Mewn attebiad i hyn, caf ddywedyd, 1. Y mae yn wirionedd tra sicr, na ddichon un dyn ewyllysio'r drwg, megis ag y mae yn ddrwg, ond megis ag y mae ynddo ryw ymddangosiad o ddaioni. Nid oes neb yn ewyllysio trueni, megis poenau diseibiant. Ond yn 2. Y mae yn wirionedd tra sicr, mai'r achos paham y mae'r annuwiolion yn marw, ac yn cael eu damnio, ydyw, o herwydd eu bod hwy yn dewis hynny. Ac y mae hyn yn wirionedd mewn amryw ystyriaethau.

1. Hwy a fynnant ganlyn y ffordd ag sydd yn tywys i uffern, er bod Duw a dyn yn dywedyd wrthynt i ba le y mae yn arwain; ac er fod Duw hefyd wedi tystiolaethu yn ei air, os byddai iddynt fyned ymlaen yn y cyfryw ffordd ddrwg, y byddai iddynt ddyfod i ddinystr; ac na fyddent yn gadwedig oni fyddai iddynt droi. Y mae ganddynt air, a llw, y Duw byw; am hynny, sef os na ddychwelant, na chânt hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef. Ac er hyn oll annuwiol ydynt, a drygionus a fyddant, dyweded Duw a dynion a fynnont. Felly yn ganlynol, y mae'r dynion hyn yn dewis bod yn golledig, ond nid yn awr. Y maent yn dewis y ffordd i uffern, ac yn caru'r hyn ag sydd yn achos o'u poenau, er nad ydynt (mewn ystyr arall) yn ewyllysio myned i uffern; na chwaith yn

caru y poenau a fydd raid iddynt ddioddef yno.

Onid dyma eich cyflwr, a hyn yw'r gwirionedd o'r dadl? Nid ydych yn ewyllysio llosgi yn uffern, ond chwi a fynnwch daflu eich hunain iddi. Ni ddymunech gael eich poeni gyd a chythreuliaid yn dragywydd, ond chwi a fynnwch wneuthur yr hyn a fydd yn sicr o ddwyn y canlyniad hyn arnoch. Y mae hyn yr un fath a phe byddai i chwi ddywedyd, "Myfi a yfaf y gwppaned gwenwyn hyn, ond nid ydwyf yn ewyllysio marw. Myfi a daflaf fy hun bendramwnwgl i lawr o ben y clochdy hwn, ond er hynny nid ydwyf yn ewyllysio fy lladd fy hun. Myfi a wthiaf y gyllell hon i'm mynwes, ond ni'm lladdaf fy hun." Yr un fath yw ymddugiad dynion annuwiol; hwy a fynnant barhau yn annuwiol, ac er hynny nid ydynt yn ewyllysio cael eu damnio. Ond etto, oni wyddoch chwi fod Duw, trwy ddeddf gyfiawn, wedi *ordeinio* y bydd raid i chwi, naill neu edifarhau, neu fod yn golledig? Byddai yn gystal i'r hwn ag sydd yn cymmeryd gwenwyn, ddywedyd yn eglur, "Myfi a wnaf am danaf fy hun, canys ni fyddai hynny ddim gwell yn y diwedd;" er iddo ysgatfydd garu'r gwenwyn er mwyn y *siwgr* ag oedd yn gymmysgedig ag ef; ac felly ni fynnai goelio mai gwenwyn oedd; ond ni wnae'r cyfryw dyb a hyd-

er dwyllodrus achub ei fywyd. Felly yn yr un modd, os ydych yn bwriadu aros yn eich pechodau, a bod yn feddwon, yn butteinwyr, â'ch serch ar bethau'r byd, a chanlyn eich trachwantau, a byw yn ol y cnawd, byddai gystal i chwi ddywedyd yn eglur, nyni a fynnwn fod yn golledig, neu gael ein damnio: canys felly y byddwch, oni ddychwelwch. Oni fyddai i chwi geryddu ynfydrwydd y lleidr, neu'r *mwrdrwr* hwnnw, yr hwn a ddywedai, "Mi a ddygaf, neu mi a laddaf, ond ni fynnaf gael fy nghrogi;" pan y mae yn gwybod, ar yr un pryd, os gwna efe'r un o honynt, y bydd i'r ynad gymmeryd gofal, y gorfydd iddo atteb gyd a'i fywyd am y trosedd. Os dywed efe, "Mi a ddygaf, neu mi a laddaf;" byddai yr un fath iddo ddywedyd yn eglur, "Yr ydwyf yn ewyllysio cael fy nghrogi." Felly chwithau, os bydd i chwi fyned ymlaen mewn drygioni, a chanlyn trachwantau'r cnawd, byddai gystal i chwi ddywedyd yn eglur, nyni a fynnwn fyned i uffern.

2. Heblaw hyn, ni fyn yr annuwiolion ymarfer â'r cyfryw foddion, heb ba rai nid oes iddynt ddim gobaith i fod yn gadwedig. Canys yr un peth a fyddai i'r hwn, ni fyn gymmeryd lluniaeth, ddywedyd yn eglur nad ydyw yn ewyllysio byw, oni ddichon efe gael allan ryw ffordd i ddyn fyw heb

fwyd. Felly hefyd am yr hwn ni fyn gychwyn ar ei daith, cystal fyddai iddo ddywedyd yn bendant, nad ydyw yn bwriadu dyfod fyth i ben ei *siwrnai*. A'r hwn, wedi iddo syrthio i'r dwfr, ni fyn ddyfod allan, na gadael i neb arall ei *helpio*, byddai yr un fath iddo ddywedyd yn eglur, ei fod yn dewis boddi. Felly chwithau, os ydych yn dewis ffordd dinystr, ac heb ewyllysio cael eich troi na'ch dychwelyd, nac arfer moddion i fod yn gadwedig byddai gystal i chwi ddywedyd yn eglur, eich bod yn dewis cael eich damnio. Ond os ydych wedi cael allan ryw ffordd i fod yn gadwedig, heb gael troedigaeth, chwi a gawsoch y peth na chafodd neb erioed o'r blaen.

Felly chwi a welwch fel hyn, ar ba sail y mae'r Arglwydd yn barnu bod dynion yn caru dinystr. Ni fynnant ddychwelyd, er y gwyddant bod yn rhaid iddynt naill neu ddychwelyd, neu farw: hwy a ddewisant ruthro ymlaen yn rhyfygus i drueni tragywyddol, yn hytrach na throi a bod yn gadwedig: ond i'r diben o ddihuddo eu cydwybodau, tra y maent yn myned ymlaen yn eu pechodau, y maent yn ceisio dwyn eu hunain i goelio y byddant yn gadwedig yn y diwedd, er iddynt yn awr barhau yn ddiedifeiriol.

3. Ac megis ag y mae'r ddadl yn rhyfeddol,

felly hefyd y mae'r dadleuyddion. Onid yw yn syndod mawr bod Duw yn ymddarostwng mor isel, a dadleu ei achos gyd a dyn gwael, pechadurus! Ac hefyd fod dynion mor dywyll rhyfeddol, a gwrthnysig, fel ag y mae yn angenrheidiol i'r Arglwydd wneuthur hyn, mewn matter ag sydd mor eglur; ïe, ac mor ynfyd a gwrthwynebu Duw, mewn peth ag sydd yn perthyn mor agos i iachawdwriaeth eu heneidiau anfarwol!

Nid rhyfedd na fynnant ein gwrando ni ddynion, pan y maent yn gwrthod gwrando ar lais yr Arglwydd ei hun: megis ag y mae Duw yn dywedyd, pan anfonodd efe'r prophwyd at yr Israeliaid, "Etto tŷ Israel ni fynnant wrando arnat ti; canys ni fynnant wrando arnaf fi: o blegyd talgryfion a chaled-galon ydynt hwy, holl dŷ Israel." Ezec. 3 : 7. "Ond, gwae'r hwn a ymrysono â'i Luniwr! (medd yr Arglwydd.) Ymrysoned priddell â phriddellau'r ddaear. A ddywed y clai wrth ei Luniwr, Beth a wnei?" Esa. 45 : 9.

---

## Y DEFNYDDIAD.

Pa beth yr ydwyt yn ei ddywedyd, tydi adyn truenus, annychweledig? A elli di anturio mewn

modd rhyfygus i ymryson â Duw? A ddichon i ti ddadleu yn ei erbyn, a gwrthbrofi ei air? A ydwyt ti yn barod i gymmeryd yr ymdrech yn llaw, ac i ymgystadlu â Duw? Y mae Duw yn gofyn i ti, Paham y byddi farw? Ac a oes gennyt atteb digonol yn barod? A fedri di brofi fod Duw wedi camsynied? Och, pa fath orchwyl a fyddai hynny! Y mae yn ddiammeu fod naill neu efe neu tithau wedi cam-gymmeryd, pan y mae efe yn dywedyd fod yn angenrheidiol i ti droi, a thithau yn haeru nad ydyw; y mae efe yn galw arnat i ddychwelyd, a thithau yn naccau; y mae efe yn gorchymmyn i ti wneuthur hynny yn ddiattreg, sef *heddyw, tra gelwir hi heddyw*, a thithau yn oedi, gan haeru y bydd hyn yn ddigon buan ryw dro rhagllaw. Y mae Duw yn dywedyd y bydd yn rhaid i'r cyfnewidiad fod yn hollol ac yn drwyadl, ac y bydd yn rhaid i chwi fod yn sanctaidd, ac yn greaduriaid newydd; a chwithau yn meddwl y bydd yn ddigon i drwsio'r hen ddyn, heb ei adnewyddu. A phwy sydd felly ar y iawn, Duw neu chwi? Y mae Duw yn galw arnoch i droi, ac i arwain bywyd sanctaidd, a chwithau yn anewyllysgar; canys y mae hynny yn eglur wrth eich bucheddau a'ch anufudd-dod. Os ydych yn ewyllysgar, paham nas gwnewch? neu

paham nas gwnaethoch yr holl amser hyn? neu paham na ddechreuech yr awrhon? Eich ewyllys sydd yn llywodraethu eich bywyd, neu eich buchedddau; ac yn ddiau y mae lle i ni farnu eich bod yn anewyllysgar, pan nad ydych yn dychwelyd, a Duw yn galw arnoch. A phaham na ddychwelwch? a allwch chwi roddi rhyw reswm am hynny ag a dâl ei alw yn rheswm?

Ond ni ddichon hwnnw fod yn rheswm da, yr hwn sydd yn erbyn Duw'r gwirionedd. Ac ni ddichon hwnnw fod yn oleuni, yr hwn sydd yn wyrthwyneb i'r haul. Nid oes dim gwybodaeth mewn un creadur, ond yr hyn a dderbyniodd oddiwrth Dduw; ac o herwydd hynny, ni ddichon neb fod yn ddoethach nâ Duw. Rhyfyg damniol a fyddai i'r angel mwyaf derchafedig i ymgystadlu â'i Greawdwr: pa gymmaint mwy rhyfygus i delpyn o bridd, neu hurtyn anwybodus, yr hwn nid yw yn ei adnabod ei hun, nac yn gwybod dim am ei enaid, a'r hwn nis gŵyr ond ychydig iawn am y pethau y mae efe yn eu gweled; pa ynfydrwydd i'r cyfryw a hwn i ymosod ei hun i wrthwynebu doethineb Duw? Y fath ymddugiad a hyn sydd yn datguddio, yn y modd mwyaf eglur, erchyll ddrygioni, a hollol ynfydrwydd pechaduriaid, sef fod tyrchod-daear (gwaddod) gwirion, o'r fath ag

ydynt, yn rhyfygu gwrthddywedyd eu Gwneuthurwr, ac yn ceisio ammeu gair Duw.

Ac megis ag yr ydwyf yn gwybod fod Duw (o angenrheidrwydd) ar y iawn, felly hefyd yr ydwyf yn gwybod fod y matter y mae efe yn ei ddadleu, mor eglur, fel nad oes le i un dyn (yn ei iawn bwyll) ammeu yn ei gylch; ac ni ddichon fod gan un dyn synwyrol yn y byd reswm am wrthwynebu Duw. Canys a ydyw yn rhyw reswm i was dorri gorchymynion ei feistr? A ydyw yn rhyw rheswm i bechadur gwael ddianrhydeddu Arglwydd y gogoniant? A ydyw yn rheswm i bechadur ddiystyru yr Iachawdwr hwnnw a'i prynodd â'i werthfawr waed? A ddichon y fath beth a bod, sef fod gan un dyn reswm da am ddamnio ei enaid anfarwol? Craffwch ar ymadroddion yr Arglwydd, *Dychwelwch, dychwelwch, paham y byddwch feirw?* A ydyw angeu tragywyddol yn beth i'w ddymuno? A ydych chwi mewn cariad ag uffern? Pa reswm a ddichon fod gennych fel ag yr ewyllysiech fod yn golledig? Os ydych yn tybied fod gennych ryw reswm am bechu, oni ddylech gofio hefyd, *Mai cyflog pechod yw marwolaeth?* Ac ystyriwch hefyd, a oes gennych chwi reswm fel y dinystriech eich hunain, gorph ac enaid, yn dragywydd? Chwi a ddylech ofyn, (i chwi eich

hunain,) a ydych chwi yn caru nid yn unig y sarph, ond ei cholyn hefyd? Ac y mae yn beth mor fawr (mor arswydus) i ddyn fwrw ymaith happusrwydd tragywyddol, fel nad yw bosibl iddo roddi un rheswm iawn am y fath ffolineb digyffelyb; fel po mwyaf y byddo dyn yn amddiffyn y fath beth, mwyaf ynfyd a gwallgofus y bydd yn ymddangos. Pe cynnygid i chwi arglwyddiaeth neu deyrnas, am bob pechod a wneloch, nid rheswm, ond ynfydrwydd mawr fyddai i chwi eu cymmeryd. Pe y gellit, trwy bob trosedd neu bechod, ennill y peth mwyaf ar y ddaear, ag a ddichon y cnawd ei ddymuno, pa mor barod y byddit i droseddu; etto pa mor rhyfygus a drygionus a fyddai'r weithred o geisio dy hudo i bechu fel hyn yn erbyn Duw! Ond ni ddylai un ystyriaeth effeithio arnat i bechu yn erbyn Duw, hyd y nod pe byddai hynny er rhyngu bodd i'th gyfeillion mwyaf anrhydeddus, neu dy berthynasau anwylaf, neu mewn ufudd-dod i orchymmyn y tywysog mwyaf ardderchog ar y ddaear; neu ynte, pe byddai hynny er achub dy hoedl, neu i'r dyben i ddiangc rhag y poenau a'r arteithiau mwyaf dirfawr ac erchyll yn y byd; canys nid ydynt oll ond ysgafnach nâ gwegi, mewn cymhariaeth i werth yr enaid. Ië, pe byddai eich braich neu eich llygad dehau yn rhyw rwystr i'ch iachaw-

dwriaeth, buddiol fyddai tynnu allan y naill, neu dorri ymaith y llall; canys pan fyddis yn bwrw'r holl gorph i'w golli, nid oes modd achub un aelod; felly hefyd yn yr un modd y mae mewn perthynas i'r enaid. Ac y mae pethau tragywyddol o gymmaint pwys, fel nad oes dim yn y byd hwn yn haeddiannol o gael ei enwi mewn cyffelybiaeth iddynt: ac ni ddichon ein serch tüag at un peth daearol, (nac einioes, na choronau, na theyrnasoedd,) fod yn esgus digonol i ni esgeuluso pethau o dragywyddol bwys. Canys y nefoedd sydd yn beth mor anfeidrol werthfawr, fel os bydd i chwi ei cholli, nid oes dim a ddichon gyflawni ei lle, neu wneuthur i fynu'r golled: ac ar y llaw arall, mor ofnadwy yw uffern, fel ag os bydd i chwi gael eich bwrw yno, nid oes dim a ddichon leihau eich poenau, na rhoddi i chwi'r cyssur na'r esmwythder lleiaf am un awr, neu dros un munud. Ac felly ni ddichon dim fod yn esgus digonol i chwi am esgeuluso iachawdwriaeth eich eneidiau anfarwol. *Canys pa lesâd i ddyn pe ennillai efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?*

Óh, nas gwybyddech yn iawn y pethau yr ydym yr awrhon yn traethu am danynt! Nid oes un enaid yn uffern, nad yw bellach yn gwybod, mai ynfyd y cyfnewid a wnaeth, gan ddewis trachwant

au'r cnawd o flaen gwynfyd y nefoedd; ac na ddichon rhyw ychydig ddifyrrwch, neu bleser, neu olud, neu anrhydedd y byd hwn, wneuthur iddo unrhyw fath o daledigaeth am golli ei enaid.

Pe gwelech ryw ddyn yn dala ei law yn y tân, chwi a synnech yn fawr wrth ei weled: ond gallai fod ganddo ryw reswm am wneuthur hyn; megis ag yr oedd gan yr Esgob Cranmer, pan estynnodd allan ei law ddehau i'w llosgi yn gyntaf, o herwydd iddo fod mor annoeth ac anwadal ag ysgrifennu ei enw, megis pe buasai yn cydsynnio â Phabyddiaeth. Pe canfyddech ryw ddyn yn torri ymaith ei goes, neu ei fraich, fe fyddai hynny yn olwg arswydus; ond gallai fod ganddo reswm am wneuthur felly, megis ag y gwnaeth llawer un i achub ei fywyd. A phe gwelech ddyn yn rhoddi ei gorph i'w losgi yn ulw, ac yn gwrthod ymwared, pe cynnygid iddo; hyn oll a fyddai yn galed i gig a gwaed: ond etto gallai fod gan ddyn reswm da am hyn, megis ag yr oedd gan gannoedd o'r merthyron. Ond am i ddyn ruthro yn fwriadol i dân uffern, hyn sydd beth nad oes reswm yn y byd a ddichon ei gyfiawnhau. Ond y mae'r nefoedd yn fwy nâ digon i dalu yn ol i ni am unrhyw golled a allom ni gael, ac i dalu i ni am unrhyw boen a gymmerom i'w mwynhau. Ond ar y llaw

arall, nid oes dim yn y byd hwn ag a ddichon dalu i ni am y golled o'r nefoedd.

Yr ydwyf yn erfyn arnoch, gadewch i'w air ddyfod yn nes at eich calonnau. Ac megis ag yr ydych yn gweled nad oes gennych chwi yr un rheswm am ddinystrio eich hunain, dywedwch i mi pa reswm sydd gennych i wrthod dychwelyd, a byw i Dduw? Pa reswm sydd gan y pechadur mwyaf anwybodus a difraw o honoch chwi oll, fel na byddai mor ofalus am ei enaid ag unrhyw ddyn arall? Oni fydd uffern mor boeth i chwi ag i eraill? Ac oni ddylai fod eich eneidiau mor werthfawr yn eich golwg, a'r eiddynt hwythau iddynt hwy? Onid oes i Dduw gymmaint o awdurdod arnoch chwi ag arnynt hwy? Paham, gan hynny, na fynnwch chwi fod yn bobl sancteiddiol iddo ef, megis hwythau?

Ac yn awr, naill neu y mae gennych chwi reswm am yr hyn yr ydych yn ei wneuthur, neu nid oes. Os nad oes, a fydd i chwi ryfygu myned ymlaen yngwrthwyneb i reswm? Ond os tybied yr ydych fod gennych reswm o'ch tu, yna ymresymmwch y matter ychydig gyd a mi eich cyd-greadur, yr hyn sydd lawer haws nag ymresymmu gyd a Duw. Dywed i mi, Oh ddyn! yma o flaen yr Arglwydd, fel pe byddai raid i ti farw yr awrhon, pa beth ydyw'r

achos nad ydwyt yn bwriadu troi y dydd heddyw, cyn i ti symmud o'r lle yr ydwyt yn sefyll? Pa reswm sydd gennyt i wrthod, neu i oedi? A oes gennyt ti ryw reswm ag sydd yn boddloni dy gydwybod am hyn? neu ryw beth a anturi ddadleu ger bron brawdle Duw? Ac os oes, gâd i ni eu clywed, dwg hwynt ger bron. Ond Och! pa fath ffolineb, ac nid rheswm, a fyddwn yn ei glywed beunydd o enau dynion annuwiol!

1. Un a ddywed, "Os na fydd neb yn gadwedig ond y fath rai sanctaidd ag yr ydych chwi yn son, y nefoedd a fydd yn debyg o fod yn wag: Duw a *helpio* lawer."

Atteb. Pa beth! ai tybied yr ydych, naill neu nad yw Duw yn gwybod yn iawn, neu nad oes achos i gredu yr hyn y mae efe yn ei ddywedyd! Ond na fydded i chwi fesur pawb wrth eich mesur eich hunain: y mae gan Dduw filoedd a myrddiynau o rai a sancteiddiwyd; ond etto nid ydynt ond ychydig mewn cymhariaeth â'r byd. Mwy buddiol a fyddai i chwi o lawer, i wneuthur defnydd da o'r gwirionedd hyn a ddysgodd Crist i chwi: "Ymdrechwch i fyned i mewn trwy'r porth cyfyng: canys cyfyng yw'r porth, a chul yw'r ffordd, ag sydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi. Ond ehang

yw'r porth, a llydan yw'r ffordd, ag sydd yn arwain i ddistryw, a llawer yw y rhai sydd yn myned i mewn trwyddi." Luc, 13 : 24. Mat. 7 : 13.

Gwrthddadl 2. Sicr ydwyf, os â y fath ag ydwyf fi i uffern, y cawn ni ddigon o gwmpeini.

Atteb. Ac a fydd hynny yn rhyw esmwythdra neu gyssur i chwi? neu onid ydych chwi yn tybied y gellwch chwi gael digon o gwmpeini hefyd yn y nefoedd? Ac a fydd i chwi ruthro i ddinystr yn unig er mwyn cael cwmpeini? neu oni chredwch chwi y cyflawna Duw ei fygythion, o herwydd bod llawer yn euog fel chwithau?

Gwrthddadl 3. Ond nid ydwyf fi yn butteiniwr, neu yn odinebwr, neu yn feddwyn, neu yn orthrymmwr; a phaham, gan hynny, yr ydych yn galw arnaf fi i droi, a dychwelyd?

Atteb. Megis pe na buasech wedi eich geni yn ol y cnawd, ac wedi bod yn byw yn ol y cnawd, yn gystal ag eraill! Ac onid ydyw yn gymmaint pechod ag un o'r rhai hyn, fod gan ddyn feddylfryd daearol, a'i fod yn caru'r byd yn fwy nâ Duw; ac hefyd fod ynddo galon ddrwg o anghrediniaeth, ac heb ei chyfnewid na'i darostwng? Ac nid hynny yn unig, ond gadewch i mi hefyd ddywedyd i chwi, fod llawer o ddynion ag sydd yn medru ymgadw rhag pechodau gwaradwyddus, â'u calonnau

mor rhwym wrth y byd, a chymmaint gweision i'r cnawd, ac yn ddieithriaid i Dduw, ac mor wrthwynebol i'r nefoedd, ag ydyw eraill yn eu pechodau cywilyddus a gwaradwyddus.

Gwrthddadl 4. Ond nid wyf fi yn meddwl, nac yn gwneuthur drwg i neb; a phaham, gan hynny, y bydd i'r Hollalluog fy nghondemnio i?

Atteb. Ai nid ydyw ddim drwg i esgeuluso yr Arglwydd dy Wneuthurwr, a'r gwaith ar fedr yr hwn y danfonwyd ti i'r byd, a dewis o honot y creadur o flaen y Creawdwr, ac esgeuluso a diystyru gras Duw ag sydd beunydd yn cael ei gynnyg i ti? Y mae hyn yn brawf o ddyfnder dy drueni, dy fod yn annheimladwy o'th gyflwr: nid yw'r meirwon yn gwybod eu bod yn feirw. A phe byddai i ti unwaith gael dy fywhau a'th gyfodi o feirw, (mewn ystyr ysprydol,) tydi a ganfyddit ddigon allan o iawn hwyl ynot dy hun, a thi a synnit dy fod mor hir wedi gwneuthur mor ysgafn o hono.

Gwrthddadl 5. Myfi a feddyliwn y gwnelych chwi ddynion yn ynfyd, dan rith o'u dwyn i edifeirwch, a'u hannog i ddychwelyd.

Atteb 1. A allwch chwi eich hunain fod yn fwy ynfyd nag yr ydych eisoes? neu a ddichon fod ynfydrwydd mwy gwallgofus a pheryglus nag es-

geuluso iachawdwriaeth eich eneidiau, ac felly dinystrio eich hunain o'ch gwir fodd?

Nid oes un dyn yn ei gyflawn synwyrau, hyd onis byddo wedi cael ei ddwyn i edifeirwch, ac felly wedi cael gwir droedigaeth; canys heb hyn nis dichon efe wybod ond ychydig iawn am Dduw, nac am atgas naturiaeth pechod, nac am Grist, nac am y byd, nac am dano ei hun, na chwaith wybod yn iawn pa beth yw ei *fusnes* ar y ddaear, fel y gallo osod yn ei gylch. Ai doeth ydyw'r byd, pan fydd dynion yn rhedeg i uffern, rhag iddynt gael eu cyfrif yn ynfydion.

2. Pa beth sydd yn y gwaith y mae Crist yn eich galw atto, ag a ddichon yrru dyn allan o'i synwyrau? Ai caru Duw, a galw arno, a meddwl am y gogoniant sydd i ddyfod, ac ymadael â'n pechodau, a charu ein gilydd, ac ymhyfrydu yn ngwasanaeth Duw? Ai dyma y pethau a fyddent yn debygol i wneuthur dynion yn ynfyd?

3. A chan eich bod yn dywedyd fod y pethau hyn yn rhy uchel i ni; a ydyw'r pethau ar fedr pa rai i'n crewyd ni, ac o achos pa rai (sef i'r dyben i'w cyflawni) yr ydym yn cael byw, a ydyw y rhai hyn yn rhy uchel i ni ymyrru, neu i ymdrin â hwynt? Yn ddiau ni fyddai hyn ond ein hollol ddiddynoli, a'n gwneuthur yn fwystfilod, neu yn

anifeiliaid ysgrublaidd, y rhai nid oes reswm ganddynt, fel pe na byddai achos i ni ymdrin â dim, ond yn unig pethau anianol, cnawdol, a daearol. Canys os ydyw'r nefoedd yn rhy uchel i chwi feddwl am dani, hi a fydd hefyd yn rhy uchel i chwi fyth ei meddiannu.

4. Os bydd yr Arglwydd weithiau yn caniattau i ddynion â synwyrau gweiniaid, i fyned yn ynfyd neu yn wallgof wrth feddwl *am*, neu fyfyrio *ar*, bethau tragywyddol; hyn sydd o herwydd nad ydynt yn eu hiawn-amgyffred, ac o achos eu bod hwy yn rhedeg heb arweinydd. Ond o'r ddau, gwell fyddai gennyf fod yn gyffelyb i'r rhai hyn, nâ bod yn debyg i'r byd ynfyd, annychweledig, y rhai ydynt yn ystyried eu hynfydrwydd yn ddoethineb.

Gwrthddadl 6. Nid ydwyf yn gweled ei bod hi yn cerdded yn well gyd a'r rhai sydd mor dduwiol, nâ chyd a dynion eraill. Y maent mor dlawd, ac mewn cymmaint helbul a rhai eraill.

Atteb. Ac ysgatfydd mewn llawer mwy, pan wel Duw yn dda. Canys nid ydynt yn cymmeryd llwyddiant amserol megis cyflog. Ond y maent wedi trysori iddynt eu hunain drysorau mewn byd arall, neu nid ydynt yn wir Grist'nogion. Pa leiaf a gant yma, mwyaf oll fydd ganddynt yn ol;

ac y maent yn foddlon i aros hyd y pryd hynny.

Gwrthddadl 7. Wedi i chwi ddywedyd hynny a alloch, yr ydwyf fi wedi llawn-fwriadu ynof fy hun i obeithio'r goreu, ac i ymddiried yn Nuw, a gwneuthur gystal ag y gallwyf, a pheidio gwneuthur cymmaint cynnwrf.

Atteb 1. Ai hynny yw gwneuthur gystal ag y galloch, pan na fynnwch droi at Dduw, ond eich calon sydd yn erbyn ei wasanaeth sanctaidd? Hyn sydd yn gystal ag yr ydych (yn wir) yn *ewyllysio;* ond hynny yw eich trueni.

2. Fy nymuniad innau yw, i chwi obeithio yn Nuw: ond am ba beth y gobeithiech? Ai am i chwi gael eich achub, os byddai i chwi droi, a chael eich sancteiddio? Am hyn y mae gennych addewid Duw; a chan hynny gobeithiwch am dano, ac nac arbedwch. Ond os ydych yn gobeithio bod yn gadwedig heb gael gwir droedigaeth, ac heb ddychwelyd at Dduw; nid gobeithio yn Nuw ydyw hyn, ond yn Satan. Canys ni roddodd Duw i chwi'r fath addewid, ond a hyspysodd i chwi i'r gwrthwyneb: a Satan yw'r hwn a wnaeth i chwi'r fath addewidion, ac a'ch cyfododd i'r cyfryw obaith.

Pa beth a ddywedwch chwi, bechaduriaid annychweledig? A oes gennych chwi ryw reswm

iawn i'w roddi, paham na ddychwelwch, a hynny yn ddioed, ac â'ch holl galon? Neu a fynnwch chwi fyned i uffern, yngwrthwyneb i bob rheswm? Ystyriwch pa beth yr ydych yn ei wneuthur, a hynny mewn amser; canys ar fyrder hi a fydd yn rhy ddiweddar i ystyried. A ddichon i chwi gael allan ryw fai yn Nuw, neu yn ei waith, neu ei gyflog? A ydyw efe yn Feistr drwg? Ac a ydyw'r diafol, yr hwn yr ydych yn ei wasanaethu, yn well? A oes rhyw ddrwg mewn buchedd sanctaidd? A ydyw buchedd annuwiol yn well? A ydych chwi yn tybied yn eich cydwybod, y byddai eich dychweliad o ryw ddrwg ganlyniad? neu y byddai yn rhyw ddrwg i chwi fyw bywyd sanctaidd? Pa ddrwg a allai hyn wneuthur i chwi? A fyddai yn rhyw ddrwg i chwi gael Yspryd Crist o'ch mewn? a chael calon wedi ei phuro, a'i sancteiddio? Ai drwg a fyddai bod yn gyffelyb i Dduw? Onid ydyw'r gair yn dywedyd i Dduw wneuthur dyn ar ei ddelw ei hun? O herwydd paham, y sancteiddrwydd hwn yw delw Duw: dyma yr hyn a gollodd Adda, a'r hyn y mae Crist yn barod ei adnewyddu ynoch, trwy ei air a'i Yspryd, fel ag y mae efe yn gwneuthur i bawb ag a fyddant gadwedig. Dywedwch y gwirionedd i mi, megis yngŵydd yr Arglwydd; onid mwy

dewisol fyddai gennych i *farw marwolaeth yr uniawn*, yn hytrach nag megis un o'r annuwiolion, er nad ydych yn ewyllysio byw buchedd sanctaidd? Pe gorfyddai i chwi farw y dydd heddyw, onid gwell fyddai gennych farw megis dyn dychweledig, yn hytrach nâ'r annychweledig? megis dyn nefol a sanctaidd, yn hytrach nag megis dyn anianol, cnawdol, a daearol? Ac oni fyddech yn barod i ddywedyd gyd a Balaam gynt, "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau!" Num. 23 : 10. A phaham na byddech yn awr o'r un meddwl ag y byddwch y pryd hynny? Yn fuan, neu yn hwyr, chwi a ddeuwch i'r cyfryw amgylchiad, fel ag y bydd i chwi naill neu gael gwir droedigaeth, neu ynte ewyllysio eich bod wedi cael gwir ddychweliad, pan y bydd yn rhy ddiweddar.

Ond pa beth sydd arnoch ofn ei golli, os bydd i chwi droi? Ai eich cyfeillion? Ni wnewch ond eu cyfnewid: Duw ei hun a fydd yn gyfaill i chwi; a Christ a'r Yspryd Glân a fyddant yn gyfeillion i chwi; a phob Cristion a fydd yn gyfaill i chwi: a chwi a gewch *un* Cyfaill a erys gyd a chwi, ag a fydd yn well i chwi, ac yn fwy cynnorthwyol i chwi, nâ'r holl gyfeillion eraill yn y byd. Ni fuasai'r cyfeillion yr ydych yn eu colli, ond eich

hudo i uffern, ac heb fedru eich achub: ond y Cyfaill a gewch yn eu lle a'ch gwared rhag uffern, ac a'ch dwg i'r orphwysfa dragywyddol.

Ai eich pleserau sydd arnoch ofn eu colli? Meddwl yr ydych na chewch un diwrnod llawen yn chwaneg, os bydd i chwi droi a dychwelyd. Och! gresyndod eich bod yn tybied y byddai mwy o bleser i chwi gael mewn campau, cyfeddach, a difyrrwch ynfyd, nâ byw yngHariad Duw, ac mewn cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Yspryd Glân. Os byddai yn fwy pleser i chwi feddwl am eich tiroedd, a'ch meddiannau, (pe byddech arglwyddi ar yr holl wlad,) nag ydyw i blant i chwareu am nodwyddau, paham nad allai fod yn fwy hyfrydwch i chwi feddwl fod teyrnas nefoedd yn eiddo i chwi, nâ meddwl am holl olud a phleserau'r byd hwn? Ni chefais i fy hun ond ychydig o flaen-flas o bleserau'r nefoedd, wrth ragfyfyrio am yr hyfryd ddydd, ac yn y profiad presennol o gariad Duw yn Nghrist; canys yr ydwyf wedi yfed yn rhy ddwfn o bleserau daearol: ac etto, er hyn oll, mae'n rhaid i mi gyfaddef, oddiwrth yr ychydig brofiad a gefais, nad ydynt, mewn un modd, i'w cymharu â'u gilydd: canys mewn cyflwr o sancteiddrwydd, y mae mwy o lawenydd i'w gael mewn un diwrnod, (os bydd Haul y bywyd yn ty-

wynnu yn eglur arnom,) nag sydd mewn hir oes o bleserau pechadurus. Eich anian lygredig, a'ch natur halogedig, yw'r achos paham y mae buchedd sanctaidd yn ymddangos mor anhyfryd ac annymunol yn eich golwg. Ond os gwnewch chwi *ddychwelyd*, yr Yspryd Glân a rydd i chwi natur arall, ac ar ol hynny y byddai yn fwy hyfryd gennych gael ymadael â'ch pechodau, nag y mae yr awrhon i fyw ynddynt. A chwi a ddywedwch y pryd hynny, na wyddech pa beth oedd byw yn happus a chyssurus o'r blaen; ac na fuoch erioed mor ddedwydd, cyn i chwi ddewis Duw a sancteiddrwydd, megis eich hyfrydwch pennaf.

## ATHRAWIAETH VII.

Os, ar ol hyn oll, ni fyn dynion droi, nid ar Dduw y mae'r bai eu bod yn cael eu condemnio, ond arnynt eu hunain; o herwydd eu cildynrwydd. Y maent yn marw, o achos eu bod yn ewyllysio marw; hynny yw, o herwydd na fynnant ddychwelyd.

Os ydych yn dewis myned i uffern, pa feddyginiaeth sydd! Y mae Duw ei hun yma yn hyspysu ei fod yn ddieuog oddiwrth eich gwaed; yr hwn ni chaiff aros arno ef, os byddwch golledig.

Geill rhyw weinidog yr efengyl, yr hwn sydd ddiofal a difraw, ei dynnu arno ei hun; ac felly hefyd y rhai hynny ag sydd yn eich annog ymlaen yn eich pechodau, yn lle eich attal a'ch rhwystro: ond bydded sicr i chwi, ni fydd eich gwaed yn gorwedd wrth ddrws Duw. Y mae yr Arglwydd yn dywedyd am ei winllan anffrwythlon, "Bernwch, attolwg, rhyngof fi a'm gwinllan. Beth oedd i'w wneuthur yn ychwaneg i'm gwinllan nag a wnaethum i ynddi?" Esa. 5: 3, 4. Beth a allasai efe ei wneuthur yn ychwaneg? Efe a'ch gwnaeth chwi yn ddynion, ac a'ch cynnysgaeddodd â rheswm: efe a gyfrannodd i chwi bob angenrheidiau allanol; y mae'r holl greaduriaid at eich gwasanaeth; ac efe a roddodd i chwi ddeddf berffaith a chyfiawn. A phan dorrasoch honno, ac a ddinystriasoch eich hunain, efe a dosturiodd wrthych; a thrwy wyrthiau rhyfeddol o drugaredd a gostyngeiddrwydd, a anfonodd ei Fab i farw drosoch, ac i fod yn aberth dros eich pechodau; ac yr oedd efe yn Nghrist yn *cymmodi'r byd ag ef ei hun.* Iesu Grist a wnaeth weithred trwy ba un y mae efe yn barod i roddi ei hun i chwi, ynghyd a bywyd tragywyddol, ar yr unig ammod y byddai i chwi eu derbyn a *dychwelyd.* Ac ar yr ammodau rhesymmol hyn, y mae efe yn cynnyg i chwi fadd-

euant rhad o'ch holl bechodau; ac efe a ysgrifennodd hyn yn ei air, efe a'i seliodd â'i Yspryd, ac a'i danfonodd attoch trwy ei weinidogion; a hwythau a wnaethant i chwi yr un cynnyg gannoedd ar gannoedd o weithiau, ac a'ch gwahoddasant i'w dderbyn, a throi at Dduw. Ac yn ei enw ef hwy a erfyniasant arnoch, ac a ymresymmasant y matter gyd a chwi, ac a attebasant eich holl wrthddadleuon gweiniaid ac afresymmol. Y mae efe wedi hir ddisgwyl wrthych, ac yn aros eich cyfleusdra, ac a ddioddefodd i chwi ei ddianrhydeddu yn ei wyneb. Efe a'ch cynhaliodd yn drugarog ynghanol eich pechodau: efe a'ch amgylchynodd â phob math o drugareddau; ac efe a gyd-gymmysgodd gystuddiau gyd a hwynt, i'ch rhoddi chwi mewn cof o'ch ynfydrwydd, ac i'ch dwyn i'ch synwyrau: a'i Yspryd a fu yn ymrysson lawer gwaith â'ch calonnau, gan ddywedyd, "Dychwel, bechadur, dychwel at yr hwn sydd yn dy alw! I ba le yr wyt ti yn myned? Pa beth yr ydwyt yn ei wneuthur? A wyddost ti pa beth a fydd y canlyniad? Pa hyd y bydd i ti gasâu dy gyfeillion, a charu dy elynion? Pa bryd y bydd i ti ollwng y cwbl, a *dychwelyd*, ac ymroddi dy hun i Dduw, a gadael i'th Brynwr feddiannu dy enaid? Pa bryd y caiff hyn fod?" Yr ymresymmiadau a'r annog-

aethau hyn a ymarferwyd gyd a thi. A phan yr oeddit yn oedi, erfyniwyd arnat i frysio, a Duw a alwodd arnat, gan ddywedyd, *Heddyw, tra y gelwir hi heddyw, na chaledwch eich calonnau.* Paham nad yr awrhon, heb oedi yn ychwaneg? Gosodwyd bywyd o'ch blaen, a llawenydd y nef a ddatguddiwyd i chwi yn yr efengyl, a'r sicrwydd o honynt a eglurwyd i chwi; ïe, a'r sicrwydd o boenedigaeth tragywyddol y damnedigion a hyspyswyd i chwi. A pha beth a allasech ewyllysio yn ychwaneg, oni buasai i chwi gael golwg ar y nefoedd ac uffern? A "Christ Iesu a bortreiadwyd megis wedi ei groes-hoelio o flaen eich llygaid." Gal. 3 : 1. Dywedwyd wrthych gannoedd o weithiau, mai dynion colledig a fyddwch oni ddeuwch atto ef: a chynnifer gwaith hefyd y dywedwyd wrthych fawr ddrwg pechod, gwagedd y byd, a'r holl bleserau a'r golud ag sydd ynddo; clywsoch hefyd lawer gwaith ynghylch ansicrwydd a byrdra eich bywyd, ac am naill neu lawenydd neu ynte boenau diderfyn y bywyd sydd ar ddyfod. Hyn oll, a llawer mwy nâ hyn, a hyspyswyd i chwi drachefn a thrachefn; ac er nad ydyw'r pethau hyn oll wedi eich argyhoeddi, etto yr ydych yn fyw, a chwi a allech gael trugaredd y dydd heddyw pe byddai gennych ond calonnau i'w dderbyn.

Ac yn awr, gadewch i reswm yn unig farnu—pa un ai ar Dduw neu arnoch chwi y bydd y bai, os ar ol hyn oll y byddwch yn annychweledig, ac yn cael eich damnio. Ac os marw yn eich pechodau a fyddwch wedi'r cwbl, hynny a fydd o herwydd mai hynny yr ydych yn ei ewyllysio. Canys pa beth yn ychwaneg a allasid ei ddywedyd wrthych? neu pa foddion eraill a ellir eu harferu, ag a fyddai yn fwy tebygol i lwyddo gyd a chwi? A allwch chwi ddywedyd, (a phrofi hynny,) "Yr oeddem yn dymuno, ac yn mawr ewyllysio, i gael ein cyfnewid a'n gwneuthur yn greaduriaid newydd, ond nis gallasem; yr oeddem yn ewyllysio ymadael â'n pechodau, ond nis gallasem; yr oeddem yn ewyllysio cyfnewid ein cyfeillion, ein meddyliau, a'n hymadroddion, ond nis gallasem." Ond goddefwch i mi ofyn, Paham nas gallasech, os oeddech yn ewyllysio? Pa beth oedd yn eich rhwystro ond drygioni eich calonnau? Pwy oedd yn eich cymhell i ddrygioni, neu yn gwneuthuri chwi bechu? neu pwy oedd yn eich dal yn ol, neu yn eich lluddias rhag cyflawni eich dyledswydd? Pan y mae Duw yn gwahodd pechaduriaid i ddychwelyd, a phan y mae efe yn addaw trugaredd i'r rhai a ddychwelant, a gauodd efe chwi allan? neu a ddywedodd efe yn ei air na fynnai efe

eich derbyn? A ddywedodd efe, Myfi a drugarhaf wrth bob un a edifarhao, ond nid wrthyt ti? A gauodd efe chwi allan oddiwrth y rhyddid i ddyfod i'w sanctaidd addoliad? A waharddodd efe i chwi i weddio arno, mwy nâ rhai eraill? Chwi a wyddoch na wnaeth efe hyn. Nis danfonodd Duw chwi ymaith oddi wrtho, ond chwi a droisoch ymaith oddi wrtho ef o'ch gwirfodd. A phan yr oedd efe yn galw ar eich ol, ni fynnech ddychwelyd. Pe buasai Duw wedi eich cau chwi allan o'r addewid, a'r cynnyg cyffredinol o drugaredd; neu wedi dywedyd wrthych, *Safwch draw*, nid oes a wnelwyf â'ch bath chwi; na weddiwch arnaf, canys ni fynnaf eich gwrando; ac er i chwi edifarhau gymmaint a chymmaint, nid ystyriaf.—Pe buasai yr Hollalluog wedi dywedyd fel hyn, yna y buasai gennych esgus cyfiawn. Yna y gallasech ddywedyd, I ba ddyben yr edifarhâwn, ac y trown, pan na fyddai hynny o ddim llesâd? Ond nid felly yr oedd. Canys chwi a allasech gael Crist yn Arglwydd ac yn Iachawdwr i chwi, ac i fod yn Ben ac yn Briod i *chwi*, yn gystal ag i eraill; ac ni fynnech, o herwydd nad oeddech yn ymglywed eich hunain yn ddigon cleifion i geisio meddyg; ac nid oeddech yn ewyllysio cael eich iachâu. A chwi a ddywedasoch yn eich calonnau, megis y

gwrthryfelwyr hynny, "Ni fynnwn ni hwn i deyrnasu arnom." Luc, 19 : 14. *Crist a fynnasai eich casglu ynghyd dan adenydd* ei iachawdwriaeth, *ond nis mynnech.* Pa gymmaint ewyllys-da tuag attoch, a pharodrwydd i'ch achub, y mae Duw wedi hyspysu yn ei air! Gyd a pha fath dosturi y bu efe yn disgwyl wrthych o ddydd i ddydd, gan ddywedyd, "Oh na wrandawsai fy mhobl arnaf, na rodiasent yn fy ffyrdd! Oh na byddai gyfryw galon ynddynt, i'm hofni i, ac i gadw fy holl orchymynion, fel y byddai da iddynt ac i'w plant yn dragywyddol!" Deut. 5 : 29. "Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd!" Deut. 32 : 29. Efe a fuasai yn Dduw i chwi, ac a fuasai yn gwneuthur i chwi yr hyn oll a allasai eich calonnau ei ddymuno; ond yr oeddech chwi yn caru'r byd a'r cnawd yn fwy nag ef; ac am hynny ni fynnech wrando arno: er i chwi ragrithio iddo, a rhoddi iddo enwau derchafedig; etto, pan ddaethpwyd i'r pwys a'r profiad, ni fynnech ddim o hono.

Nid rhyfedd, gan hynny, os rhoddodd efe chwi i fynu i drachwantau eich calonnau, fel ag y rhodiasoch yn eich cynghorion eich hunain. Y mae efe yn ymostwng mor isel, fel ag y mae efe yn ymresymmu ac yn dadleu ei achos gyd a chwi, ac yn

gofyn i chwi, "Pa beth sydd ynof fi, neu fy ngwasanaeth, fel y byddech gymmaint yn fy erbyn? Pa niwed a wnaethum i ti, Oh bechadur? A haeddais i y cyfryw ymddugiad angharedig ar dy law? Dangosais i ti lawer o drugareddau, am ba rai o honynt yr ydwyt fel hyn yn fy nirmygu? Pa un ai myfi, neu Satan, yw dy elyn? Pa un ai myfi, ai ti dy hun, sydd yn dy ddinystrio? Ai buchedd sanctaidd, ai ynte pechod, y mae'n fwyaf angenrheidiol i ti ffoi oddi wrthynt? Os dinystr a ddaw arnat, ti a ddygi hynny arnat dy hun, trwy fy ngadael i yr Arglwydd yr hwn a'th waredai." "Ai hyn a delwch i'r Arglwydd, bobl ynfyd ac anghall? Onid efe yw dy dad a'th brynwr? Onid efe a'th wnaeth ac a'th sicrhaodd." Deut. 32 : 6. Pan welodd eich bod yn ymwrthod ag ef, hyd y nod am ddim, ac yn troi ymaith oddiwrth yr Arglwydd, i ganlyn ar ol us, a phlu, a sothach y byd, efe a ddangosodd i chwi eich ynfydrwydd, ac a'ch galwodd at waith mwy buddiol. "Paham y gweriwch arian am yr hyn nid yw fara, a'ch llafur am yr hyn nid yw yn digoni? Gan wrando gwrandewch arnaf fi, a bwyttewch yr hyn sydd dda, ac ymhyfryded eich enaid mewn brasder. Gogwyddwch eich clust, a deuwch attaf: gwrandewch, a bydd byw eich enaid; ac mi a wnaf gyfammod tragywyddol â chwi, sef

sicr drugareddau Dafydd." Esa. 55 : 2, 3. A phan na fynnech wrando ar ei lais, pa achwyniadau y mae efe yn eu gosod yn eich erbyn, gan eich cyhuddo o gildynrwydd bwriadol, ac ystyfnigrwydd gwrthnysig a gwar-galed? gan ddywedyd, "O chwi nefoedd, synnwch wrth hyn, ac ofnwch yn aruthrol, a byddwch anghyfannedd iawn, medd yr Arglwydd: canys dau ddrwg a wnaeth fy mhobl, hwy a'm gadawsant i, ffynnon y dyfroedd byw, ac a gloddiasant iddynt eu hunain bydewau, ïe, bydewau wedi eu torri, ni ddaliant ddwfr." Jer. 2 : 12. Llawer gwaith y cyhoeddodd Crist y gwahoddiad rhad hwnnw i chwi, "A'r hwn sydd â syched arno, deued; a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymmered o ddwfr y bywyd yn rhad." Dat. 22 : 17. Ac etto, ar ol yr holl gynnygion graslawn hyn, yr ydych yn rhoddi achos iddo achwyn, "Ond ni fynnwch ddyfod attaf fi, fel y caffoch fywyd." Ioan, 5 : 40. Y mae efe wedi eich gwahodd i wledda gyd ag ef yn ei deyrnas o ras; a chwithau a wnaethoch esgusodion o achos eich maesydd, a'ch anifeiliaid, a'ch gofalon bydol; a phan ni *fynnech* ddyfod, chwi a ddywedasoch nas *gallech* ddyfod; ac felly chwi a'i digiasoch, fel y dywedodd, *Ni chaiff yr un o'r gwyr hynny a wahoddwyd brofi o'm swpper.* Ac yn awr, attolwg, onid arnoch chwi eich hunain y

mae'r bai? A pha beth a allwch chwi ddywedyd yw'r achos mwyaf o'ch damnedigaeth, ond eich drwg-ewyllys eich hunain? Chwi a *ddewisasoch* gael eich *damnio.*

---

## Y DEFNYDDIAD.

1. ODDIWRTH hyn y gellwch weled, nid yn unig gymmaint cabledd ac annuwioldeb yw, i ddynion geisio gwneuthur Duw yn achos o'u dinystr; ond hefyd pa mor hollol anweddus yw i'r fath greaduriaid annuwiol gynnyg dwyn ymlaen y fath achwyniad yn erbyn eu Creawdwr. Y maent yn gwaeddi allan yn erbyn Duw, ac yn dywedyd, "Nad yw efe yn foddlon i roddi gras iddynt, a bod ei fygythion yn galed; ac (meddynt) na atto Duw fod pob dyn annychweledig yn golledig:" ac y maent yn tybied mai gweithred dost yw bwrw dyn i boenau diddiwedd am bechod byr; ac os cânt hwy eu damnio, y maent yn taeru nas gallant hepgor mo hynny, pan yn y cyfamser y maent yn brysur ynghylch eu dinystr eu hunain, ac yn andwyo eu heneidiau eu hunain, ac ni fynnant gym-

meryd eu cynghori, nac i neb attal eu dwylaw.* Ac y maent yn tybied y byddai Duw yn annhrugarog, os byddai iddo eu damnio: ac er hynny y maent mor ddidrugaredd tuag attynt eu hunain, fel ag y maent yn rhedeg i dàn uffern, pan y mae Duw wedi eu rhag-rybuddio, a dangos iddynt mor agos y maent atto, a'u bod yn prysuro yno; ac nid oes nac ymbiliau, na bygythion, na dim ag a ellir ei ddywedyd wrthynt, a ddichon eu hattal. Yr ydym yn gweled eu bod ymron darfod am danynt; y mae eu bucheddau drwg, bydol, ac annuwiol, yn dangos eu bod yn meddiant y diafol; ac nyni a wyddom, os marw a wnant, heb gael troedigaeth, ac heb edifeirwch, na ddichon yr holl fyd eu hachub; a chan ein bod yn gwybod ansicrwydd eu bywyd, yr ydym yn ofni bob dydd rhag iddynt syrthio i dân uffern. Ac o herwydd hynny, yr ydym yn erfyn arnynt i dosturio wrth eu heneidiau, ac na wnelont ddinystrio eu hunain, a thrugaredd mor agos attynt, ac mor hawdd ei gael, ond ni fynnant wrando arnom. Yr ydym yn deisyfu arnynt i fwrw ymaith eu pechodau, a dyfod at Grist yn ddioedi, ac i gymmeryd peth trugaredd arnynt eu hunain, ond nis gwnant. Ac er hyn oll,

* Saesneg, *cutting the throat of their own souls;* h. y. torri corn gwddf eu heneidiau.

hwy a dybiant Dduw yn galed ac yn annhrugarog, os condemnia efe hwynt.

Oh bechaduriaid cyndyn a thruenus! nid Duw sydd yn greulon tuag attoch, ond chwychwi sydd yn greulon tuag attoch eich hunain. Dywedir wrthych, y bydd raid i chwi naill neu droi, neu gael eich llosgi; ac er hynny ni ddychwelwch. Dywedir wrthych, os bydd i chwi ddal gafael yn eich pechodau, y bydd raid i chwi hefyd gymmeryd gafael yn melldithion Duw gyd a hwy; ac er hynny chwi a fynnwch aros ynddynt. Y mae gair Duw yn tystiolaethu i chwi, nad oes yr un ffordd arall i chwi gael heddwch a dedwyddwch, ond trwy *sancteiddrwydd;* ac er hyn oll ni fynnwch gael eich golchi, a'ch puro, a'ch sancteiddio. Pa beth yn ychwaneg a fynnech i Dduw ei ddywedyd wrthych? Pa beth a fynnech iddo wneuthur yn ychwaneg â'i drugaredd? Y mae yn ei gynnyg i chwi, ond ni fynnwch ei dderbyn. Yr ydych megis wedi syrthio i ffosydd pechod a thrueni, ac y mae efe yn estyn allan ei law i'ch achub, a chwithau yn gwrthod: efe a ewyllysiai eich glanhau oddiwrth eich pechodau, a chwithau yn dewis eu cadw. A fynnech chwi iddo eich cymmeryd i'r nefoedd yn erbyn eich ewyllys? neu a ewyllysiech chwi iddo eich dwyn chwi yno *yn*, neu *gyd a*

eich pechodau? Yn ddiau, hyn sydd yn ammhossibl; yr un peth a fyddai i chwi ddisgwyl iddo droi'r haul yn dywyllwch. Pa beth! calon halogedig (sef heb ei sancteiddio) yn y nefoedd! Ni ddichon hyn fod: canys *dim aflan nid â i mewn yno.*—"Ar hyd y dydd yr estynais fy nwylaw at bobl anufudd ac yn gwrthddywedyd." Rhuf. 10: 21. Pa beth a wnewch yn awr? A alwch chwi ar Dduw am drugaredd?

Wele, y mae Duw yn galw arnoch chwi i gymmeryd trugaredd arnoch eich hunain, ac nis gwnewch. Yr ydym ni, gweinidogion yr efengyl, yn gweled y cwppan gwenwyn yn llaw'r meddwyn, ac yn dywedyd wrtho, fod gwenwyn ynddo, ac yn dymuno arno i dosturio wrth ei enaid, ac i ymattal; ond ni fyn efe wrando arnom: yfed o hono a wna efe, er gwaethaf pob rhybudd, canys y mae yn ei fawr hoffi: ac er i uffern ddyfod yn nesaf, (sef yn union ar ei ol,) y mae efe yn dywedyd nad oes ganddo *help* yn y byd. Pa beth a allwn ei ddywedyd wrth y cyfryw ddynion a hyn? Yr ydym yn dywedyd wrth yr annuwiol, na wna'r cyfryw fuchedd ddim o'r tro, na chwaith fyth ei ddwyn i'r nefoedd. Pe byddai arth, neu ryw fwystfil ysglyfaethus, ar eich ol, chwi a brysurech eich camrau; a phan y mae melldith Dduw yn eich

canlyn, a Satan ac uffern yn barod i'ch difetha, oni cheisiwch chwi ddiangc, yn hytrach nâ gofyn, (mor ynfyd,) "Pa achos wrth yr holl helynt hyn?" Ystyriwch, onid ydyw enaid anfarwol o fwy gwerth, ïe, gwerth anfeidrol? Oh, gan hynny, bydded i chwi dosturio wrthych eich hunain! Ac er i ni ymbil arnynt fel hyn, ni thosturiant, ac ni wrandawant. Yr ydym yn dywedyd wrthynt, y bydd y diwedd yn chwerwedd. A phwy a ddichon aros gyd a'r tân tragywyddol? Ac etto, er hyn oll, ni thosturiant wrthynt eu hunain. Ac a fydd i'r trueiniaid digywilydd hyn ddywedyd yn rhyfygus, "Y mae Duw yn fwy trugarog na hynny, ac nis gwna efe ein condemnio," heb ystyried mai hwynt-hwy sydd yn rhuthro ymlaen, ac yn eu condemnio eu hunain, ac nis gallwn (mewn un modd) eu rhwystro? Pe byddai i ni gwympo i lawr o'u blaen ar ein gliniau ac ymbil arnynt, etto nis gallem eu hattal: ond ymlaen yr ânt i uffern, ac, ar yr un pryd, ni fynnant gredu eu bod yn prysuro yno. Pe byddai i ni erfyn arnynt er mwyn y Duw hwnnw yr hwn a'u gwnaeth, ac sydd yn eu cynnal; er mwyn Crist, yr hwn a fu farw drostynt; ac er mwyn eu heneidiau tlodion eu hunain, i dosturio wrthynt eu hunain, ac na wnelont fyned ymlaen ymhellach ar hyd y ffordd

sydd yn tywys i uffern, ond dyfod o honynt at Grist tra y mae ei freichiau yn agored i'w derbyn, a myned i mewn atto (i'r wledd) tra y mae y drws yn agored, a derbyn trugaredd tra y mae trugaredd i'w gael; ond etto, er hyn oll, ni fynnant gymmeryd eu cynghori, ond yn unig dywedyd yn rhyfygus ac yn anystyriol, "Yr ydwyf yn gobeithio y bydd Duw yn drugarog wrthyf." Ond Oh, chwi rai annoethion! onid ystyriasoch yr hyn y mae efe yn ei ddywedyd wrthych, "Canys nid pobl ddeallgar ydynt: am hynny yr hwn a'u gwnaeth ni thosturia wrthynt; a'r hwn a'u lluniodd ni thrugarha wrthynt." Esa. 27 : 11. Os nacca rhyw ddyn eich dilladu, a chwithau yn noethion, neu wrthod rhoddi i chwi fwyd, a chwi yn newynog, chwi a ddywedech ei fod yn annhrugarog. Pe y taflai efe chwi i garchar, neu eich curo, a'ch poenydio, chwi a ddywedech yn ddiau ei fod yn greulon iawn. Ac etto chwi a wnewch fwy, filoedd o weithiau, yn eich erbyn eich hunain, ac hyd y nod taflu ymaith eich eneidiau a'ch cyrph yn dragywyddol; a hyn oll heb feddwl na chwyno dim o herwydd eich annhrugarogrwydd eich hunain.Ië, a Duw ei hun, yr hwn a fu yn disgwyl am le i drugarhau wrthych, yr holl amser hyn, a gyfrifir gennych yn annhrugar-

og, o herwydd y bydd iddo mor gyfiawn eich cospi. Canys oni fydd i'r Duw sanctaidd ganiattau i'r dynion drygionus hyn *fathru dan draed waed* ei anwyl Fab, a *difenwi Yspryd y gras*, a dewis eu trachwantau cnawdol, o flaen cadwedigol ras; ac oni fydd i'r Arglwydd, ar ol hyn oll, eu hachub trwy'r weithred honno o drugaredd, ag y maent yn awr yn ei gwrthod a'i diystyru, yna y maent yn barod i'w alw yn Dduw creulon ac annhrugarog. Ond efe a gyfiawnheir pan farno; ac ni fydd iddo na syrthio na sefyll yn ol barn pryfyn gwael, pechadurus.

2. Oddiwrth hyn y gellwch sylwi, 1. Pa fath demtiwr dichellgar yw Satan. 2. Pa fath beth twyllodrus yw pechod. 3. A pha mor annoeth ac ynfyd yw dyn yn ei gyflwr llygredig, naturiol. Temtiwr dichellgar, ystrywgar iawn yn wir, gan ei fod yn medru perswadio y rhan fwyaf o'r byd i fyned yn ewyllysgar i'r tân tragywyddol, pan y maent wedi cael eu rhybuddio a'u cynghori mor aml. Ac onid ydyw pechod yn beth twyllodrus iawn, pan y mae yn gallu llygad-dynnu cynnifer o filoedd, a'u hudo i ymadael â bywyd tragywyddol, am beth sydd mor gwbl wael, distadl, a dirmygedig! Ië, a pha mor ffol ac ynfyd yw dyn, yr hwn sydd yn cymmeryd ei dwyllo o'i iachawdwriaeth

am ddim, ïe, am yr hyn sydd yn ysgafnach nâ gwegi, a hynny gan elyn, ïe, un ag a ŵyr ei fod yn elyn marwol iddo! Chwi a'i tybiech yn beth anghredadwy fod un dyn mor ynfyd a chymmeryd ei hudo i'w daflu ei hun i'r tân, neu'r dwfr, i'r dyben o'i ddinystrio ei hun, a hynny am ddim; ac etto dynion a gymmerant eu twyllo i'w taflu eu hunain i uffern. Pe byddai estyn einioes ar eich llaw eich hunain, fel na byddai i chwi farw, oni fyddai i chwi ladd eich hunain, pa mor hir y byddai'r rhan fwyaf o honoch fyw! Ac etto pan y mae bywyd tragywyddol cyn belled a hynny yn eich dwylaw eich hunain, (dan Dduw,) fel nas gallwch fod yn golledig, heb i chwi ddinystrio eich hunain; er hynny pa cyn lleied nifer o honoch fydd yn ymattal rhag rhuthro i ddinystr! Och, pa fath adyn ffol a diddeall yw dyn! a pha fath beth hudoliaethus, twyllodrus, yw pechod!

Yn ddiweddaf, Gallwch ddysgu oddiwrth hyn, mai gelyn mwyaf dyn yw ef ei hun; a'r farn fwyaf a ddichon ddyfod arno yn y byd hwn, yw cael ei adael iddo ei hun; a'r gwaith mawr sydd gan Grist i'w wneuthur, yw ein hachub ni rhagddom ein hunain; ac achwyniadau trymmaf dynion a ddylai fod yn eu herbyn eu hunain; a'r gwaith mwyaf ag sydd gennym tuag attom ein hunain, yw ein

gwrthwynebu ein hunain; a'r gelynion mwyaf a ddylaem ni beunydd weddio yn eu herbyn, a gwylio, ac ymdrechu yn eu herbyn, yw ein calonnau drwg, a'n hewyllysiau llygredig; a'r gwaith mwyaf buddiol ac angenrheidiol ag a fedrwch chwi wneuthur i eraill, os ydych yn ewyllysio gwneuthur daioni iddynt, a'u cymhorth ymlaen i'r nefoedd, yw ceisio eu hachub rhagddynt eu hunain, sef rhag eu gwybodaeth ammherffaith, a'u dealldwriaeth tywyll, a'u hewyllysiau llygredig, a'u serchiadau cyndyn, afreolus, a'u hanwydau pechadurus, a'u synwyrau ynfyd eu hunain; yr ydwyf yn unig yn *enwi* y rhai hyn oll, rhag bod yn faith ar y pwngc hwn, ac yn eu gadael i'ch hystyriaeth.

Felly, yr ydym yr awrhon wedi cael allan y llofrudd (*murderer*) mawr eneidiau, (sef dynion eu hunain, a'u hewyllysiau eu hunain,) pa beth sydd i'w wneuthur yn ychwaneg, ond bod i chwi gyffesu'r camwedd mawr hwn o flaen yr Arglwydd, ac ymddarostwng eich hunain i'r llwch, ac edifarhau am dano, a gweddio am ras a chymhorth fel na phechoch felly mwyach? Chwanegaf ychydig eiriau, gan hynny, ar y tri phen canlynol; sef, 1. I'r dyben i'ch argyhoeddi. 2. I'ch gwneuthur yn ostyngedig. 3. I'ch diwygio.

1. Yr ydym yn gwybod cymmaint am natur tra

graslawn Duw, yr hwn sydd yn ewyllysio gwneuthur daioni, ac yn hoffi dangos trugaredd, fel nad oes gennym reswm yn y byd i feddwl mai efe yw achos ein marwolaeth, na chwaith ei alw yn annhrugarog. Efe a wnaeth bob peth yn dda, ac y mae efe yn cadw ac yn cynnal pob peth; "Llygaid pob peth sydd yn disgwyl wrtho, ac y mae efe yn rhoddi iddynt eu bwyd yn ei bryd; ïe, y mae efe yn agor ei law, ac yn diwallu pob peth byw â'i ewyllys da." Y mae efe nid yn unig *yn gyfiawn yn ei holl ffyrdd*, (ac o herwydd hynny efe a wna gyfiawnder tuag at bawb,) *a sanctaidd yn ei holl weithredoedd*, (ac o herwydd hynny nid yw efe yn *achos o*, neu yn *awdwr* pechod,) "ond y mae efe hefyd yn ddaionus i bawb, (medd y Salmydd, 145: 9, 15,) a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd."

Ond am ddyn, ni a wyddom fod ei feddwl yn dywyll, ei ewyllus yn gyndyn, a'i serchiadau a'i anwydau drwg, pechadurus, yn ei gipio ac yn ei brysuro ymlaen mor anystyriol, fel ag y dichon efe fod (trwy ei ynfydrwydd a'i ffolineb, a llygredigaeth ei natur) yn euog o'r fath weithred ddrygionus a dinystrio ei hun gorph ac enaid. "Na ddyweded neb (gan hynny, medd St. Iago, 1 : 13,) pan demtier ef, gan Dduw y'm temtir; canys Duw

nis gellir ei demtio â drwg, ac nid yw efe yn temtio neb: canys yna y temtir pob un, pan y tynner ef, ac y llithier gan ei chwant ei hun; yna chwant wedi ymddwyn, a esgor ar bechod; pechod hefyd pan orphenner, a esgor ar farwolaeth." Chwi a welwch wrth hyn, mai budr-faban eich trachwant eich hunain yw pechod, ac hiliogaeth eich pechod yw marwolaeth, a dyma'r ffrwyth marwol ag a fydd yn sicr o'i ddwyn cyn gynted ag yr addfedo. Y mae ynoch o'ch mewn drysordy o ddrygioni, (megis ag y mae gan y pryf-coppyn ddirgel-gell o wenwyn,) ac o'r hwn yr ydych yn dwyn allan ddinystr i chwi eich hunain, gan nyddu a gwëu y cyfryw wefydd (gweoedd) a maglau ag a fyddant yn sicr o rwydo eich eneidiau i'w niwed a'u colledigaeth.

2. Y mae yn eglur hefyd oddiwrth hyn mai hunain-ddihenyddwyr ydych, o herwydd eich bod mor barod i goledd a chynnwys pob profedigaeth, neu abwyd, a gynnygir i chwi. Nis dichon Satan fod yn fwy parod i'ch annog i ddrygioni, nag yr ydych chwi i wrando arno, ac i gyflawni ei ewyllys. Os ewyllysia efe demtio eich synwyr a'ch dealldwriaeth i gyfeiliornad a rhagfarn, wele chwi yn barod i ufuddhau. Os dewisa efe eich rhwystro rhag bwriadau da, ac addunedau duwiol, dyna efe

yn fuan yn cael ei ddymuniad. Os ewyllysia efe gynhyrfu ac ennyn o'ch mewn synniadau cnawdol, trachwantau pechadurus, neu ryw anwydau drwg, wele chwi yn dra ufudd megis caeth-weision. Os ei ddymuniad a fydd godi ynnoch feddyliau aflan, a bwriadau drwg, neu eich llithio ymlaen i ryw weithred erchyll neu anghyfiawn, chwi a fyddwch yn eich dangos eich hunain mor barod fel nad oes eisiau un yspardyn. Os chwennycha eich attal rhag cynnwys meddyliau duwiol, ac arferu geiriau daionus, a chanlyn ffyrdd sanctaidd, ychydig iawn a wna hyn, ac ni fydd yn angenrheidiol cael ffrwyn i'ch rhwystro. Ni fyddwch chwaith yn cymmeryd pwyll nac amser i olrhain, a chwilio'r cynhyrfiadau drwg, ag a fydd efe yn eu dwyn i'ch meddyliau, nac i ystyried y canlyniad; ni fyddwch yn eu gwrthwynebu yn galonnog, gan hyderu yn Nuw, nac yn ceisio eu taflu allan fel ag y bydd efe yn eu bwrw i mewn, na diffoddi'r gwreichion y rhai y mae efe yn ceisio eu hennynnu; ond yn hytrach yn cyduno ag ef, ac yn ei gyfarfod hanner y ffordd, ac yn cofleidio ei ddichellion, ac yn ei hudo ef i'ch temtio.

3. Eich dinystr sydd yn eglur oddi wrthych eich hunain, gan eich bod yn gwrthwynebu pawb ag sydd yn chwennychu eich cymhorth i'ch achub

eich hunain. Duw sydd yn ewyllysio eich cymmorth a'ch achub trwy ei air, a chwithau yn gwrthod, ac yn ei farnu yn rhy galed ac yn rhy gaeth. Efe a ewyllysiai eich sancteiddio â'i Yspryd, ond yr ydych yn ei wrthwynebu ac yn ei ddiffoddi. Os digwydd i ryw un eich ceryddu am bechod, chwi a fyddwch (megis) yn neidio yn ei wyneb; ac os dywed efe wrthych am eich perygl, ychydig iawn o ddiolch a fyddwch yn ei roddi iddo, ond naill neu yn peri iddo edrych atto ei hun, neu, o'r hyn lleiaf, yn ei fwrw heibio â rhyw wag-esgus.

4. Heblaw hyn, y mae'n ymddangos eich bod yn hunain-ddinystrwyr, o herwydd eich bod yn cymmeryd achlysur i wneuthur y Duw bendigedig yn achos o'ch pechod a'ch dinystr. Nid oeddech yn ymfoddloni i drefniadau ei ddoethineb: nid derbyniol gennych ei gyfiawnder, gan eich bod yn ei alw yn greulondeb: ac nid yw ei sancteiddrwydd chwaith yn eich boddloni, gan eich bod yn barod i feddwl ei fod yn gyffelyb i chwi, ("Tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun," Salm 50 : 21,) a'i fod yn gwneuthur mor ysgafn o bechod ag y byddwch chwi: ei wirionedd nid yw dderbyniol gennych, a chwi a fynnwch i'w fygythion, ie, ei fygythion pendant, fod yn anwireddog: a'i ddaioni, yr hwn yr ydych yn ceisio ymddangos

eich bod yn ei garu fwyaf, yr ydych mewn rhan yn ei wrthwynebu, gan ei fod yn chwennych eich tywys i edifeirwch; ac mewn rhan yr ydych yn ei gablu, gan geisio felly eich cadarnhau eich hunain yn eich pechodau, fel pe gallech bechu yn hyfach, o herwydd fod Duw yn drugarog.

5. Ië, yr ydych yn dwyn dinystr oddiwrth y Gwaredwr bendigedig, a marwolaeth oddiwrth Arglwydd y bywyd ei hun. Ac nid oes dim yn eich gwneuthur yn hyfach a mwy eofn mewn pechod, na bod Crist wedi marw trosoch, megis pe byddai perygl marwolaeth yn awr wedi myned heibio, ac y gallech chwithau fyned ymlaen yn hyderus, fel pe byddai Crist wedi myned yn was i Satan, ac y byddai raid iddo ddisgwyl wrthych, tra yr ydych yn ei ddianrhydeddu ac yn ei ammbarchu. Ac yr ydych yn tybied, o herwydd ei fod yn feddyg eneidiau, ac o herwydd ei fod *yn abl i achub hyd yr eithaf bawb a ddeuant at Dduw trwyddo ef;* yr ydych, o herwydd hynny, yn rhyfygus ddisgwyl iddo eich achub chwi, pa un ai gwneloch ddyfod at Dduw trwyddo ef ai peidio. Ac felly yr ymddengys fod rhan fawr o'ch pechodau yn tarddu oddiwrth eich hyder rhyfygus ar farwolaeth Crist.

6. Y mae efe yn rhoddi i chwi drugareddau

mawrion, megis arwyddion o'i gariad, ac megis yn offerynau at ei wasanaeth, a chwithau yn eu troi yn ei erbyn, ac yn eu cam-arferu, er pesgu a boddloni afreolus chwantau'r cnawd. Yr ydych yn bwytta ac yn yfed, er porthi eich blys, ac nid er gogoniant Duw. A'ch dillad yr ydych yn eu camddefnyddio at eich balchder. A'ch golud sydd yn tynnu eich calonnau oddiwrth y nefoedd. A'ch parch a'ch anrhydedd yn y byd sydd yn eich chwyddo ag ymffrost. Ac os byddwch yn cael nerth ac iechyd, hynny a'ch gwna yn fwy diogel a difraw. Ië, yr ydych, trwy ragfarn a chenfigen, yn gwneuthur y trugareddau hynny, ag y mae eraill yn eu mwynhau, yn niweidiol i chwi eich hunain. Canys pan ganfyddoch eraill mewn anrhydedd a goruchafiaeth, yr ydych yn cael eich annog i genfigennu wrthynt. A phan weloch eu golud a'u meddiannau, yr ydych yn barod i'w chwennychu. Os edrychwch ar lendid corphorol, hyn a gynhyrfa anlladrwydd, neu drachwant y cnawd. A da iawn os na fydd duwioldeb hefyd yn frycheuyn yn eich llygad, ac yn rhwystr ar eich ffordd.

7. Ië, hyd y nod y rhoddion hynny ag y mae Duw yn eu cyfrannu i chwi, ac ordinhadau gras hefyd, yr ydych yn eu gwŷrdroi, ac yn eu gwneuth

ur yn achos o bechod. Os digwydd fod gennych fwy doniau nag eraill, chwi a fyddwch yn ymchwyddo mewn hunanoldeb, balchder, ac ymffrost. Chwi a fyddwch yn barnu fod gwrando'r gair, neu glywed eich dyledswydd, yn weithred mor haeddiannol, fel ag yr ydych yn tybied y bydd hynny yn ddigonol, heb ufudd-dod, neu heb gyflawni'r dyledswyddau a orchymynir i chwi. Eich gweddiau a droir yn bechod, o herwydd eich "bod yn chwennychu ac yn edrych ar anghyfiawnder, ac anwiredd yn eich calonnau, ac nid ydych yn cilio oddiwrth ddrygioni pan alwoch ar enw yr Arglwydd." Salm 66 : 18. "Eich gweddiau sydd ffiaidd gan yr Arglwydd, o herwydd troi o honoch eich clust ymaith rhag gwrando ar ei gyfraith;" Diar. 28 : 9; ac o herwydd eich bod "yn barottach i offrymmu aberth ffyliaid (gan dybied eich bod yn gwneuthur rhyw wasanaeth hynod i Dduw) nag i wrando gair Duw, ac ufuddhau iddo." Preg. 5 : 1.

Ac fel hyn y gallaswn ddangos, eich bod yn yr un modd, mewn amryw ystyriaethau eraill, yn gwŷrdroi pob peth ag a ddel yn agos attoch i'ch dinystr eich hunain. Mor eglur ydyw, bod yr annuwiolion yn eu dinystrio eu hunain, a bod eu dinystr o honynt eu hunain.

Meddyliwyf yr awrhon, wrth ystyried yr hyn a

ddywedwyd, ac wrth olrhain ac ail-edrych eich ffyrdd, y dylech fyfyrio ar yr hyn a wnaethoch, a chywilyddio o'r achos, ac ymddarostwng i'r llwch mewn edifeirwch ac hunan-ymwadiad. Ac os nad ydych yn edifeiriol am eich pechodau, attolygaf i chwi ystyried y gwirioneddau canlynol.

1. Ystyriwch eich bod (wrth fod o honoch yn hunain-ddibenyddion) yn troseddu yn erbyn y gynneddf ddyfnaf yn eich natur, sef y gynneddf o hunan-achubiad, a hunan-warediad. Y mae pob peth o'i naturiaeth yn ceisio ei ddaioni ei hun, ac achub ei hoedl ei hun. Ac a fydd i chwi, (yn llwyr wrthwyneb i bob creadur arall,) ymosod ynghylch eich dinystr eich hunain? Pan y gorchymynir i chwi garu eich cymmydogion fel chwi eich hunain, yr ydys yn ei gymmeryd megis peth caniattaol a diamheuol, eich bod yn eich caru eich hunain; ond yn yr ystyr hyn, os na fydd i chwi garu eraill yn *well* nâ chwi eich hunain, y mae'n eglur yr ewyllysiech i'r holl fyd gael ei ddamnio.

2. Ystyriwch hefyd, eich bod fel hyn yn ymddwyn yn hollol groes i eich bwriadau eich hunain? canys myfi a wn yn dda nad ydych yn ewyllysio eich damnedigaeth eich hunain, hyd y nod pan yr ydych yn brysur ynghylch y gwaith o hunan-ddinystr, yr ydych yn ddiau yn tybied eich bod

yn gwneuthur daioni i chwi eich hunain, pan fyddoch yn ymroddi i drachwantau'r cnawd. Ond Och! nid yw hynny ond megis dyn mewn cryd poeth yn yfed ychydig ddwfr oer, yr hwn sydd yn ychwanegu'r clefyd. Gan hynny, os ydych yn ewyllysio mwynhau hyfrydwch, elw, neu anrhydedd, ceisiwch hwynt lle y byddwch yn sicr o'u cael, ond nid yn y ffordd i uffern.

3. Gresyndod mawr eich bod chwi yn gwneuthur hynny, yn eich erbyn eich hunain, yr hyn nis gallai neb arall ar y ddaear, nac yn uffern, ei wneuthur. Pe byddai'r holl fyd wedi cyd-ymgysylltu yn eich erbyn, neu'r holl gythreuliaid yn uffern, etto nis gallent eich dinystrio, heb eich caniattad a'ch cyd-ymroddiad chwi eich hunain. Ac a fydd i chwi wneuthur hynny i'r dyben o'ch dinystrio eich hunain, yr hyn nis gallasai neb arall ei wneuthur? Yr ydych yn ymgynnwys meddyliau atgas am y diafol, o herwydd ei fod yn elyn i chwi, ac yn ceisio eich dinystr; ac a fyddwch chwi yn waeth nâ chythreuliaid i chwi eich hunain? Ond fel hyn y mae gyd a chwi, pan yr ydych yn rhuthro ymlaen i bechod, ac yn gwrthod troi wrth alwad Duw; yr ydych yn gwneuthur mwy yn erbyn eich eneidiau eich hunain, nag a allasai dynion na chythreuliaid ei wneuthur. A phe buasech yn

ceisio dyfeisio ffordd i wneuthur i chwi eich hunain y niwed a'r golled fwyaf ag a allasech, nid oedd dim modd i chwi feddwl am un ffordd gwaeth.

4. Hyn a'ch gwna chwi hefyd yn hunain-ddirboenwyr, ac yn hunain-ymddialwyr, i bob tragywyddoldeb yn uffern, sef meddwl eich bod chwi wedi eich dwyn eich hunain o'ch gwir-fodd i'r cyfryw boenedigaeth. Och! pa fath feddwl poenus annioddefol a fydd i chwi gofio, mai eich gweithred eich hunain oedd hyn, a'ch bod chwi wedi cael eich rhag-rybuddio drachefn a thrachefn o'r dydd hwn, a chwithau heb wrando: a'ch bod chwi wedi pechu o'ch gwir-fodd, ac wedi troi ymaith yn fwriadol oddiwrth Dduw. Chwi a gawsoch amser megis eraill, ond chwi a'i cam-dreuliasoch. Yr oedd gennych athrawon yn gystal ag eraill, ond chwi a wrthodasoch eu haddysgiadau. Chwi a gawsoch siamplau o sancteiddrwydd bucheddol, ond nid oeddech yn ceisio eu canlyn. Chwi a gawsoch gynnyg o Grist, a gras, a gogoniant, yn gystal ag eraill; ond chwi a ddewisasoch eich pleserau cnawdol. Yr oedd gennych foddion yn eich dwylaw, a'r ffordd i'r bywyd yn rhydd o'ch blaen; ond yr oedd eich calonnau cyndyn yn anewyllysgar. Ac oni fydd yn dristwch a gofid annhraethol

i chwi feddwl am eich ynfydrwydd a'ch ffolineb? Oh na byddai i'ch llygaid gael eu hagor i weled y cam a'r anghyfiawnder a wnaethoch mor fwriadol â'ch eneidiau eich hunain! ac fel y byddai i chwi ddeall y geiriau hyn o eiddo Duw yn well; "Gwrandewch addysg, a byddwch ddoethion, nac ymwrthodwch â hi. Gwyn ei fyd y dyn a wrandawo arnaf, ac a wylio yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau, gan warchod wrth byst fy mhyrth i: canys y neb a'm caffo i, a gaiff fywyd, ac a feddianna ewyllys da gan yr Arglwydd: ond y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam â'i enaid ei hun: fy holl gaseion a garant angeu." Diar. 8 : 33, 34.

Gyfeillion anwyl, yr ydwyf mor anewyllysgar i chwi orwedd mewn tân tragywyddol, fel ag yr ydwyf yn gofyn i chwi unwaith yn ychwaneg, pa beth yr ydych yn bwriadu ei wneuthur? A ddychwelwch chwi, neu a fyddwch chwi farw? Er mor bell yr ydych wedi myned mewn pechod, etto os dychwelwch yr awrhon, a dyfod at Grist, eich eneidiau a fyddant byw. Pe buasai hyn ond am eich cyrph yn unig, nyni a fuasem yn gwybod pa beth i'w wneuthur i chwi. Canys pe buasech yn gwrthwynebu, gallasech gael eich dal neu eich rhwymo, tra fuasai'r feddyginiaeth yn cael ei dywallt i'ch genau, a phob erfyn dinystriol a allesit ei gadw

oddi wrthych. Ond am eich eneidiau, nis gellir gwneuthur fel hyn: canys nid yw bossibl i ddyn eich troi, a'ch diwygio, a'ch argyhoeddi, yn erbyn eich ewyllys. Nid oes dim modd dwyn ynfydion gorphwyllog i'r nefoedd mewn cadwyni. Ond y mae'n bur debygol y bydd i chwi gael eich condemnio yn *erbyn* eich ewyllys, o herwydd i chwi bechu *gyd a'ch* ewyllys, (sef o'ch gwir-fodd,) ond nis gellwch gael eich achub yn erbyn, neu yn ngwrthwyneb i'ch ewyllys.

Rhyngodd bodd i ddoethineb Duw osod iachawdwriaeth dyn, mewn ystyr tra helaeth, ar ddewisiad ei ewyllys ei hun; ac na chaiff un dyn fyned i'r nefoedd, yr hwn nid yw yn dewis y *ffordd* i'r nefoedd: ac ni chaiff un dyn fyned i uffern, na fydd gorfod iddo gyfaddef, "Mi a gefais y peth a ddewisais, canys fy ewyllys fy hun a'm dygodd i yma." Yn awr pe gallwn eich cael chwi yn ewyllysgar, sef yn hollol ewyllysgar, gan ddymuno o'ch calonnau i gael eich achub, a chan addunedu (trwy gymhorth gras Duw) i ddychwelyd atto, ac i ymwrthod â'ch pechodau o hyn allan, pe byddech fel hyn yn ewyllysgar, fe fyddai mwy nâ hanner y gwaith wedi ei gyflawni. Ac Och! a fydd raid i ni golli ein cyfeillion, a hwythau golli eu Duw, a'u happusrwydd tragywyddol, a'u heneidiau anfar-

wol, yn unig o eisiau hyn? Yr ydwyf etto unwaith yn ychwaneg yn erfyn arnoch, megis ar fy ngliniau, am wrando o honoch ar lais eich Prynwr, a dychwelyd atto, fel y byddoch byw. Chwychwi oll y rhai a fuoch yn byw mewn anwybodaeth, ac anystyriaeth, rhyfyg, a difrawch hyd yn hyn; chwi oll y rhai oeddech wedi boddi ac ymfaglu yn ngofalon y byd, ac heb ddim dymuniad tuag at Dduw, a thragywyddol ogoniant; chwi oll ag sydd mewn caethiwed i'ch trachwantau afreolus, y rhai ydych yn rhwym yngwasanaeth Satan a phechod, y rhai ydych yn ymhyfrydu mewn gwagedd ac oferedd, a phleserau darfodedig, a'r rhai hynny, *duw pa rai yw eu bol*, y rhai sydd yn bwytta, yn yfed, ac yn meddwi; chwi y rhai nis gwyddoch, ac nis gwelsoch yr angenrheidrwydd o sancteiddrwydd, y rhai nis profasoch, ac nis gwyddoch ddim am waith yr Yspryd Glân yn sancteiddio eich calonnau, y rhai ni chymmodwyd â Duw, a'r rhai ni dderbyniasoch Grist trwy wir a bywiol ffydd, a chyd a chalonnau diolchgar am ei fawr gariad tuag attoch, a'r rhai ni phrofasoch erioed fwy o serch tuag at Dduw a phethau nefol, na chymmaint o ddymuniad tuag atto ag yr ydych yn ei brofi tuag at bethau'r byd hwn: yr ydwyf yn taer erfynu arnoch, nid yn unig er fy mwyn

fy hun, ond er mwyn yr Arglwydd, ac er mwyn eich eneidiau eich hunain, nad eloch ymlaen yn eich pechodau, ac nad arosoch un diwrnod yn hwy yn y cyflwr peryglus yr ydych ynddo; ac yr ydwyf yn dymuno arnoch i edrych o'ch amgylch, ac i alw a gwaeddi ar Dduw am argyhoeddol a chadwedigol ras, fel y dihangoch rhag y plâau sydd o'ch blaen, a'r poenau hynny at y rhai yr ydych yn prysuro. Rhoddaf gennad i chwi naccau i mi bob peth a ofynwyf gennych i mi fy hun, os bydd i chwi ond yn unig ganiattau i mi'r dymuniad hyn. Iē, ymhellach, megis ag yr ewyllysiech ganiattau unrhyw beth a ofynnai'r Arglwydd eich Gwneuthurwr a'ch Iachawdwr gennych, felly na fydded i chwi fod yn anufudd yn hyn o beth; canys os na fydd i chwi ganiattau hyn, ni fydd yr holl bethau eraill a ellwch eu gwneuthur iddo ond ofer a diles, ac nid oes gofal ganddo am danynt. Ac megis ag yr ydych yn gobeithio y bydd iddo wrando eich gweddiau, a chaniattau eich erfyniadau, a'ch bendithio yn awr angeu, ac yn nydd y farn, na wrthodwch ei gynnyg, na fydded i chwi naccau yr hyn y mae yn ei erfyn gennych, yn awr yn amser eich llwyddiant, yn nydd eich hawddfyd. Oh! bydded i chwi goelio hyn, sef fod marwolaeth, a barn, a nefoedd, ac uffern, o fwy pwys nag yr ydych chwi

yn meddwl, ac y byddant yn llawer mwy yn eich golwg, pan ddeloch yn agos attynt, nag y maent yn awr yn ymddangos.

Wele, gobeithio yr ydwyf fod rhai o honoch bellach yn bwriadu *dychwelyd a byw:* a'ch bod yn barod i ofyn i mi, megis ag y gwnaeth yr Iuddewon gynt i Pedr, wedi iddynt gael eu *dwys-bigo* yn eu calonnau, "Ha frawd, *beth a wnawn ni?* Pa fodd y gallwn ni gael ein gwir ddychwelyd? Yr ydym yn ewyllysio bod yn gadwedig, pe gwyddem pa fodd. Na atto Duw i ni mwyach ddewis dinystr, gan wrthod iachawdwriaeth, a gwrthsefyll troedigaeth, fel y gwnaethom ysywaeth, hyd yn hyn."

Os hyn yw eich bwriad, a hyn yw dymuniad eich calonnau, myfi a ddywedaf am danoch, megis ag y gwnaeth Duw gynt wrth bobl ufudd a gobeithiol, "Da y dywedodd y bobl hyn yr hyn oll a ddywedasant. Oh na byddai gyfryw galon ynddynt, i'm hofni i, ac i gadw fy holl orchymynion bob amser!" Deut. 5:28, 29. Eich bwriadau sydd dda: ac Oh na byddai ynoch gyfryw galon fel ag y byddech yn abl ac yn sicr o'u cyflawni! A chyd a'r cyfryw obaith, y rhoddaf i chwi, yn rhwydd iawn, gyfarwyddiadau ac hyfforddiant pa beth i'w wneuthur; a hynny mewn ychydig eiriau, fel y

byddo yn haws i chwi eu cofio at eich ymarferiad.

CYFARWYDDIAD I. Os ydych yn ewyllysio cael eich dychwelyd a bod yn gadwedig, ymegniwch i gael gwybodaeth o angenrheidrwydd a natur gwir droedigaeth. Ystyriwch ymha fath gyflwr truenus yr ydych cyn cael dychweliad, fel y byddo i chwi weled nad yw yn gyflwr i chwi orphwys ynddo. Yr ydych dan bwys (neu felldith) yr holl bechodau ag a fuoch chwi erioed yn euog o honynt; ïe, a than ddigofaint Duw, a melldith y ddeddf: yr ydych yn gaeth-weision i'r diafol, ac yr ydych beunydd yn ei wasanaeth, ac yn cyflawni ei waith, a hynny yn erbyn yr Arglwydd, er dinystr i chwi eich hunain, ac er niwed a cholled i eraill: yr ydych (mewn ystyr ysprydol) yn feirw mewn pechod a chamwedd, ac yn amddifaid o fywyd o sancteiddrwydd, ac heb ddim o'r anian nefol, ac heb ddelw Duw ar eich calonnau. Yr ydych yn anaddas i bob gweithred sanctaidd, ac heb wneuthur dim ag a rynga fodd Duw. A thra yr ydych fel hyn heb edifeirwch, ac heb gael troedigaeth, nid oes i chwi'r un addewid o ffafr nac ymgeledd Duw, nac un sail i ddisgwyl y bydd iddo eich amddiffyn na'ch diogelu; ac o herwydd hynny, y mae eich cyflwr yn beryglus ac ofnadwy iawn, gan eich bod yn byw dan ddigofaint Duw, ac nis gwyddoch pa

awr y gellwch gael eich torri i lawr a'ch bwrw i uffern; canys chwi a fyddwch yn sicr o gael eich damnio, os bydd i chwi farw yn eich cyflwr aflan a phechadurus, heb edifeirwch, ac heb gael troedigaeth; ac nid oes dim modd i chwi ddiangc, ond trwy ddyfod at Iesu Grist, i gael bywyd. Canys ni fydd rhyw ychydig addunedau, (y rhai a dorrir yn fuan drachefn,) neu ryw ychydig ddiwygiad allanol, (am dro,) o ddim llesâd; ond rhaid bod yr edifeirwch yn ddiffuant, a'r troedigaeth yn gyflawn, a'r dychweliad yn hollol. Ceisiwch gadw ar eich meddyliau, fel hyn, ymsyniad dwfn o'ch trueni a'ch llygredigaeth wrth naturiaeth, ac o'r angenrheidrwydd o gael gwir ddychweliad a throedigaeth. Ac y mae'n angenrheidiol i chwi hefyd ddeall a gwybod pa beth a feddylir wrth wir droedigaeth, sef cael calon newydd, ac ewyllys newydd, ïe, ac yspryd, tymher, a thueddiadau newyddion, ac yn ganlynol buchedd, ac ymddugiad, ac ymarweddiad newydd.

Holiad. I ba ddyben, neu pa beth a fydd y canlyniad, a'r budd, a'r llesâd o hynny?

Atteb. I'r dybenion canlynol, y rhai a gewch eu mwynhau: Chwi a gewch eich gwneuthur yn aelodau bywiol o Grist, a chwi a gewch ran a hawl ynddo; chwi gewch eich adnewyddu ar ddelw

Duw, a'ch ail-gyfodi i fywyd newydd a nefol; a chwi a gewch eich achub o dan orthrymder Satan, ac o dan lywodraeth pechod; cael eich cyfiawnhau oddiwrth felldith y ddeddf, a chael maddeuant i'r holl bechodau a fuoch yn euog o honynt yn ystod eich bywyd; cael eich derbyn gan Dduw a'ch gwneuthur yn feibion iddo; a chael rhyddid i ddyfod atto yn hyderus, gan ei alw yn Dad; cael nesâu atto mewn gweddi yn eich holl anghenion a chyfyngderau, a hynny gyd ag addewid o gael eich derbyn yn garedig. Chwi a gewch hefyd yr Yspryd Glân i drigo ynoch, i'ch sancteiddio a'ch tywys i bob daioni; a chwi a gewch ran ynghymmundeb a gweddi'r saint, (neu'r gwir dduwiolion;) chwi a gewch eich addasu at wasanaeth Duw, a chwi a gewch addewid o'r byd sydd yr awrhon, a'r hwn sydd ar ddyfod. Ac yn angeu, eich eneidiau a gânt fyned at Grist; ac yn nydd y farn, yr enaid a'r corph a gânt eu cyfiawnhau a'u gogoneddu, ac felly myned i mewn i lawenydd eich Arglwydd.

II. Os ydych yn ewyllysio cael eich troi, a bod yn gadwedig, byddwch yn aml mewn dwys ystyriaeth, a dirgel fyfyrdod. Anystyriaeth yw'r hyn sydd yn dinystrio'r byd. Ymdynnwch o'r neilldu yn aml, a chiliwch i ryw le dirgel, a myfyriwch

i ba ddyben i'ch gwnaethpwyd, ac i ba bwrpas y'ch anfonwyd i'r byd; ystyriwch ymha fodd y buoch byw hyd yn hyn, yr amser a gollasoch, y pechodau y buoch yn euog o honynt; a myfyriwch hefyd ar fawr gariad Crist, ei ddioddefiadau, a'i holl-ddigonolrwydd; meddyliwch am y perygl yr ydych ynddo; ystyriwch mor agos yw marwolaeth a dydd y farn; myfyriwch mor dra sicr a rhagorol yw llawenydd y nef; meddyliwch hefyd mor sicr ac ofnadwy fydd poenau uffern, ac y bydd dedwyddwch y saint, a thrueni'r annuwiolion, yn ddiddiwedd; a bydded i chwi ystyried mor hollol angenrheidiol yw cael gwir droedigaeth, ffrwythau pa un yw bywyd sanctaidd, a buchedd dduwiol.

III. Os ydych yn ewyllysio cael troedigaeth, a bod yn gadwedig, byddwch ddiwyd a gofalus i fyned i ryw le o addoliad, yn enwedig ar y sabbath, a disgwyliwch wrth Dduw dan bregethiad y gair, yr hyn yw un o'r moddion gosodedig er argyhoeddiad pechaduriaid. Darllenwch yr ysgrythurau, neu wrandewch ar eraill yn eu darllain. Ac megis ag y mae Duw yn goleuo'r byd trwy'r haul, ac nid trwyddo ef ei hun yn unig; felly hefyd y mae efe yn argyhoeddi ac yn achub pechaduriaid trwy ei weinidogion, y rhai ydynt oleuni y byd. Wedi iddo daro Paul i'r llawr, a darostwng ei

ryfyg mewn modd rhyfeddol, efe a anfonodd Ananias atto, i roddi iddo ei olwg. Ac wedi iddo anfon angel at Cornelius, gorchymynwyd iddo alw am Pedr atto, fel y byddai iddo fynegu'r pethau oedd raid iddo eu credu a'u gwneuthur.

IV. Nesêwch at Dduw yn aml, mewn gweddi daer a dyfal. Cyfaddefwch eich pechodau ger ei fron, a galerwch o herwydd eich bucheddau annuwiol a phechadurus, ac ymbiliwch am ras i agor eich llygaid i weled llygredigaeth eich natur, a'r cyflwr peryglus yr ydych ynddo, a'ch dwyn chwi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at y Duw byw. Erfyniwch arno i faddeu yr hyn a aeth heibio, ac i roddi i chwi ei Yspryd, i gyfnewid eich calonnau, a'ch cynnorthwyo i fyw a bucheddu fel y gweddai i Grist'nogion, gan rodio yn ei ffyrdd sancteiddiol ef: gweddiwch arno hefyd am eich cadw rhag profedigaeth; a gwnewch fel hyn beunydd, gan ganlyn y cyfarwyddiadau hyn, ac na ddiffygiwch.

V. Rhoddwch heibio yn ddioedi, ac ymwrthodwch yn ddiattreg, â'ch holl bechodau gwirfoddol ac adnabyddus. Ymattaliwch, ac nac ewch yn y ffordd ddrwg honno ddim pellach. Nac yfwch ddiod gadarn, ac na feddwer chwi mwyach; ond ciliwch o'r lle, a gochelwch yr achlysur o'r pech-

od hwnnw. Bwriwch ymaith eich anlladrwydd a'ch trachwantau cnawdol, a'ch anwydau pechadurus, a hynny gyd a diystyrwch a chasineb. Na fydded i chwi dyngu, na rhegu, nac enllibio, na difenwi mwyach. Ac os darfu i chwi dwyllo rhyw un, neu ddwyn dim oddiar neb trwy gamachwyn, telwch yn ol (fel Zacheus) ar ei bedwerydd. Canys os bydd i chwi droi yn ol, a chanlyn eich hen bechodau, pa fendith a ellwch chwi ddisgwyl ar y moddion ag yr ydych yn eu harferu at eich troedigaeth?

VI. Yn ddiattreg, (os gellwch mewn un modd,) newidiwch eich cymdeithion. Nid chwaith gan ymadael â'ch perthynasau angenrheidiol, ond â'ch cyfeillion drwg, pechadurus, y rhai nid ydynt angenrheidiol, naill neu tuag at eich bywioliaeth na'ch cyssur.

VII. Ymroddwch eich hunain i'r Arglwydd Iesu megis Meddyg eich eneidiau, fel y byddo iddo faddeu i chwi trwy ei waed, a'ch sancteiddio trwy ei Yspryd; trwy ei air, a'i weinidogion, y rhai ydynt offerynau ei Yspryd. "Efe yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd; nid yw neb yn dyfod at y Tad ond trwyddo ef." Ioan, 14 : 6. "Canys nid oes enw arall dan y nef, trwy yr hwn y gellwch fod yn gadwedig." Act. 4 : 12. Astudiwch ei briod-

oliaethau, a myfyriwch ar ei berson a'i natur, a'r hyn a wnaeth ac a ddioddefodd efe trosoch, a pha beth yw efe i chwi, a pha beth a fydd, ac fel y mae efe yn gwbl abl ac addas i ddiwallu eich holl angenrheidiau.

VIII. Os ydych mewn gwirionedd yn bwriadu dychwelyd a byw, gwnewch hynny yn ddioedi. Ac os nad ydych yn barod ac yn foddlon i droi heddyw, yn ddiau nid ydych yn ewyllysio nac yn iawn fwriadu gwneuthur hynny byth. Cofiwch, yr ydych yr holl amser hyn yn gorwedd megis yn eich gwaed; dan euogrwydd llawer mil o bechodau, a than ddigofaint Duw; ac yr ydych yn sefyll ar gyffiniau uffern; ac nid oes ond cam rhyngoch ac angeu. Ac nid yw hwn gyflwr i ddyn fod yn esmwyth ynddo. Cyfodwch i fynu gan hynny, yn ddiattreg, a ffowch am eich einioes, yr un fath ag y diangech allan o'ch tŷ, pe byddai ar dân uwch eich pen. Oh! pe gwyddech ymha fath gyflwr peryglus yr ydych yn byw, a pha fath golled annhraethol yr ydych yn ei gael beunydd, pan y gallech fyw bywyd diogelach a mwy hyfryd, yn ddiau nid oedech yn hwy, ond chwi a ddychwelech at yr Arglwydd yn ddiymaros. Y mae lluoedd yn cyfrgolli wrth oedi (megis) yn fwriadol, pan y maent yn cydnabod yr angenrheidrwydd o wir ddychwel-

iad. Y mae eich bywyd yn fyr, ac yn ansicr; ac ymha gyflwr ofnadwy y byddwch, os bydd i chwi farw cyn cael troedigaeth gwirioneddol? Yr ydych eisoes wedi aros yn rhy hir, ac felly wedi bod yn gwneuthur cam â Duw, tra y mae pechod yn ymgryfhau ac yn gwreiddio, po hwyaf y byddoch yn oedi. A'ch troedigaeth a fydd hefyd yn myned yn fwy anhawdd ac ansicr. Y mae gennych lawer iawn i'w wneuthur, am hynny na roddwch y cwbl heibio hyd y diweddaf, rhag i Dduw eich gadael, a'ch rhoddi i fynu i ganlyn eich ffyrdd cyfeiliornus eich hunain, ac yna y derfydd am danoch yn dragywydd.

IX. Os ydych yn ewyllysio dychwelyd a byw, rhaid i chwi wneuthur hynny yn gwbl, yn hollol, yn ddirannu, ac yn ddi-gadw yn ol: na feddyliwch wneuthur ammodau â Christ, a rhannu eich calonnau rhyngddo ef a'r byd, ac ymadael â rhai pechodau, a chanlyn rhai eraill. Ni fyddai hyn ond eich twyllo eich hunain: "rhaid i chwi ymadael â'r cwbl oll; os amgen, nid ellwch fod yn ddisgyblion iddo." Luc, 14 : 26, 33. Os na fydd i chwi gymmeryd Duw a'r nefoedd yn rhan ac yn gynnysgaeth i chwi, ac felly gosod y cwbl oll wrth draed yr Iesu, ond ewyllysio o honoch gael eich gwynfyd yn eich bywyd, a disgwyl cael i chwi etifedd-

iaeth ar y ddaear, heb weled Duw a gogoniant yn ddigon: ni fydd ond ofer a diles i chwi obeithio am iachawdwriaeth ar yr ammodau hyn; canys nid yw felly i'w chael. Er i chwi fod mewn ymddangosiad yn grefyddol iawn, etto os na fydd hyn ond yn allanol yn unig, fe fydd y ffordd hon mor sicr o'ch tywys i angeu, ag ydyw annuwioldeb cyhoeddus, er ei bod yn fwy gweddus a derbyniol yngolwg dynion.

X. Os ydych yn bwriadu troi a byw, gwnewch hynny gyd a llawn fwriad a hollol benderfyniad, ac na sefwch yn llonydd, gan ymwrando ar ofnau ac amheuaeth, fel pe byddech heb iawn goelio y gallai hynny fod. Na sefwch mewn anwadalwch, fel pe byddech wedi ymrannu rhwng dau feddwl, pa un ai Duw ai'r cnawd yw'r meistr goreu; neu pa un ai'r nefoedd ai uffern a fyddai'r nod a'r dyben goreu; neu pa un ai pechod ai sancteiddrwydd a fyddai'r ffordd oreu. Ond bwriwch ymaith ar unwaith eich holl drachwantau aflan a phechadurus, y rhai yr ymhalogasoch ynddynt; ac yn ddioed ymsefydlwch yn gadarn yn eich meddyliau, a chyd a bwriad diysgog, i droi at Dduw, ac i ymwadu â phob annuwioldeb a phechod; ac na fyddwch fel plantos yn bwhwman, un diwrnod o'r meddwl hyn, a'r llall o feddwl arall; ond deuwch ar unwaith i

gyflawn benderfyniad â'r byd; a chyd ag ymroad hollol a sefydlog, ymroddwch eich hunain, a chwbl a feddoch, â'ch holl galon i Dduw. Ië, yn awr tra yr ydych yn darllain hyn o waith, addunedwch yn ffyddlon gyd a chymhorth gras Duw, a chyn i chwi gysgu un noswaith yn ychwaneg, addunedwch i droi at yr Arglwydd; cyn i chwi symmud o'r lle; cyn i Satan gael cyfleusdra i'ch hudo, a'ch temtio, addunedwch. Canys yn ddiau nis dychwelwch, oni fydd i chwi wneuthur y cyfryw adduned gadarn, diysgog, a safadwy.

Ac yn awr yr ydwyf wedi gwneuthur fy rhan yn y gwaith hwn, fel y byddo i chwi droi wrth alwad Duw, a byw. Pa beth a ddaw o'm llafur nis gwn; myfi a fwriais yr had, (yn ol gorchymmyn Duw,) ond nid ar fy llaw i y mae rhoddi'r cynnydd. Nis gallaf ddwyn y gennadwri ymhellach; nis medraf ei anfon at eich calonnau, na gwneuthur iddo effeithio; ac nis gallaf gyflawni eich gwaith chwi, sef ei dderbyn a'i roesawu; ac nis gallaf chwaith wneuthur yr hyn sydd ar law'r Hollalluog, sef agor eich calonnau, fel y byddo i chwi ei gofleidio gyd a llawenydd: ac nis gallaf ddangos na nefoedd nac uffern i lygaid eich corph, na rhoddi i chwi galonnau newydd, hawddgar, a da.

Ond Oh! tydi Dad trugarog yr eneidiau, tydi a dyngaist nad ydwyt yn ymhyfrydu, ac nad oes hoffder gennyt ym marwolaeth yr annuwiol, ond yn hytrach dychwelyd o hono a byw; na ommedda dy fendith ar yr annogaethau a'r cyfarwyddiadau hyn, ac na chaniatta i'th elynion orfoleddu yn dy olwg, nac i'r hudolwr a'r twyllwr eneidiau i lwyddo yn erbyn dy Fab, dy Yspryd, a'th air. Oh! tosturia wrth bechaduriaid tlodion, annychweledig, y rhai nid oes ganddynt galonnau i dosturio nac i gynnorthwyo eu hunain; gorchymmyn i'r deillion weled, i'r byddariaid glywed, ac na âd i bechod a marwolaeth fod yn abl dy wrthwynebu na sefyll yn dy ŵydd. Deffro y rhai diofal a difraw, sefydla y rhai anwadal, a dyro zel ac eofndra i'r rhai ofnus ac amheus: a bydded i lygaid y rhai hynny ag a fyddant yn darllain y llinelli hyn, wylo o herwydd eu pechodau; a dwg hwy attynt eu hunain, ac at dy Fab Iesu Grist i gael bywyd, cyn i'w pechodau eu dwyn i golledigaeth. Os bydd i ti ond yn unig lefaru'r gair, yna y bydd i'r ymdrechiadau gweiniaid hyn lwyddo, i'r dyben o ennill llawer o eneidiau i'w llawenydd eu hunain, ac i'th dragywyddol ogoniant di. Amen.

DIWEDD.

Hortense Jones

7 1/2
3 1/2
4
10
6
2
2

35

13
8
5
15
4
4
6
1
12

David D Foulkes D Foulkes

D. Foulkes D Foulkes

D Foulkes D Foulkes

D Foulkes D Foulk

D Foulkes

Upper

Mills N J

a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll

m n o p ph r s t th u w y


A b c ch d

M N O P

John Foulkes

John Foulkes

A Book



BRIGHAM YOUNG UNIVERSITY
3 1197 23047 5326

14
3
7200
8640
4320
525600
5
2628000

David D Faulk
David